303. The claimants in claim number PT-2024-CDF-000024 (Coastal Housing Group Ltd and Tai Calon Community Housing Ltd) instructed leading and junior Counsel for the Second and Third Interveners to appear at the hearing on behalf of those two claimants (in addition to their existing leading Counsel and two junior Counsel), so that they could make oral submissions on Issue 5, which they did.
304. The claimants in claim number PT-2024-CDF-000024 (by counsel originally instructed on behalf of the Second and Third Interveners) also submitted a number of written submissions after the hearing, which resulted in further submissions and applications from other parties, including evidence from the Welsh Ministers, on Issue 5.
305. Since the Second and Third Interveners joined late, and were not original parties, the facts of their cases are not part of the Agreed Facts. Extensive reference to those facts was made in evidence filed by them, and in written and oral submissions, but it was apparent from the response, in particular, from the Welsh Ministers, that they were not agreed. These exchanges continued after the hearing dates on 18-19 July, and the final submission from the claimants’ solicitors in claim number PT-2024-CDF-000024 (dated 1 August) stated:

“...there are substantive issues raised within the further submissions – particularly given the lengthy submissions and new evidence relied upon by the Welsh Ministers (...) which our clients would wish to respond to.”

306. The Second and Third Interveners (whose position was later adopted by the claimants) sought an order disapplying regulation 11 of the Supplementary Regulations (the Not Required to Pay provision, set out at para 26 above) as incompatible with their A1P1 rights. They put the relief they seek, in consequence of Issue 5, in four alternative ways (para 45 of the Application to Intervene dated 2 July 2024) as follows:
- i) A declaration that regulation 11 of the Supplementary Regulations [i.e. the Renting Homes (Supplementary Provisions) (Wales) Regulations], and regulation 7 of the Renting Homes (Supported Standard Contracts)

(Supplementary Provisions) (Wales) Regulation 2022 [which is in identical terms] is to be read and given effect compatibly with the Second and Third Interveners' A1P1 rights by reading in the following underlined words:

"The contract-holder is not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation except where the landlord has complied with regulation 6(1) [of the Fitness Regulations] and the only reason the property is treated as unfit for human habitation under regulation 6(6) is because the landlord has not complied with regulations 6(3), (4) (including as substituted by regulation 7(5)) or (5) [of the Fitness Regulations]."

After the hearing, the claimants in claim number PT-2024-CDF-000024, in a written submission from leading and junior counsel originally instructed by the Second and Third Interveners dated 22 July 2024, modified this proposed declaration and re-cast it in the following terms (with additional or amended matter in bold):

"The contract-holder is not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation except where the landlord has complied with regulation 6(1) [of the Fitness Regulations], **has carried out any necessary investigatory or remedial work** and the only reason the property is treated as unfit for human habitation under regulation 6(6) is because **the landlord has not given the contract-holder a copy of the ECR or written notification of any investigatory or remedial work as required by regulations 6(3), (4) (including as substituted by regulation 7(5)) or (5) [of the Fitness Regulations].**"

- ii) Alternatively, regulation 11 of the Supplementary Regulations is to be read as including the following underlined words:

"The contract-holder is not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation except when that would be incompatible with the Convention rights of the landlord."

- iii) Alternatively, a declaration that section 240(6) of the Act is to be read compatibly with the Second and Third Interveners' A1P1 rights.
- iv) Alternatively, an order disapplying regulation 11 in part or whole.

307. It was, however, the position of the claimants (and of counsel for the Second and Third Interveners, who continued to speak for them while acting also for the claimants in claim number PT-2024-CDF-000024) that Issue 5 should not be resolved or decided

until the outcome of the counterclaims, particularly on the issue of unjust enrichment, is known. This was notwithstanding the fact that it was the Second and Third Intervenors and the claimants in claim number PT-2024-CDF-000024 who pressed for this issue to be argued at the hearing.

308. Para 7(b) of the Claimants' Reply (in claim number PT-2024-CDF-000024) on the A1P1 Issues dated 22 July 2024 (after the hearing on 18-19 July 2024) says:

"The Claimants maintain their submission (see their Note of 16 July 2024, para 3) that the A1P1 issue (as opposed to the other issues) should not be resolved without resolving the unjust enrichment counterclaims. While the Court could find that there is a breach of A1P1, it cannot *reject* the A1P1 argument on the assumption (as suggested by [defence counsel]) that the landlords will be entitled to retain any rent paid. If the landlords do have that remedy, it is a highly relevant factor and the interference with A1P1 rights will be less serious in those circumstances (even allowing for the additional rent payable to the DWP), and potentially easier to justify: *Wilson v First County Trust Ltd (No 2)* [2004] 1 AC 816 [48]. If (which is not admitted) the interference is found to be justified on that assumption, and it later transpires that the landlords are not entitled to retain rent paid, the Court will have determined the A1P1 argument on a false factual premise."

(ii) *The position of the Welsh Ministers on Issue 5*

309. The Welsh Ministers contested the challenge to the regulations on A1P1 grounds by the Second and Third Intervenors and the claimants, but only on the basis that the defendants should fail on Issue 1B and fail also in their Counterclaims (see paras 141 and 142 above).
310. The claimants and the Second and Third Intervenors have, not surprisingly, stressed the narrowness of the Welsh Government's position, in not defending their legislation unconditionally.
311. The Welsh Ministers drew a sharp distinction between landlords who were in breach and who were alerted to breach by withholding of rent, and landlords who were not so alerted because rent was not initially withheld, although contract-holders might later try and reclaim it (the Welsh Ministers' position on Issue 1B and on the counterclaims being that the contract-holders should fail in any such attempt).
312. The defendants have, however, succeeded in Issue 1B and we have agreed not to decide the counterclaims at this stage, upon the joint application of all the parties other than the Welsh Ministers.
313. Depending on the outcome of the counterclaims, therefore (as to which we ourselves make no prediction, as we said in para 142 above), the Welsh Ministers initially appeared to concede the A1P1 claim, although it was opposed in its entirety by arguments we heard from the defendants and it is ultimately a matter for the court to decide.

314. On the basis of our decision on Issue 1B, and should the defendants in fact succeed in their counterclaims, the Welsh Ministers initially accepted that their legislation might be in breach of the A1P1 rights of landlords. They submitted (in para 24 of the Position Statement attached to their application to intervene dated 24 May 2024, which they maintained in their final submissions):

“...construing the legislation so that landlords could be faced with providing accommodation for no return over a prolonged period of time when contract-holders had not made any complaint about a breach of regulation 6 and, indeed, might have a financial incentive to refrain from making a complaint, would disproportionately interfere with the A1P1 rights of landlords whilst frustrating the underlying purpose of the legislation which is to ensure that dwellings are free of hazards from defective electrical installations. Whereas the Welsh Ministers’ interpret the legislation, read in light of the common law doctrine of unjust enrichment, as (a) enabling contract-holders to withhold rent in order to incentivise landlords to comply with safety requirements, but (b) not entitling contract-holders to reimbursement of rent actually paid during periods where the only complaint about the dwelling relates to a failure to serve an ECR, strikes a fair and proportionate balance between the Article 8 rights of contract-holders and the A1P1 rights of landlords.”

315. After circulation of the judgment in draft, the Welsh Ministers refined this position in a written submission on 14 October 2024. They said that the Position Statement was filed when there was no suggestion that the regulations were incompatible with the Convention and Issue 5 was not yet in the case. They clarified that, notwithstanding what was said in para 24 of the Position Statement, they do not wish to concede, and do not concede, any breach of A1P1, regardless of our decision on Issue 1B and regardless of the outcome, whatever it may be, of the counterclaims. They referred to their written submissions dated 15 July 2024 (before the hearing) and 25 July 2024 (after the hearing) in this respect. Their written submissions of 15 July 2024 were, however, based on their Issue 1B arguments, which have not succeeded, saying (at para 22) “The combined effect of regulation 6 and regulation 11 is to permit a contract-holder to withhold rent but not to allow the contract holder to reclaim rent already paid, notwithstanding a historic breach of the notification duties” (with emphasis added). Their submissions at the hearing were based on the same distinction. Their written submissions of 25 July 2024 were as well, saying (at para 32) “that a contract-holder is exercising the right to withhold rent under regulation 11 is likely to come to [the] landlord’s attention quickly thereby enabling and prompting any landlord to remedy the breach of regulation 6(3) expeditiously...”
316. Whilst we accept that the Welsh Ministers no longer wish to concede any breach of A1P1, the arguments addressed to us on behalf of the Welsh Ministers were not directed to the circumstance in which they now find themselves, which is that the contract-holders have succeeded on Issue 1B. Nor did they consider the implications of any future success the contract-holders might have on their counterclaims. Their submissions assumed that the contract-holders would fail both on Issue 1B and on their counterclaims, and para 24 of their Position Statement of 24 May 2024 was not

withdrawn until 14 October 2024. Their submissions on Issue 5 are, therefore, not entirely complete at the moment.

(iii) *The position of the defendants on Issue 5*

317. The defendants rejected all the Issue 5 arguments based on A1P1, regardless of the outcome of the counterclaims, and even if Issue 1B is decided (as it has now been decided) in their favour. They proposed counter-declarations, which are pleaded in their counterclaims.

Conclusion on Issue 5

318. The arguments of all the parties on Issue 5 were much more extensive than the summaries above. We listened attentively to them at the hearing and we carefully considered the written submissions, evidence and authorities on Issue 5 to which we were directed before, during and after the hearing by all the parties. We would have liked to have reached a conclusion on them, or at least to have expressed a provisional view on them.
319. The lateness of the intervention by the Second and Third Interveners, and the even later adoption of their substantive arguments on Issue 5 by the claimants, disrupted the orderly progression of the Issue 5 arguments and evidence. The other parties (the Welsh Ministers and the defendants) commendably attempted to marshal their response under acute pressures of time, but the claimants in claim number PT-2024-CDF-000024 objected to us considering those parts of the response submitted after the hearing, and objected to not being able to submit yet further material of their own in response to the response.
320. This is unsatisfactory but would not by itself have deterred us from deciding Issue 5. In the circumstances, we would have admitted all the late material submitted by the defendants and the Welsh Ministers, and we would not have permitted yet further submissions from the claimants in claim number PT-2024-CDF-000024.
321. But we have decided that it is for other reasons premature for us to reach a decision or even to indicate a provisional view on Issue 5.
322. The Welsh Ministers, who have a particular interest in Issue 5 because it is their legislation which is in question, advanced their arguments, as we have said, on the basis that the defendants should fail both on Issue 1B and on their counterclaims. The defendants have, however, succeeded on Issue 1B. If the defendants also succeed on their counterclaims, the Welsh Ministers in their Position Statement accepted that the legislation might be in breach of the landlord parties' A1P1 rights, but not what consequences should follow, whether by way of declaration from the court, or by way of modified secondary legislation. They have subsequently withdrawn the concession, but not completed their arguments (see para 316 above). The defendants, meanwhile, contend that the (original) concession of the Welsh Ministers was wrong, and even though the defendants have succeeded on Issue 1B, and hope to succeed on their counterclaims, the impugned provisions do not breach landlords' A1P1 rights and there is "no legal basis to read them down or accede to any of the claimants' suggested remedial steps" (para 21 of their final written submission dated 24 July 2024).

323. We agree with the claimants and the Second and Third Interveners that it would be wrong to decide Issue 5 on an assumption about the outcome of the counterclaims (para 308 above).
324. We see no benefit, and considerable potential disadvantage, in giving any indication of our current thinking, when so much may depend on the outcome of the counterclaims.
325. We think that the only proper course is to leave the decision on Issue 5 to be made when the outcome of the counterclaims has been determined. We are also concerned by the continuing dispute of fact which is apparent from the materials filed since the hearing, down to and including a letter from the solicitors to the claimants in claim number PT-2024-CDF-000024 and the Second and Third Interveners dated 1 August 2024. We are also disadvantaged by not having full argument from Welsh Ministers covering all the possible outcomes of the counterclaims.
326. Issue 5 requires a decision both of fact and of law. The legal submissions are incomplete without knowledge of the facts, and it is impossible to know the relevant facts until after a decision on the counterclaims.
327. We therefore say no more about Issue 5 and do not decide it.



PT-2024-CDF-000024

[2024] EWHC 2831 (Ch)
YN YR UCHEL LYS BARN
ADRAN SIAWNSRI
LLYS ADRANNOL

Canolfan Cyflawnder Sifil a Theulu Caerdydd
2 Heol y Parc, Caerdydd, CF10 1ET

8 Tachwedd 2024

G E R B R O N:

YR ANRHYDEDDUS MR USTUS GRIFFITHS

EI ANRHYDEDD Y BARNWR JARMAN CB (yn eistedd fel Barnwr yn yr Uchel Lys)

PT-2024-CDF-000024

R H W N G:

- (1) GRŴP TAI ARFORDIROL CYFNGEDIG
(2) TAI CYMUNEDOL TAI CALON CYFNGEDIG

HAWLWYR

- a -

- (1) MRS DAWN MITCHELL
(2) MS HELEN LOUISE JONES

DIFFYNYDDION

PT-2024-CDF-000025

R H W N G:

TAI CYMOEDD I'R ARFORDIR CYFNGEDIG

HAWLYDD

- a -

MR ANDREW WALLBRIDGE

DIFFYNNYDD

R H W N G:

TAI CYMUNEDOL BRON AFON CYFNGEDIG

HAWLYDD

- a -

MR WILLIAM JOHN WADLEY

DIFFYNNYDD

A:

- (1) GWEINIDOGION CYMRU
(2) TRIVALLIS LIMITED
(3) CYMDEITHAS TAI WALES AND WEST CYFNGEDIG

YMYRWYR

PT-2024-CDF-000024

Justin Bates CB, Owain Rhys James a Jack Barber (ar Faterion 1 i 4) a
Paul Bowen CB a Sarah Salmon (ar Fater 5)
(wedi'u cyfarwyddo gan Devonshires Solicitors LLP) ar ran yr Hawlwyr
Ranjit Bhose CB a Tara O' Leary
(wedi'u cyfarwyddo gan Winckworth Sherwood LLP) ar ran y Diffynyddion

PT-2024-CDF-000025

Justin Bates CB, Sarah Salmon, Owain Rhys James a Jack Barber
(wedi'u cyfarwyddo gan yr Adran Gyfreithiol, Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfngedig) ar ran
yr Hawlydd
Ranjit Bhose CB a Tara O' Leary
(wedi'u cyfarwyddo gan Winckworth Sherwood LLP) ar ran y Diffynydd

PT-2024-CDF-000026

Justin Bates CB, Sarah Salmon a Jack Barber
(wedi'u cyfarwyddo gan Hugh James) ar ran yr Hawlydd
Ranjit Bhose CB a Tara O'Leary
(wedi'u cyfarwyddo gan Winckworth Sherwood LLP) ar ran y Diffynydd

Yn ymyrryd ym mhob un o'r tri achos (PT-2024-CDF-000024/25/26)

Emyr Jones a Jack Stanley
(wedi'u cyfarwyddo gan Wasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru) ar ran yr Ymyrwyr
Cyntaf
Paul Bowen CB a Sarah Salmon (wedi'u cyfarwyddo gan Devonshires Solicitors LLP)
ar ran yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr (cyflwyniadau ysgrifenedig yn unig)

Dyddiadau'r gwrandawiad: 18-19 Gorffennaf 2024,
cyflwyniadau ysgrifenedig pellach 22 Gorffennaf - 1 Awst a 14 Hydref 2024

Dyfarniad Cymeradwy

Y Cefndir (para 3)

Cynigion Comisiwn y Gyfraith	(para 7)
Y ddeddfwriaeth	(para 15)
Y Gymraeg	(para 36)
Y materion	(para 40)

Mater 1 (para 41)

Mater 2 (para 44)

Mater 3 (para 45)

Mater 4 (para 46)

Mater 5 (para 47)

MATER 1A (para 48)

<i>Mater 1A – Y Ffeithiau</i>	(para 49)
(i) <i>Contract mediannaeth Mrs Mitchell</i>	(para 54)
(ii) <i>Contract mediannaeth Ms Jones</i>	(para 55)
(iii) <i>Contract mediannaeth Mr Wallbridge</i>	(para 56)
(iv) <i>Contract mediannaeth Mr Wadley</i>	(para 62)
(v) <i>Dyddiadau'r archwiliadau diogelwch trydanol ("ESIs") a'r adroddiadau ar gyflwr trydanol ("ECRs") yn yr achos hwn</i>	(para 66)

Mater 1A – Y Dadleuon

(i) <i>Dadleuon yr hawlwyr</i>	(para 74)
(ii) <i>Dadleuon y diffynyddion</i>	(para 92)
(iii) <i>Dadleuon Gweinidogion Cymru</i>	(para 101)
<i>Mater 1A – Y Penderfyniad</i>	(para 108)

MATER 1B (para 122)

<i>Mater 1B – Y Ffeithiau</i>	(para 124)
<i>Mater 1B – Y Dadleuon</i>	
(i) <i>Dadleuon yr hawlwyr</i>	(para 130)
(ii) <i>Dadleuon y diffynyddion</i>	(para 135)
(iii) <i>Dadleuon Gweinidogion Cymru</i>	(para 141)
<i>Mater 1B – Y Penderfyniad</i>	(para 145)

MATER 2 (para 159)

<i>Mater 2 – Y Ffeithiau</i>	(para 160)
<i>Mater 2 – Y Dadleuon</i>	
(i) <i>Dadleuon yr hawlwyr</i>	(para 161)
(ii) <i>Dadleuon y diffynyddion</i>	(para 173)
(iii) <i>Dadleuon Gweinidogion Cymru</i>	(para 180)
<i>Mater 2 – Y Penderfyniad</i>	(para 184)

MATER 3 (para 206)

<i>Mater 3 – Y Gyfraith</i>	(para 207)
<i>Mater 3 – Y Ffeithiau</i>	(para 215)
<i>Mater 3 – Y Dadleuon</i>	
(i) <i>Dadleuon yr hawlwyr</i>	(para 219)
(ii) <i>Dadleuon y diffynyddion</i>	(para 227)
(iii) <i>Dadleuon Gweinidogion Cymru</i>	(para 241)
<i>Mater 3 – Y Penderfyniad</i>	(para 245)

MATER 4 (para 252)

<i>Mater 4 – Y Gyfraith</i>	(para 257)
<i>Mater 4 – Y Dadleuon</i>	
(i) <i>Dadleuon yr hawlwyr</i>	(para 262)

- (ii) *Dadleuon yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr* (para 267)
- (iii) *Safbwyt Gweinidogion Cymru* (para 270)
- (iv) *Dadleuon y diffynyddion* (para 277)
- Mater 4 - Y Penderfyniad* (para 284)

MATER 5 (para 300)

- (i) *Safbwyt yr hawlwyr a'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr* (para 302)
- (ii) *Safbwyt Gweinidogion Cymru* (para 309)
- (iii) *Safbwyt y diffynyddion* (para 317)
- Casgliad ar Fater 5* (para 318)

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Griffiths a'i Anrhydedd y Barnwr Jarman CB:

1. Daeth Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") i rym ar 1 Rhagfyr 2022. Mae'n Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Senedd erbyn hyn) o dan ei bwerau datganoledig. Mae wedi cael ei disgrifio'n deg i ni mewn dadl fel y newid mwyaf arwyddocaol i gyfraith tai yng Nghymru a Lloegr ers i Ddeddf Cynyddu Rhent a Llog Morgeisi (Cyfngiadau'r Rhyfel) 1915 gyflwyno mesurau rheoli rhenti, dros gan mlynedd yn ôl.
2. Dyma ddyfarniad y llys, y mae'r ddua ohonom wedi cyfrannu ato. Mae wedi cael ei ysgrifennu'n Saesneg yn wreiddiol, ond wedi cael ei gyfieithu, ac mae ar gael yn Gymraeg yn unol â'r arfer blaenorol mewn achosion addas yng Nghymru, e.e. *R (Jones v Cyngor Sir Ddinbych [2016] EWHC 2074 (Gwein) ac R (Comisiynydd y Gymraeg) v Cynillion a Buddsoddiadau Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru [2014] EWHC 488 (Gwein)*.

Y Cefndir

3. Mae'r holl hawlwyr (a'r ail a'r Trydydd Ymyrrwr) yn Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig o fewn ystyr Deddf Tai 1996, yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae gan yr hawlwyr gydgyfrifoldeb am dros 25,000 o gartrefi yng Nghymru (tua 15% o'r cartrefi a ddarperir gan gymdeithasau tai nid-er-elw yng Nghymru).
4. Mae'r holl ddiffynyddion yn feddianwyr y mae eu tenantiaethau wedi'u trosi'n contractau tai o dan y Ddeddf. Maent wedi cytuno i fod yn ddiffynyddion er mwyn gallu cyflwyno'r materion y mae'r hawlwyr yn dymuno'u codi i'r llys. Er eu bod yn bartïon i'r achos prawf hwn drwy drefniant, maent wedi cael eu cynrychioli gan Gwnsleriaid arweiniol ac iau sydd wedi dadlau o blaid eu buddiannau (a buddiannau deiliaid contractau yn gyffredinol) mor gryf ac annibynnol â mewn unrhyw ymgyfreithiad gwrthwynebus arall. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ymyrryd ac wedi gwneud cyflwyniadau, yn yr un modd â dwy gymdeithas dai arall. Rydym yn ddiolchgar i'r holl bartïon, a'u holl gyfreithwyr, am y gwaith sydd wedi'i wneud i ddod â'r achosion hyn i'r llys yn gyflym, er mwyn ateb cwestiynau sy'n cael eu hystyried yn rhai brys oherwydd eu heffaith bosibl ar archwilio cyfrifon y cymdeithasau tai ac ar hawliadau yn y llys sirol am feddiant yn seiliedig ar ôl-ddyledion rhent honedig.
5. Y rheswm uniongyrchol dros ddod â'r achosion hyn i'r llys yw bod yr hawlwyr yn cydnabod eu bod o dan rwymedigaeth i roi adroddiadau ar gyflwr trydanol i'r diffynyddion ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Yn anffodus, er eu bod wedi comisiynu a chael yr adroddiadau hyn, nid oeddent wedi llwyddo i'w darparu yn ffisegol i ddeiliaid contractau, gan gynnwys y diffynyddion, erbyn y dyddiadau dyledus. Erbyn canfod yr amryfusedd hwn, roedd yr adroddiadau nifer o fisodd yn hwyr. Nid oedd yr un deiliaid contract, ac yn sicr yr un diffynydd, wedi peidio â thalu rhent oherwydd hyn. Ond mae'r hawlwyr yn cydnabod bod modd dadlau bod ganddynt hawl i wneud hynny. Yn yr achosion hyn, mae'r hawlwyr yn gofyn am benderfyniad pendant yngylch a yw hynny'n wir ac, os felly, beth yw goblygiadau llawn hynny iddynt hwy, ynghyd â materion cysylltiedig eraill. Dywedwyd wrthym fod yr hawlwyr yn amcangyfrif y gallai dros £50 miliwn fod yn y fantol, wrth ystyried yr holl ddeiliaid contractau (nid dim ond y diffynyddion).

6. Gan nad oes unrhyw ddiffynnydd mewn gwirionedd yn peidio â thalu rhent, mater ar wahân yw a oes ganddo hawl neu a allai fod â hawl i wrth-hawlio am ad-daliad rhent. Am resymau ymarferol, mae'r partïon wedi penderfynu peidio â gofyn i hynny gael ei benderfynu ar hyn o bryd. Felly nid ydym, ar hyn o bryd, yn ymdrin â'r gwirth-hawliadau.

Cynigion Comisiwn y Gyfraith

7. Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn deillio o argymhellion Comisiwn y Gyfraith, a ddechreuodd ymgynghori ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â rhentu cartrefi yn 2002.
8. Yn 2003, lluniodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad cyntaf i Senedd y DU, *Rhentu Cartrefi* (Comisiwn y Gyfraith, Rhif 284). Roedd yn cynnig newidiadau sylfaenol ynghyd â dull gweithredu newydd, a bil i roi'r newidiadau hyn ar waith. Roedd yr adroddiad yn nodi mai'r prif amcan fyddai creu cynllun a fyddai'n lleihau cymhlethod y gyfraith sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng landlordiaid a meddianwyr llety preswyl ("the complexity of the law regulating the relationship between landlords and the occupiers of residential accommodation") [2.3]. Roedd yn dyfynnu'r Arglwydd Hewart ABU a ddywedodd, yn *Parry v Harding* [1925] 1 KB 111, 114:

"It is deplorable that in dealing with such a matter as this, a Court, and still more a private individual, and most of all a private individual who lives in a small tenement, should have to make some sort of path through the labyrinth and jungle of these sections and schedules. One would have thought that this was a matter above all others which the Legislature would take pains to make abundantly clear."

9. Yn [2.5] dywedodd yr adroddiad:

"The proposed Bill will not only include detailed changes to the existing rules, but also fundamental change to the legislative approach to the regulation of this sector of the housing market. In particular the historic linkage between principles of property law and housing legislation will, so far as is practicable, be abandoned; instead, a new approach based on contract which incorporates consumer law principles of fairness and transparency is proposed."

10. Roedd yr adroddiad yn pwysleisio argymhelliaid Comisiwn y Gyfraith mai'r contract rhwng y perchenog a'r deiliad ddylai fod y brif ffynhonnell o'u hawliau a'u rhwymedigaethau priodol, er enghraifft [3.2] ac [4.2-4.3]. Yn [4.3] roedd yn dweud:

"Two essential principles underpin this approach:

(1) agreements between landlords and occupiers should be more transparent; so far as possible the rights and obligations of both parties to the agreement should be set out there, and should not have to be discovered by reference to supplementary rules in Acts of Parliament, law reports or legal textbooks;

(2) agreements should be fair; there should be a fair balance of rights and obligations on both sides of the agreement, for both landlords and occupiers.”

11. Cafodd yr egwyddorion hyn eu cynnal yn yr adroddiad terfynol a luniwyd yn 2006, *Renting Homes: The Final Report* (Comisiwn y Gyfraith Rhif 297) (“yr Adroddiad Terfynol”). Roedd Cyfrol 2 yr Adroddiad Terfynol yn cynnwys y bil drafft. Roedd yr Adroddiad Terfynol yn rhagweld pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a oedd yn rhoi rhagor o gymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bryd hynny, a gwnaeth argymhellion penodol ar gyfer gweithredu yng Nghymru.
12. Yn 2007, derbyniodd Gweinidog Tai Cymru ar y pryd yr argymhellion mewn egwyddor.
13. Yn 2009, gwrthododd Llywodraeth y DU gynigion Comisiwn y Gyfraith ac ni fu unrhyw ddeddfwriaeth ar draws y DU mewn ymateb iddynt.
14. Yn 2012, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno bil tai a oedd wedi'i fodelu'n agos ar gynigion Comisiwn y Gyfraith a gofynnodd iddo adolygu a diweddu ei argymhellion. Gwnaeth hynny yn 2013 yn *Rhentu Cartrefi yng Nghymru* (Papur 337 Comisiwn y Gyfraith). Roedd ei grynodeb o'r argymhellion yn cynnwys:

“2.2 Cymhlethdod y fframwaith cyfreithiol yw un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at enw gwael y sector rhentu, gan fod llawer o'r anghydfodau rhwng landlord a thenant yn deillio o anwybodaeth o'r gyfraith. Canlyniad arall y cymhlethdod hwnnw, sy'n effeithio'n arbennig ar ddarparwyr tai cymdeithasol, yw fod costau cydymffurfio'n uchel a chanlyniadau ymgyfreitha'n anodd i'w rhagweld.

2.3 Bwriad canolog argymhellion Rhentu Cartrefi yw disodli'r darpariaethau statudol dyrys, y rheolau cyfraith gwlad aneglur a'r mathau lluosog o denantiaethau, gan gontactau a reoleiddir drwy statud ac a ddefnyddir gan bob darparwr tai rhent. Bydd contractau enghreifftiol, a seilir ar statud, yn pennu ar ba sail y rhentir llety, yn darparu datganiadau eglur a manwl gywir o hawliau a chyfrifoldebau'r partïon ac yn esbonio o dan ba amgylchiadau y ceir terfynu hawliau meddiannu. Bydd y contractau'n hawdd i'w cael ac i'w deall.”

Y ddeddfwriaeth

15. Mae'r Ddeddf wedi'i modelu'n agos ar gynigion Comisiwn y Gyfraith ac mae'n disodli'r nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol a arferai reoli rhentu cartrefi yng Nghymru.
16. Bydd y rhan fwyaf o bobl sy'n rhentu eu cartrefi yng Nghymru yn ymrwymo i gontact gyda'u landlord, a elwir yn gontact meddiannaeth (adran 1(1)(a) o'r Ddeddf). Mae'r contract yn rhoi'r hawl i berson feddiannu annedd fel cartref am rent neu gydnabyddiaeth: (adran 7(1), (2)-(3)) a disgrifir pob person o'r fath fel deiliad contract yn hytrach na thenant (adran 7(5)). Gall contractau fod naill ai'n ddiogel neu'n safonol

(adran 1(1)(b) a gall fod yna landlordiaid cymunedol neu breifat (adran 2). Bydd landlordiaid cymunedol fel arfer yn ymrwymo i gcontract diogel cyfnodol a dyna'r math o gcontract yr ydym yn ymdrin ag ef.

17. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer telerau'r contract. Mae'r materion allweddol sydd i'w cynnwys mewn contractau diogel yn cynnwys yr annedd, y dyddiad meddiannu, swm y rhent neu gydnabyddiaeth arall a'r cyfnodau rhentu (adran 26). Mae darpariaethau sylfaenol hefyd i'w hymgorffori mewn contractau fel telerau sylfaenol (adran 19). Mae adran 19(3) yn darparu:

“(3) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at adran neu ddarpariaeth arall sydd yn ddarpariaeth sylfaenol yn cael effaith, mewn perthynas â chontract sy'n ymgorffori'r ddarpariaeth sylfaenol (ynghyd ag addasiadau i'r ddarpariaeth neu heb addasiadau iddi), fel cyfeiriad at deler sylfaenol y contract sy'n ymgorffori'r ddarpariaeth honno.”

18. Caiff y landlord a deiliad y contract gytuno nad oes ymgorffori nac ymgorffori wedi'i addasu o'r fath ar yr amod bod sefyllfa deiliad y contract yn gwella drwy hynny (adran 20). Yna nodir darpariaethau atodol y caniateir eu hymgorffori fel telerau atodol, neu y caniateir eu hepgor neu eu haddasu drwy gytundeb ond nad ydynt yn anghydnaus â theler sylfaenol (adrannau 24-25). Gall y partïon hefyd gytuno ar delerau ychwanegol, ond mae cyfyngiadau ar yr hyn y gellir cytuno arno (adran 28).
19. Rhaid i'r landlord “roi” datganiad ysgrifenedig i ddeiliad y contract o fewn 14 diwrnod o feddiannu, yn nodi materion allweddol mewn perthynas â'r contract a'i delerau atodol sylfaenol ac unrhyw delerau ychwanegol gyda gwybodaeth esboniadol ragnodedig (adran 31). Rhaid nodi unrhyw ddarpariaeth sylfaenol neu atodol gymwys nad yw wedi ei hymgorffori fel teler (adran 32). Yn niffyg hynny, caiff deiliad y contract wneud cais i'r llys am ddatganiad ynghylch telerau'r contract (adran 34(1)) ac mae'r landlord yn agored i dalu iawndal i ddeiliad y contract o dan adran 87. Mae'r adran honno, sydd hefyd yn nodi methiannau eraill a allai arwain at ddigolledu, yn bwysig yng nghydestun yr achosion hyn ac felly fe'i nodir yn llawn:

“87 Digolledu oherwydd methiannau yn ymwneud â darparu datganiadau ysgrifenedig etc.

- (1) Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r amgylchiadau y gall landlord ddod yn atebol i dalu tâl digolledu o dan yr adran hon—
- (a) adran 35 (methiant i ddarparu datganiad ysgrifenedig o dan adran 31);
 - (b) adran 36 (darparu datganiad ysgrifenedig anghyflawn);
 - (c) adran 37 (darparu datganiad ysgrifenedig anghywir);
 - (d) adran 40 (methiant i ddarparu gwybodaeth am y landlord o dan adran 39);

- (e) adran 110 (methiant i ddarparu datganiad ysgrifenedig ynghylch amrywio contract diogel);
- (f) adran 129 (methiant i ddarparu datganiad ysgrifenedig ynghylch amrywio contract safonol cyfnodol);
- (g) adran 137 (methiant i ddarparu datganiad ysgrifenedig ynghylch amrywio contract safonol cyfnod penodol).
- (2) Pan fo'r landlord o dan contract meddiannaeth yn atebol i dalu tâl digolledu i ddeiliad y contract o dan yr adran hon, mae swm y tâl digolledu sy'n daladwy ar gyfer diwrnod penodol yn gyfwerth â swm y rhent sy'n daladwy o dan y contract ar gyfer y diwrnod hwnnw.
- (3) Os yw'r contract yn darparu bod rhent i'w dalu ar gyfer cyfnodau heblaw diwrnod, swm y rhent sy'n daladwy ar gyfer un diwrnod yw'r gyfran briodol o'r rhent sy'n daladwy ar gyfer y cyfnod y mae'r diwrnod hwnnw'n perthyn iddo.
- (4) Os yw tâl digolledu yn daladwy oherwydd adran 35, 110, 129 neu 137 (methiant i ddarparu datganiad) caiff deiliad y contract wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n cynyddu swm y tâl digolledu ar y sail fod methiant y landlord i ddarparu datganiad ysgrifenedig yn fwriadol.
- (5) Os yw tâl digolledu yn daladwy oherwydd adran 36 neu 37 (datganiad anghyflawn neu anghywir), caiff deiliad y contract wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n cynyddu swm y tâl digolledu.
- (6) Os gwneir cais o dan is-adran (4) neu (5), caiff y llys gynyddu swm y tâl digolledu sy'n daladwy ar gyfer diwrnod penodol o unrhyw ganran sy'n briodol yn ei farn, heb fod yn fwy na 100 y cant."
20. Mae adran 88 yn nodi fel darpariaeth sylfaenol, wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract meddiannaeth, os yw'r landlord yn atebol i dalu tâl digolledu o dan adran 87, caiff deiliad y contract osod yr atebolwydd hwnnw yn erbyn rhent. Gall deiliad y contract hefyd wneud cais i'r llys am ddatganiad bod datganiad ysgrifenedig yn anghywir. Os yw'r llys yn fodlon bod y datganiad ysgrifenedig yn anghywir oherwydd diffyg bwriadol y landlord, caiff orchymyn y landlord i dalu tâl digolledu o dan adran 87 (adran 37).
21. Mae'r rhan fwyaf o denantiaethau a oedd yn bodoli pan ddaeth y Ddeddf i rym ar y diwrnod penodedig (1 Rhagfyr 2022) yn cael eu trosi'n gcontractau meddiannaeth, ac mae tenantiaethau sicr, diogel a thenantiaethau eraill yn cael eu diddymu (adran 239). Mae darpariaethau sylfaenol yn cael eu hymgorffori mewn contractau wedi eu trosi ac mae'r telerau presennol yn parhau i gael effaith oni bai eu bod yn anghydnaus â darpariaeth o'r fath neu'n destun deddfwriaeth a ddiddymwyd. Mae darpariaethau

atodol yn cael eu hymgorffori fel telerau i'r graddau eu bod yn gydnaws â'r telerau presennol (adran 240).

22. Wrth wraidd yr achos hwn y mae rhwymedigaethau'r landlord o ran cyflwr yr annedd. Mae adran 91 yn ymdrin ag aneddiadau sy'n ffit i bobl fyw ynddynt, fel a ganlyn:

“91 Rhwymedigaeth y landlord: annedd ffit i bobl fyw ynndi

(1) Rhaid i'r landlord o dan gontract diogel, contract safonol cyfnodol neu gontract safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod o lai na saith mlynedd sicrhau bod yr annedd yn ffit i bobl fyw ynndi—

- (a) ar ddyddiad meddiannu'r contract, a
- (b) tra pery'r contract.

(2) Mae'r cyfeiriad at yr annedd yn is-adran (1) yn cynnwys, os yw'r annedd yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, strwythur yr adeilad a'r tu allan i'r adeilad, ynghyd â'r rhannau cyffredin.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract diogel, pob contract safonol cyfnodol, a phob contract safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod o lai na saith mlynedd.”

23. Mae dyletswydd landlord i gadw annedd mewn cyflwr da yn rhwymedigaeth ar wahân ac fe'i nodir yn adran 92:

“92 Rhwymedigaeth y landlord i gadw annedd mewn cyflwr da

(1) Rhaid i'r landlord o dan gontract diogel, contract safonol cyfnodol neu gontract safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod o lai na saith mlynedd—

- (a) cadw'r strwythur a'r tu allan i'r annedd (gan gynnwys draeniau, landeri a phibellau allanol) mewn cyflwr da, a
- (b) cadw'r gosodiadau gwasanaeth yn yr annedd mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn.

(2) Os yw'r annedd yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, rhaid i'r landlord—

- (a) cadw'r strwythur a'r tu allan i unrhyw ran arall o'r adeilad y mae gan y landlord ystad neu fuddiant ynndi (gan gynnwys draeniau, landeri a phibellau allanol) mewn cyflwr da, a

- (b) cadw unrhyw osodiadau gwasanaeth sy'n gwasanaethu'r annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac sydd naill ai—

- (i) yn ffurfio rhan o unrhyw ran o'r adeilad y mae gan y landlord ystad neu fuddiant ynddi, neu
- (ii) yn eiddo i'r landlord neu o dan reolaeth y landlord, mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn.
- (3) Y safon sy'n ofynnol yn ôl is-adrannau (1) a (2), o ran cyflwr yr annedd, yw'r hyn sy'n rhesymol o ystyried oed a chymeriad yr annedd, a'r cyfnod y mae'r annedd yn debygol o fod ar gael i'w meddiannu fel cartref.
- (4) Yn y Rhan hon, ystyr "gosodiad gwasanaeth" yw gosodiad i gyflenwi dŵr, nwy neu drydan, ar gyfer glanweithdra, i gynhesu lle neu i gynhesu dŵr.
- (5) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract diogel, pob contract safonol cyfnodol, a phob contract safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod o lai na saith mlynedd."
24. Nid yw'r Ddeddf ei hun yn nodi sut y gellir penderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi, ond yn hytrach yn rhoi'r cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i ragnodi materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth wneud y penderfyniad hwnnw. Mae adran 94 yn darparu:
- "94 Penderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi**
- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ragnodi materion ac amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu, at ddibenion adran 91(1), a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi ai peidio.
- (2) Wrth arfer y pŵer yn is-adran (1), caiff Gweinidogion Cymru ragnodi materion ac amgylchiadau—
- (a) drwy gyfeirio at unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 2 o Ddeddf Tai 2004 (p. 34) (ystyr perygl categori 1 ("category 1 hazard") a pherygl categori 2 ("category 2 hazard"));
- (b) a allai godi oherwydd methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth o dan adran 92.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy reoliadau—
- (a) gosod gofynion ar landlordiaid at ddiben atal unrhyw faterion neu amgylchiadau rhag codi a allai olygu nad yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi;

(b) rhagnodi, os na chydymffurfir â gofynion a osodir o dan baragraff (a) mewn cysylltiad ag annedd, bod yr annedd i'w thrin fel pe na bai'n ffit i bobl fyw ynndi.”

25. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn gosod terfynau ar y rhwymedigaethau hyn. Os nad yw'r annedd yn ffit i bobl fyw ynndi'n gyfan gwbl neu'n bennaf oherwydd gweithred neu anweithred deiliad y contract neu feddiannydd a ganiateir, yna nid yw adran 91 yn gosod unrhyw atebolrwydd ar y landlord (adran 96(1)). Mae adran 97 yn darparu:

“97 Cyfyngiadau ar adrannau 91 a 92: hysbysiad

(1) Nid yw rhwymedigaethau'r landlord o dan adrannau 91(1)(b) a 92(1) a (2) yn codi hyd nes bod y landlord (neu yn achos cyd-landlordiaid, unrhyw un ohonynt) yn dod i wybod bod angen gwaith neu atgyweiriadau.

(2) Mae'r landlord yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau o dan y darpariaethau hynny os yw'n gwneud y gwaith neu'r atgyweiriadau angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol ar ôl y diwrnod y daw'r landlord i wybod bod ei angen neu eu hangen.”

26. Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 (“y Rheoliadau Atodol”), a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2022, yn nodi'r darpariaethau atodol sy'n cael eu hymgorffori ym mhob contract meddiannaeth sy'n berthnasol i'r achos hwn. Mae rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol yn darparu:

“Cyfnodau pan nad yw'r annedd yn ffit i bobl fyw ynndi

11. “Nid yw'n ofynnol i ddeiliad y contract dalu rhent mewn cysylltiad ag unrhyw ddiwrnod neu ran o ddiwrnod pan na fo'r annedd yn ffit i bobl fyw ynndi.”

27. Gwnaeth Gweinidogion Cymru reoliadau hefyd o dan adran 94(1), sy'n rhagnodi materion ac amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynndi.
28. Daeth Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynndi) (Cymru) 2022 (“y Rheoliadau Ffitrwydd”) i rym, ar yr un pryd â'r Ddeddf, ar 1 Rhagfyr 2022.
29. Mae rheoliad 2(1) yn darparu bod i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau Ffitrwydd “yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf” (yn ddarostyngedig i addasiadau mewn man arall mewn perthynas â dyddiadau sy'n berthnasol i gcontractau wedi'u trosi; rydym yn ystyried y rhain ar wahân).
30. Mae rheoliad 3 yn darparu, wrth benderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynndi ai peidio at ddibenion adran 91(1) o Ddeddf 2016, bod rhaid rhoi sylw i bresenoldeb neu fodolaeth, neu bresenoldeb neu fodolaeth debygol, y materion a restrir yn yr atodlen. Mae'n rhestru 29 o beryglon, sy'n cynnwys y canlynol:

“Peryglon trydanol

23. Bod mewn cyffyrddiad â thrydan.

Tân

24. Bod mewn cyffyrddiad â thân afreolus a'r mwg sy'n gysylltiedig ag ef."
31. Mae rheoliad 5 yn ymdrin â larymau mwg a larymau carbon monocsid.
32. Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn ymdrin â diogelwch trydanol ac yn darparu:

“Diogelwch trydanol

- (1) Rhaid i'r landlord sicrhau bod adroddiad ar gyflwr trydanol diliys mewn cysylltiad â'r annedd yn ystod pob cyfnod meddiannaeth.
- (2) Mae adroddiad ar gyflwr trydanol—
- (a) yn adroddiad ar gyflwr sy'n nodi canlyniadau archwiliad diogelwch trydanol a gynhaliwyd gan berson cymwysedig;
- (b) yn ddiliys—
- (i) hyd at ddiwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cynhaliwyd yr archwiliad diogelwch trydanol ("y dyddiad archwilio"), neu
- (ii) os yw'r adroddiad ar gyflwr trydanol yn nodi y dylid cynnal yr archwiliad diogelwch trydanol nesaf lai na 5 mlynedd ar ôl y dyddiad archwilio, hyd at ddiwedd y dydd erbyn pryd y dylid cynnal, yn unol â'r adroddiad, yr archwiliad diogelwch trydanol nesaf.”
33. Yna, rhestrir y darpariaethau mewn perthynas â gwybodaeth sy'n ymwneud â diogelwch trydanol y mae'n rhaid i'r landlord ei darparu i ddeiliad y contract (rydym wedi nodi rheoliad 6(6) mewn print trwm er mwyn rhoi pwyslais):
- “(3) Rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract, cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad meddiannu -
- (a) copi o'r adroddiad ar gyflwr trydanol mwyaf diweddar, a
- (b) pan fo gwaith ymchwilio neu atgyweirio wedi ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl yr archwiliad diogelwch trydanol y mae'r adroddiad hwnnw yn ymwneud ag ef (a chyn y dyddiad meddiannu), gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith.
- (4) Pan gynhelir archwiliad diogelwch trydanol ar ôl y dyddiad meddiannu, rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract gopi o'r adroddiad ar gyflwr trydanol yn ymwneud â'r archwiliad cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau

â'r diwrnod y cwblhawyd yr archwiliad. [Gweler, fodd bynnag, y geiriad amgen a ddefnyddir ar gyfer contractau wedi'u trosi, fel y rhai yn yr achos presennol, ym mharagraff 35.iii) below]

(5) Pan fo gwaith ymchwilio neu atgyweirio yn cael ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl y dyddiad meddiannu, rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cafodd y landlord y cadarnhad.

(6) Mae annedd i'w thrin fel pe na bai'n ffit i bobl fyw ynnddi ar adeg pan nad yw'r landlord yn cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliad hwn.

(7) At ddibenion paragraff (6), mae landlord—

(a) nad yw wedi cydymffurfio â pharagraff (1) i'w drin fel pe bai'n cydymffurfio â'r paragraff hwnnw ar unrhyw adeg—

(i) pan fo'r landlord wedi cael adroddiad ar gyflwr trydanol, a

(ii) pan fo'r adroddiad hwnnw yn ddilys.

(b) nad yw wedi cydymffurfio â pharagraff (3)(a) neu (4) i'w drin fel pe bai'n cydymffurfio â'r ddarpariaeth dan sylw o'r adeg y rhoddir i ddeiliad y contract gopi o'r adroddiad ar gyflwr trydanol dilyss mwyaf diweddar;

(c) nad yw wedi cydymffurfio â pharagraff (3)(b) neu (5) i'w drin fel pe bai'n cydymffurfio â'r ddarpariaeth dan sylw o'r adeg y rhoddir i ddeiliad y contract gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith.”

34. Mae rheoliad 6(8) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn nodi'r diffiniadau o ymadroddion a ddefnyddir yn y rheoliad (a roddir yn Gymraeg ac yn Saesneg) ac yn cynnwys y canlynol:

“ystyr “archwiliad diogelwch trydanol” (“electrical safety inspection”) yw archwilio a phrofi pob gosodiad gwasanaeth trydanol mewn annedd yn unol â'r safonau diogelwch trydanol;

ystyr “safonau diogelwch trydanol” (“electrical safety standards”) yw'r safonau ar gyfer gosodiadau gwasanaeth trydanol a nodwyd yn y deunawfed argraffiad o'r Rheoliadau Gosod Gwifrau sef y “Wiring Regulations”, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg a'r Sefydliad Safonau Prydeinig fel [BS 7671:2018+A2:20226];

ystyr “gosodiad gwasanaeth trydanol” (“electrical service installation”) yw gosodiad ar gyfer cyflenwi trydan; ac mae

cyfeiriadau at osodiad gwasanaeth trydanol mewn annedd yn cynnwys, pan fo'r annedd yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, osodiad gwasanaeth trydanol sy'n gwasanaethu'r annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac sydd naill ai—

(i) yn ffurfio rhan o unrhyw ran o'r adeilad y mae gan y landlord ystad neu fuddiant ynddi, neu

(ii) yn eiddo i'r landlord neu sydd o dan reolaeth y landlord;

ystyr “person cymwysedig” (“qualified person”) yw person sy'n gymwys i wneud y gwaith arolygu a phrofi ar osodiad gwasanaeth trydanol, ac unrhyw waith archwilio neu waith atgyweirio pellach, yn unol â'r safonau diogelwch trydanol;

ystyr “cadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith” (“written confirmation of work”), mewn perthynas â gwaith ymchwilio neu atgyweirio, yw copi o gadarnhad ysgrifenedig gan berson cymwysedig bod y gwaith dan sylw wedi ei wneud.”

35. Mae rheoliad 7 yn cymhwysyo'r darpariaethau hyn i gcontractau wedi eu trosi fel a ganlyn:

i) Yn ôl rheoliad 7(2), yn rheoliad 6(1), ystyr “cyfnod meddiannaeth” yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod sydd 12 mis ar ôl y dyddiad trosi.

ii) Yn ôl rheoliad 7(4), ystyr “dyddiad meddiannu” yn rheoliad 6(3) yw'r diwrnod sydd 12 mis ar ôl y dyddiad trosi [y dyddiad trosi yw'r dyddiad y daeth y denantiaeth neu'r drwydded yn gcontract meddiannaeth o dan adran 240 o'r Ddeddf].

iii) Yn ôl rheoliad 7(5), yn achos contract wedi ei drosi, mae paragraff (4) o reoliad 6 i'w ddarllen fel pe rhoddid y canlynol ar waith:

“(4) Pan gynhelir archwiliad diogelwch trydanol ar ôl i ddeiliad y contract gael adroddiad yn unol ag is-baragraff (a) o baragraff (3) (fel y'i haddaswyd gan reoliad 7(4)), rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir copi i ddeiliad y contract o'r adroddiad ar gyflwr trydanol yn ymwneud â'r archwiliad cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd yr archwiliad”.

Y Gymraeg

36. Yn unol â'r drefn arferol yng Nghymru, mae'r Ddeddf a'r offerynnau statudol a wneir o dan y Ddeddf wedi cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r cychwyn cyntaf. Yn ôl adran 5(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, “Mae i'r testun Cymraeg a'r testun Saesneg statws cyfartal at bob diben”, ac mae adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'r un perwyl yn datgan eu bod i'w trin at bob diben fel pe baent o statws cyfartal (“to be treated for all purposes as being of equal standing”).

37. Yn *R (Driver) v Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf* [2020] EWCA Civ 1759; [2021] ELR 193, rhoddodd y Llys Apêl (Syr Geoffrey Vos (Canghellor), Davies AU a Lewis AU), arweiniad ar ddull llysoedd Cymru a Lloegr o ddehongli deddfwriaeth sy'n cael ei phasio yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd dyfarniad y llys yn dweud (ym mharagraffau 11-12, gan gynnwys mewn cromfachau sgwâr droednodiadau'r Llys Apêl ei hun):

“11. We have had regard to the Law Commission's Final Report on the *Form and accessibility of the law applicable in Wales* 2016. It concluded, and we agree, that the best approach to the interpretation of bilingual legislation, where different language texts bear different meanings, and where it is not possible to reach an interpretation consistent with the literal meaning of both language versions, is to discern the legislative intention by reference to the purposes or objects of the legislation as they appear from the texts, rather than by searching for a shared meaning. [Footnote 1: See paragraph 12.40 of the Law Commission report.] The court should, we think, apply normal principles of statutory interpretation to its analysis of the meaning of both texts equally. There should be no special rule about the admissibility of pre-legislative material and legislative history, but the court should always be astute to the possibility that such materials may favour one language version.

12. The aim of interpreting legislation is to determine the intention of the legislature. Where legislation is enacted in two languages of equal standing, and the parties submit that there is, or may be, a conflict, difference or distinction between the two language versions, detailed analysis of each version may be necessary. Where it is not suggested that the different language versions differ in meaning, the court can be sure that either version reflects the intention of the legislature. Counsel for the Welsh Language Commissioner accepted that this was the position. The approach is also consistent with the principle of ensuring equal standing for both languages, and accords with the position adopted by the Law Commission. [Footnote 2: See paragraphs 12.5-12.8 and 12.17-12.20. Paragraph 12.20 expresses the view that "it is only in circumstances where there is a concern that there is a difference in meaning between the English and Welsh texts that detailed analysis of the two texts will need to take place". See the observations of the Law Commission on article 33 of the Vienna Convention on the Law of Treaties in paragraphs 12.5 to 12.8 of the Law Commission's Report.]”

38. Roedd pob cwnsler ger ein bron yn dadlau'r achos yn bennaf drwy gyfeirio at y testunau Saesneg. Y rheswm am hyn oedd eu bod i gyd yn cytuno nad oes unrhyw wrthdaro, amrywiaeth neu wahaniaeth rhwng y fersiynau yn y ddwy iaith (“conflict, difference or distinction between the two language versions” yng ngeiriau'r Llys Apêl yn

Driver). Cawsom ein cyfeirio hefyd at farn ysgrifenedig gan gwnsler sy'n siarad Cymraeg (Helen Roddick) i'r perwyl hwnnw.

39. Fodd bynnag, cawsom ein hannog i ffurfio ein barn ein hunain ar y pwyt hwn, rhag ofn y dylid dweud mewn achos diweddarach ei fod wedi'i ildio ar gam neu'n ddiangen. Felly, rydym wedi gwneud hynny. Rydym wedi edrych yn ofalus ar y testunau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wrth wneud hynny, cawsom gymorth gan Owain Rhys James, Cwnsler, a gyflwynodd wybodaeth ddefnyddiol i ni yn y gwrandoedd am y fersiynau Cymraeg o'r darpariaethau y mae'r holl ddadleuon wedi canolbwytio arnynt. Rydym yn eithaf bodlon (fel yr awgrymodd Mr James ei hun) nad oes gwrthdaro, amrywiaeth na gwahaniaeth rhwng y fersiynau yn y ddwy iaith at ddibenion y materion sydd ger ein bron a'r dadleuon sydd wedi'u cyflwyno i ni. Felly, nid yw'n berthnasol a ydym yn eu dyfynnu, yn y dyfarniad hwn (a gyhoeddir yn Gymraeg ac yn Saesneg), yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Y materion

40. Mae'r partïon wedi dadlau dros bum mater gerbron y llys.

Mater 1

41. Mae Mater 1 yn ymwneud â'r sefyllfa gcontractiol rhwng yr hawlwyd (fel landlordiaid) a'r diffynyddion (fel deiliaid contract). Mae'r Mater wedi'i rannu'n ddwy ran, sef Materion 1A ac 1B.
42. Mae **Mater 1A** yn anghydfod ynghylch teler atodol contractau meddiannaeth y diffynyddion sy'n dweud nad yw'n ofynnol i ddeiliad y contract dalu rhent mewn cysylltiad ag unrhyw ddiwrnod neu ran o ddiwrnod pan na fo'r annedd yn ffit i bobl fyw ynddi ("not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation"). Mae'r hawlwyd a'r diffynyddion yn anghytuno ynghylch a yw hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau lle mae'r hawlwyd, fel yn yr achos hwn, wedi methu â rhoi copi o'r adroddiad diweddaraf ar gyflwr trydanol i'r diffynyddion (ar adegau perthnasol), fel sy'n ofynnol o dan reoliad 6(3) o'r Rheoliadau Ffitrwydd (paragraff 33 above). Mae'r hawlwyd yn ceisio datganiad nad yw rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol (fel y'i hymgorfforir fel teler atodol yn y contractau meddiannaeth) yn golygu nad oedd rhent yn daladwy gan y diffynyddion mewn perthynas â chyfnod pan nad oedd yr adroddiadau trydanol diweddaraf wedi'u rhoi iddynt ("does not have the effect that rent was not payable by the defendants in respect of a period when the most recent electrical reports had not been given to them"). Maent yn dibynnu ar y ffaith bod adroddiadau trydanol wedi'u sicrhau mewn gwirionedd, a'u bod yn fodhaol, a'u hunig ddiffyg oedd methiant i'w darparu'n ffisegol i ddeiliad y contractau erbyn y dyddiadau priodol.
43. **Mater 1B** yw achos amgen yr hawlwyd sydd, hyd yn oed os ydynt yn methu gyda Mater 1A, yn dweud nad yw'r geiriau

"...not required to pay rent in respect of any day or part day
during which the dwelling is unfit for human habitation"

yn eithrio deiliad y contract rhag talu rhent mewn perthynas â chyfnod pan na roddwyd yr adroddiad cyflwr trydanol diweddaraf iddo. Mewn geiriau eraill, hyd yn oed os nad

oedd y taliad yn ofynnol (“required”), gallai deiliad y contract ddewis talu rhent (ac roedd yr holl ddiffynyddion yn yr achos hwn wedi talu rhent). Mae'r diffynyddion, ar y llaw arall, yn dadlau o dan Fater 1B nad yw'r geiriau “not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation” yn golygu nad oedd rhent yn ddyledus yn gyfreithlon.

Mater 2

44. Mater 2 yw a yw'r geiriau “o'r adeg” yn rheoliad 6(7) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn cael effaith ôl-weithredol. Mae'r hawlwr yn dadlau mai effaith rheoliad 6(7) yw, ar ôl iddynt gyflwyno'r ECRs, er eu bod yn hwyr, eu bod (fel y cyflwynir yn eu dadl fframwaith ym mharagraff 5(b)), yn cael eu gollwng o unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r tor-amod blaenorol. Daeth y rhent mewn perthynas â'r cyfnod o dor-amod yn daladwy wedyn, er bod y cyfnod hwnnw cyn cywiro'r tor-amod.

Mater 3

45. Mae Mater 3 yn ymwneud â'r graddau y mae'n rhaid i adroddiadau trydanol gynnwys rhannau cyffredin yn ogystal â fflatiau'r diffynyddion eu hunain. Mae hyn yn effeithio ar Ms Mitchell yn unig.

Mater 4

46. Mae mater 4 yn anghydfod ynghylch ystyr y “dyddiad meddiannu” yn Rheoliad 6(5) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn achos contractau wedi eu trosi.

Mater 5

47. Mater 5 yw a yw effaith Materion 1 a 2, os penderfynir ar y materion hynny yn erbyn yr hawlwr ac yn erbyn yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr, (neu a all ddigwydd, yn amodol ar ganlyniad gwrth-hawliadau'r diffynyddion) i wneud y ddeddfwriaeth yn anghydnaaws â hawliau'r hawlwr a'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr o dan Erthygl 1, Protocol 1 y Confensiwn Ewropeidd ar Hawliau Dynol, fel y'i deddfwyd yn Atodlen 1 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

MATER 1A

48. Mater 1A yw'r anghydfod ynghylch a yw'n ofynnol i'r diffynyddion dalu rhent pan fydd yr hawlwr wedi methu â darparu'r adroddiadau trydanol gorfodol iddynt.

Mater 1A – Y Ffeithiau

49. Cytunir ar y ffeithiau canlynol. Maent yn berthnasol i Fater 1A (a hefyd i rai o'r materion eraill).
50. Cyn i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2022, roedd yr holl ddiffynyddion eisoes yn denantiaid i'r hawlwr. Roedd ganddynt denantiaethau sicr dan Ddeddf Tai 1988.
- i) Roedd gan Mrs Mitchell denantiaeth sicr gan Grŵp Tai Arfordirol Cyfyngedig, dyddiedig 12 Gorffennaf 2010. Roedd hyn ar gyfer fflat yn St Helens Road,

Abertawe. Dim ond ei chontract hi oedd yn cynnwys rhannau cyffredin yn ogystal â'i fflat ei hun.

- ii) Roedd gan Ms Jones denantiaeth sicr gan Tai Cymunedol Tai Calon Cyfyngedig, dyddiedig 5 Rhagfyr 2011. Roedd hwn ar gyfer tŷ yn Nant-y-glo, Glynebwyl.
 - iii) Roedd gan Mr Wallbridge denantiaeth sicr gan Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig, dyddiedig 17 Chwefror 2014. Roedd hwn ar gyfer tŷ yn Garth, Maesteg.
 - iv) Roedd gan Mr Wadley denantiaeth sicr gan Tai Cymunedol Bron Afon Cyfyngedig, dyddiedig 17 Hydref 2011. Roedd hyn ar gyfer fflat yng Nghroesyceiliog, Cwmbrân.
51. Pan ddaeth Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym ar 1 Rhagfyr 2022, daeth yr holl ddiffynyddion yn ddeiliaid contractau wedi'u trosi yn yr un cyfeiriadau (gweler paragraff 21 above).
52. Roedd yr hawlwyr yn paratoi contractau meddiannaeth ar eu cyfer, a oedd yn seiliedig ar eu cytundebau tenantiaeth sicr presennol ond a oedd yn ymgorffori'r telerau sylfaenol ac atodol sy'n ofynnol gan y Ddeddf a'i rheoliadau cysylltiedig.
53. Ffaith y Cytunwyd arni 12 yw bod gan bob un o'r contractau meddiannaeth newydd, oherwydd eu bod yn gcontractau wedi'u trosi, ddyddiad meddiannu tybiedig o 1 Rhagfyr 2023 (h.y. 12 mis ar ôl i'r tenantiaethau gwreiddiol gael eu trosi'n gcontractau o dan y Ddeddf): gweler rheoliad 7(4) o'r Rheoliadau Ffitrwydd, a nodir ym mharagraff 35 above.

(i) Contract meddiannaeth Mrs Mitchell

54. Rhoddwyd contract meddiannaeth Mrs Mitchell iddi ar 11 Mai 2023. Roedd yn cynnwys y telerau canlynol, gan gynnwys telerau a oedd yn "delerau sylfaenol" (wedi'u marcio F) a thelerau a oedd yn "delerau atodol" (wedi'u marcio ag S) at ddibenion y Ddeddf:

"Care of the dwelling

6.1 We must ensure that the dwelling is fit for human habitation:

- a. on the occupation date of the contract, and
- b. for the duration of the contract. (F)

6.2 The meaning of "dwelling" under term 6.1 above includes, if the dwelling forms part only of a building, the structure and exterior of the building and the common parts. (F)

6.3 Term 6.1 does not impose any liability on us:

- a. in respect of a dwelling which we cannot make fit for human habitation at reasonable expense, or

b. if the dwelling is unfit for human habitation wholly or mainly because of an act or omission (including an act or omission amounting to lack of care) of you or a permitted occupier of the dwelling. (F)

6.4 Where the dwelling forms part only of a building, term 6.1 does not require us to rebuild or reinstate any other part of the building in which we have an estate or interest, in the case of destruction or damage by a relevant cause i.e. fire, storm, flood or other inevitable accident. (F)

6.5 You are not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation. (S)"

(ii) Contract meddiannaeth Ms Jones

55. Cafodd Ms Jones ei chontract meddiannaeth ar 26 Mawrth 2023. Roedd yn cynnwys y telerau canlynol:

“Care of the dwelling

6.1 We must ensure that the dwelling is fit for human habitation:

- a. on the occupation date of the contract, and
- b. for the duration of the contract. (F)

6.2 The meaning of “dwelling” under term 6.1 above includes, if the dwelling forms part only of a building, the structure and exterior of the building and the common parts. (F)

6.3 Term 6.1 does not impose any liability on us:

- a. in respect of a dwelling which we cannot make fit for human habitation at reasonable expense, or
- b. if the dwelling is unfit for human habitation wholly or mainly because of an act or omission (including an act or omission amounting to lack of care) of you or a permitted occupier of the dwelling. (F)

6.4 Where the dwelling forms part only of a building, term 6.1 does not require us to rebuild or reinstate any other part of the building in which we have an estate or interest, in the case of destruction or damage by a relevant cause i.e. fire, storm, flood or other inevitable accident. (F)

6.5 You are not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation. (S)"

(iii) Contract meddiannaeth Mr Wallbridge

56. Yn achos Mr Wallbridge, mae ei landlodiaid (Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig) yn credu eu bod wedi rhoi copi o'i gcontract meddiannaeth diogel iddo ym mis Mawrth 2023 a chopi o slip cywiro ym mis Mai 2023. Nid yw Mr Wallbridge yn credu ei fod wedi cael y naill na'r llall o'r dogfennau hyn, ac mae'n dweud iddo eu gweld am y tro cyntaf ar 19 Ebrill 2024, neu o gwmpas y dyddiad hwnnw, pan gyflwynwyd Manylion yr Hawliad iddo.
57. Nid oes gofyn i ni ddatrys yr anghydfod hwn. Gofynnir i ni, os oes angen, benderfynu ar y materion ar y ddwy sail wahanol; h.y. ar y sail ei fod wedi derbyn y contract meddiannaeth ac ar y sail arall na wnaeth.
58. Ar dudalen 7, roedd y contract meddiannaeth a baratowyd ar gyfer Mr Wallbridge yn dweud bod (F+) mewn cromfachau yn nodi telerau y gellid eu hepgor neu eu newid a (S) mewn cromfachau yn nodi telerau atodol.
59. Roedd y telerau a nodir gyda'r llythyren F+ yn delerau sylfaenol y gellir eu hepgor neu eu newid o dan y Ddeddf drwy gytundeb rhwng y partïon ar yr amod bod sefyllfa deiliad y contract yn gwella o ganlyniad i hynny (gweler adran 20 o'r Ddeddf, a pharagraff 18 above).
60. Ar dudalen 8, dywedodd y contract meddiannaeth a baratowyd ar gyfer Mr Wallbridge nad yw troednodiadau'n rhan o delerau'r contract hwn, ond eu bod wedi'u cynnwys lle mae hynny'n ddefnyddiol ("Footnotes do not form part of the terms of this contract, but have been included where that is helpful").
61. Roedd y contract meddiannaeth a baratowyd ar gyfer Mr Wallbridge yn cynnwys y telerau canlynol.

(Ar dudalen 12):

Periods when the dwelling is unfit for human habitation (S)

1. You are not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation [5].

Mae [5] yn droednodyn sy'n darllen:

"When determining whether a dwelling is fit for human habitation regard must be had to the matters and circumstances set out in the regulations made under section 94 of the Act which can be found on the Welsh Government's website."

(Ar dudalen 28):

Landlord's obligation: fitness for human habitation (F+)

12. (1) The landlord must ensure that the dwelling is fit for human habitation [18] —

(a) on the occupation date of this contract, and

(b) for the duration of this contract.

(3) The reference to the dwelling in paragraph (1) of this term includes, if the dwelling forms part only of a building, the structure and exterior of the building and the common parts.

Mae [18] yn droednodyn sy'n darllen: "When determining whether a dwelling is fit for human habitation regard must be had to the matters and circumstances set out in the regulations made under section 94 of the Act, which can be found on the Welsh Government's website."

(iv) Contract meddiannaeth Mr Wadley

62. Rhoddwyd contract meddiannaeth Mr Wadley iddo ym mis Ionawr 2023. Roedd yn cynnwys y telerau canlynol.

"40. Landlord's obligation to keep a dwelling in repair (F+)

(1) The landlord must —

- (a) keep in repair the structure and exterior of the dwelling (including drains, gutters and external pipes), and
- (b) keep in repair and proper working order the service installations in the dwelling.

(2) If the dwelling forms part only of a building, the landlord must —

(a) keep in repair the structure and exterior of any other part of the building (including drains, gutters and external pipes) in which the landlord has an estate or interest, and

(b) keep in repair and proper working order a service installation which directly or indirectly serves the dwelling, and which either —

- (i) forms part of any part of the building in which the landlord has an estate or interest, or
- (ii) is owned by the landlord or is under the landlord's control.

(3) The standard of repair required by paragraphs (1) and (2) of this term is that which is reasonable having regard to the age and character of the dwelling, and the period during which the dwelling is likely to be available for occupation as a home.

(4) In this contract, "service installation" means an installation for the supply of water, gas or electricity, for sanitation, for space heating or for heating water

Guidance Note – Service installations

Service installations do not include any fixtures, fittings or appliances for making use of water, gas or electricity. It is your responsibility to ensure that there is credit on any applicable meters and that any bills in relation to the supply of services to the Dwelling are paid. Your Landlord will not be responsible where services are interrupted due to non-payment of charges by you.”

(iv) Nid yw'n ofynnol talu rhent pan nad yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi, ym mhob achos

63. Mae'r telerau a nodir uchod yn adlewyrchu contract enghreifftiol Llywodraeth Cymru. Maent i gyd yn cynnwys (fel y nodir uchod) y teler atodol canlynol sy'n berthnasol i Fater 1A, sef:

“You are not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation.”

Roedd cynnwys y teler hwn yn ofynnol o dan reoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol (a nodir ym mharagraff 26 above).

64. Yn achos Mr Wallbridge, er bod anghydfod ynghylch a roddwyd y contract meddiannaeth iddo, a baratowyd ar ei gyfer ac a oedd yn cynnwys y teler hwn, mae'n dir cyffredin bod rhwymedigaeth y landlord i “sicrhau bod yr annedd yn ffit i fyw ynddi” o dan adran 91 o'r Ddeddf (paragraff 22 above) wedi'i hymgorffori yn ei contract fel teler sylfaenol drwy weithredu adran 240(3) a (4) o'r Ddeddf. Mae hefyd yn dir cyffredin i adran 240(3) a (6) o'r Ddeddf a ymgorfforwyd yng nghontract Mr Wallbridge, y teler atodol yn rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol, nad yw'n ofynnol i ddeiliad y contract “dalu rhent mewn perthynas ag unrhyw ddiwrnod neu ran o ddiwrnod pan na fo'r annedd yn ffit i bobl fyw ynddi” (paragraff 26 above).
65. Felly, nid oes anghydfod, drwy ryw fod neu'i gilydd, fod yr holl ddiffynyddion wedi cael budd o'r telerau hyn. Y cwestiwn yw beth y maent yn ei olygu, ar ffeithiau'r achosion presennol.

(v) Dyddiadau'r archwiliadau diogelwch trydanol a'r adroddiadau ar gyflwr trydanol yn yr achos hwn

66. Mae rheoliad 6 ac (yn achos contractau wedi'u trosi) rheoliad 7 o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid sicrhau bod adroddiad ar gyflwr trydanol (“ECR”) dilys yn nodi canlyniadau archwiliad diogelwch trydanol a gynhaliwyd gan berson cymwysedig ac sydd, ymhellach, yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid sicrhau bod yr adroddiadau hyn yn cael eu rhoi i'w deiliaid contractau erbyn dyddiadau penodol. Nodir y darpariaethau hyn ym mharagraffau 32 i 35 above.
67. At ddibenion Mater 1A, mae'r ffeithiau y cytunwyd arnynt am yr adroddiadau hyn fel a ganlyn.
68. Roedd yr holl landlordiaid sy'n hawlwr wedi cynnal archwiliadau diogelwch trydanol (“ESIs”) yn anheddu'r diffynyddion ar wahanol ddyddiadau cyn 15 Rhagfyr 2023.

69. Roedd yr archwiliadau hyn wedi'u cynnal gan berson cymwysedig, h.y. sy'n gymwys i wneud y gwaith archwilio a phrofi ar osodiad gwasanaeth trydanol, ac unrhyw waith ymchwilio neu atgyweirio pellach, yn unol â'r safonau diogelwch trydanol. Nid yw'r diffynyddion yn dadlau hyn, er nad yw hynny'n hysbys iddynt.
70. Mae ECRs wedi bodoli ers dyddiad pob archwiliad (neu'n fuan wedyn) ac ar bob adeg berthnasol y maent wedi bod ym meddiant yr hawlydd perthnasol fel landlord. Maent yn ein papurau.
71. Mae'r hawlwr yn honni, heb ystyried effaith eu methiant i ddarparu ECRs i'r diffynyddion, bod anheddu'r diffynyddion yn ffit i bobl fyw ynddynt mewn gwirionedd, rhwng 15 Rhagfyr 2023 a 4 Ebrill 2024 (sef yr amser perthnasol ar gyfer yr achos hwn). Nid yw'r diffynyddion yn cytuno'n gadarnhaol â'r pwynt hwnnw ond maent yn cytuno, at ddibenion yr achos hwn, y dylem dybio hynny o blaid yr hawlwr.
72. Er gwaethaf y methiant i ddarparu ECRs i'r diffynyddion erbyn y dyddiadau dyledus, nid yw unrhyw ddiffynnydd wedi methu â thalu rhent am y cyfnod rhwng 15 Rhagfyr 2023 a 4 Ebrill 2024 nac, yn wir, am unrhyw gyfnod sy'n berthnasol i'r achos hwn.
73. Nid yw manylion yr ESIs a'r ECRs yn bwysig at y dibenion presennol o bosibl. Fodd bynnag, cytunwyd arnynt ac felly, rydym yn eu cofnodi fel a ganlyn, pa beth bynnag fo gwerth hynny.
- i) Mewn perthynas ag annedd Mrs Mitchell, cafodd ei landlord, Grŵp Tai Arfordirol Cyfyngedig, ECR ar gyfer ei fflat a gymeradwywyd gan y goruchwyliwr cymwysedig ar 2 Medi 2019. Anfonon nhw gopi at Mrs Mitchell drwy'r post dosbarth cyntaf ar 12 Mawrth 2024 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw. Cytunir, felly, iddo gael ei roi iddi ar 14 Mawrth 2024 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw. Ar gyfer y rhannau cyffredin, cafwyd yr ECR ar 26 Gorffennaf 2019 a chafodd ei roi iddi erbyn 4 Ebrill 2024.
 - ii) Mewn perthynas ag annedd Ms Jones, cynhaliodd ei landlord, Tai Cymunedol Tai Calon Cyfyngedig, arolygiad a arweiniodd at ECR yn cael ei hanfon ati drwy'r post dosbarth cyntaf ar 11 Mawrth 2024 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw. Cytunir, felly, iddo gael ei roi iddi ar 13 Mawrth 2024 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw.
 - iii) Mewn perthynas ag annedd Mr Wallbridge, cafodd ei landlord, Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig, ECR ar 23 Awst 2022 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw. Anfonon nhw gopi ato drwy'r post dosbarth cyntaf ar 19 Mawrth 2024. Cytunir, felly, iddo gael ei roi iddo ar 21 Mawrth 2024 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw.
 - iv) Mewn perthynas ag annedd Mr Wadley, cafodd ei landlord, Tai Cymunedol Bron Afon Cyfyngedig, ECR ar 25 Mai 2023 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw. Anfonon nhw gopi ato drwy'r post yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 22 Mawrth 2024. Cytunir, felly, iddo gael ei roi iddo erbyn 25 Mawrth 2024.

Mater 1A – Y Dadleuon

(i) Dadleuon yr hawlwr

74. Achos yr hawlwr ar Fater 1A (sy'n destun dadl gan y diffynyddion) yw nad yw'r geiriau "pan na fo'r annedd yn ffit i bobl fyw ynddi" yn y contractau ac yn y darpariaethau statudol yn cynnwys amgylchiadau lle nad yw'r annedd ond yn cael ei thrin fel annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi oherwydd bod y landlord wedi methu â sicrhau bod deiliad y contract wedi cael copi o'r ECR diweddaraf erbyn y dyddiad priodol.
75. Mae'r hawlwr yn dadlau mai dim ond pan na fo'r eiddo'n wrthrychol yn ffit i bobl fyw ynddo y mae hawl i beidio â thalu rhent. Nid dyma'r achos (dadleuir) pan fu methiant technegol i ddarparu adroddiadau, ond nid oes tystiolaeth o broblem drydanol sylfaenol nac achos o annedd ddim yn ffit i bobl fyw ynddi.
76. Mae'r hawlwr yn nodi, er bod adran 87 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer tâl digolledu, sy'n cyfateb i swm y rhent, os bydd landlord yn methu â darparu copi cyflawn a chyfredol o'r contract ysgrifenedig i ddeiliad y contract, nad yw adran 87 yn gymwys i achosion lle bu methiant i ddarparu ECR.
77. Mae'r hawlwr yn olrhain yr ymadrodd "ddim yn ffit i bobl fyw yno" yn ôl i adran 5 Ddeddf Tai'r Dosbarth Gweithiol 1885 ac yn gwneud y pwynt, er ei fod wedi ymddangos mewn sawl deddfiad ers hynny, nad yw erioed wedi'i awgrymu o'r blaen, cyn Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, y dylai eiddo nad yw, mewn gwirionedd, yn ffit i bobl fyw ynddo gael ei ystyried felly.
78. Mae'r hawlwr yn cyflwyno eu bod yn landlordiaid cydwybodol sydd wedi methu â darparu ECRs dim ond oherwydd amryfusedd dealladwy mewn amgylchiadau lle'r oedd y gyfraith yn newydd ac nad oedd wedi'i deall yn llawn ar y dechrau yn ei holl gymhlethdod. Maent yn nodi, cyn gynted ag y canfuwyd yr amryfusedd, ei fod wedi cael ei unioni'n gyflym, er gwaethaf y nifer fawr o ddeiliaid contractau a oedd yn gysylltiedig. Maent yn dweud mai'r diben statudol yw sicrhau bod annedd yn ffit i fyw ynddi mewn gwirionedd, ac nad yw cyflwyno dogfennau'n hwyr yn tanseilio hynny, yn wahanol i gydymffurfio â mesurau diogelwch sylweddol yn hwyr.
79. Maent yn cyfeirio at yr effaith ariannol ar bob un ohonynt pe bai'r diffynyddion yn llwyddo i brofi nad oedd yn ofynnol iddynt dalu rhent, a phe baent yn llwyddo i wrth-hawlio'r rhent a dalwyd ganddynt serch hynny. Mae Grŵp Tai Arfordirol Cyfyngedig yn amcangyfrif y gallai rhwng £8 miliwn a £9.5 miliwn fod mewn perygl iddynt hwy. Mae Tai Cymunedol Tai Calon Cyfyngedig yn amcangyfrif bod posibl colli ychydig dros £5 miliwn mewn rhent. Mae Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig yn amcangyfrif ffigur ychydig yn llai na £13.4 miliwn. Mae Tai Cymunedol Bron Afon Cyfyngedig yn nodi'r risg ar ychydig o dan £20 miliwn. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys llog na ffioedd a chostau cyfreithiol. Dywedant y bydd colledion ar y raddfa hon yn effeithio ar fuddsoddi mewn tai cymdeithasol yn y dyfodol ac y bydd hynny ar draul y gymuned.
80. Mae'r hawlwr yn dadlau mai'r geiriau perthnasol yw'r rhai yn y contractau, nid yn y Ddeddf a'r rheoliadau, sy'n mynnu eu bod yn cael eu cynnwys yn y contractau, ac felly y dylai egwyddorion dehongli contractau fod yn berthnasol. Maent yn cydnabod nad yw hynny'n wir am Mr Wallbridge ar y rhagdybiaeth na chafodd ei gcontract mewn gwirionedd, gyda'r canlyniad bod ei hawliau'n deillio'n uniongyrchol o'r ddeddfwriaeth.

81. Mewn perthynas â dehongli statudol, mae'r hawlwr yn defnyddio'r rhagdybiaeth yn erbyn dehongliad sy'n hurt, gan gyfeirio at yr Arglwydd Sales UGL yn *R (PACCAR Inc) v Tribiwnlys Apelau Cystadlu* [2023] 1 WLR 2594 ym mharagraff 43. Maent yn dibynnu ar yr egwyddor y bwrir bod bwriad deddfwriaethol yn gyfraith sy'n gyfiawn, gan gyfeirio at yr *Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau v Rowe* [2018] RTR 2 ym mharagraff 21.
82. Maent yn cyfeirio at yr egwyddorion sy'n berthnasol i ddarpariaethau tybio mewn cyfraith statud sy'n cael eu crynhoi gan yr Arglwydd Briggs UGL yn *Fowler v Comisiynwyr Cyllid a Thollau* [2020] 1 WLR 2227 ym mharagraff 27:
- “(1) The extent of the fiction created by a deeming provision is primarily a matter of construction of the statute in which it appears.
- (2) For that purpose the court should ascertain, if it can, the purposes for which and the persons between whom the statutory fiction is to be resorted to, and then apply the deeming provision that far, but not where it would produce effects clearly outside those purposes.
- (3) But those purposes may be difficult to ascertain, and Parliament may not find it easy to prescribe with precision the intended limits of the artificial assumption which the deeming provision requires to be made.
- (4) A deeming provision should not be applied so far as to produce unjust, absurd or anomalous results, unless the court is compelled to do so by clear language.
- (5) But the court should not shrink from applying the fiction created by the deeming provision to the consequences which would inevitably follow from the fiction being real.”
83. Mewn perthynas â dehongli contractau (y dull a ffefrir gan yr hawlwr yn yr achosion hyn), mae'r hawlwr yn cyfeirio at yr egwyddorion arferol sy'n gyfarwydd o achosion fel *Arnold v Britton* [2015] AC 1619 ym mharagraffau 14-23. Mae hyn yn cynnwys (ym mharagraff 19) sylw'r Arglwydd Neuberger:
- “The mere fact that a contractual arrangement, if interpreted according to its natural language, has worked out badly, or even disastrously, for one of the parties is not a reason for departing from the natural language. Commercial common sense is only relevant to the extent of how matters would or could have been perceived by the parties, or by reasonable people in the position of the parties, as at the date that the contract was made.”
84. Mae'r hawlwr yn cyflwyno na ellir tybio bod y statud a'r contractau yn cael yr un effaith. Hyd yn oed pan fo geiriau'r statud wedi'u hymgorffori, gair am air, rhaid i'r geiriau gael eu dehongli yng nghyd-destun y contract, ac nid yw eu hystyr yng nghyd-destun y contract o reidrwydd yr un fath â'u hystyr yng nghyd-destun y statud, ac maent

yn dyfynnu Forbes J yn *GREA Real Property Investments Ltd v Williams* [1979] EGLR 121. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amgylchiadau sy'n benodol i ddeiliaid contractau yn yr achos hwn wedi'u nodi yn y dystiolaeth na'r ffeithiau y cytunwyd arnynt i awgrymu y dylid dehongli eu contractau'n wahanol i rai eraill sydd â'r un geiriad, neu fod rhyw reswm dros ddefnyddio dehongliad contractiol oherwydd ffactorau o'r fath a allai amrywio oddi wrth y dehongliad statudol. Yn wir, mae yn natur yr achosion hyn, fel achosion prawf, i awgrymu y dylid darparu dehongliad cyffredinol.

85. Mae'r hawlwr yn pwysleisio'n gryf, er bod y contractau i gyd yn darparu y bydd y landlord yn "sicrhau bod yr annedd yn ffit i bobl fyw ynddi", ac, os nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi, "nid yw'n ofynnol" i ddeiliad y contract dalu rhent, nad yw wedi'i nodi'n benodol na'i gytuno yn yr un o'r contractau na fydd gofyn talu rhent pan fydd annedd, mewn gwirionedd, yn ffit i bobl fyw ynddi, ond y gellir ei hystyried yn annedd ddim yn ffit, dim ond yn rhinwedd rheoliad 6(6) o'r Rheoliadau Ffitrwydd. Nid yw rheoliad 6(6) yn cael ei fewngludo i'r contractau drwy gyfeiriad; ac nid yw geiriad rheoliad 6(6) yn cael ei atgynhyrchu ynddynt. Felly, argymhellir nad oedd y partïon yn cytuno na fyddai'n rhaid talu dim ond yn rhinwedd y ffaith na thybiwyd fod yr annedd yn ffit i bobl fyw ynddi, yn hytrach na'r ffaith nad oedd yn ffit i bobl fyw ynddi mewn gwirionedd.
86. Mae'r hawlwr yn mynd mor bell ag awgrymu bod absenoldeb darpariaeth dybio rheoliad 6(6) o'r contractau wedi bod yn ddewis ymwybodol gan y drafftsmon, oherwydd byddai bodolaeth rheoliad 6(6) wedi bod yn hysbys, ac felly mae'n rhaid ei fod wedi cael ei hepgor yn fwriadol (paragraff 25 o ddadl fframwaith yr hawlwr).
87. Mae'r hawlwr yn cyflwyno nad oes angen dogfennau ar ddeiliaid y contractau, dim ond anheddu sy'n ffit i bobl fyw ynddynt. Felly, maent yn cyflwyno ei bod yn gyson â'r diben deddfwriaethol na ddylid mewngludo'r ddarpariaeth dybio yn rheoliad 6(6) i gcontractau ac na ddylai, felly, roi hawl i ddeiliaid contract beidio â thalu rhent.
88. Mae'r hawlwr yn cyfyngu ar weithrediad rheoliad 6(6) o'r Rheoliadau Ffitrwydd drwy gyfeirio at adran 94 o'r Ddeddf, ac yn dweud bod adran 94 yn darparu ar gyfer ffactorau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a yw eiddo yn ffit neu beidio at ddibenion adran 91, ac nid at unrhyw ddibenion contractiol. Nodir Adran 94 ym mharagraff 24 above. Mae Adran 91 yn darparu bod yn rhaid i landlord "sicrhau" bod yr annedd yn ffit i bobl fyw ynddi, a bod hyn yn ddarpariaeth sylfaenol a ymgorfforir yn y contractau perthnasol. Difynnir ei thelerau llawn ym mharagraff 22 above. Mae Adran 92 yn gosod rhwymedigaethau i gadw'r annedd mewn cyflwr da, gan gynnwys, yn benodol, mewn perthynas â gosodiadau trydanol (a nodir ym mharagraff 23 above). Mae'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau a osodir gan adran 94 yn ddyletswydd, yn ôl adran 94(1), yn ddyletswydd i ragnodi materion ac amgylchiadau "y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu, at ddibenion adran 91(1), a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi ai peidio" (a nodir ym mharagraff 24 above). Cafodd rheoliad 6(6) ei wneud, fel yr holl Reoliadau Ffitrwydd, drwy arfer y pwerau a roddwyd "gan adrannau 94(1), (2)(b) a (3) a 256(1)" o'r Ddeddf.
89. I'r gwrthwynebiad bod y ffaith fod yr hawlwr yn gwahardd rheoliad 6(6) yn llym o'r contractau yn amddifadu rheoliad 6(6) o unrhyw ddiben, mae'r hawlwr yn ymateb bod gan ddeiliad contract nad yw'n cael ECR er mwyn ymgysylltu â rheoliad 6(6) hawl i siwio: "is entitled to sue so as to require the provision of the ECR. But that does not mean that they are entitled to withhold rent. That is a contractual right only triggered

where a property is *actually* unfit for human habitation.” (dadl fframwaith yr hawlydd, paragraff 34). Mewn dadl, maent hefyd yn cyfeirio at baragraff 5B o Atodlen 9A o'r Ddeddf sy'n darparu na all landlordiaid roi hysbysiad ar adeg pan fo'r annedd yn cael ei “thrin” fel un nad yw'n ffit i bobl fyw ynddi yn rhinwedd rheoliad 6(6) o'r Rheoliadau Ffitrwydd. Maent yn cyflwyno bod hyn yn atal rheoliad 6(6) rhag cael ei ddileu'n llwyr neu fod yn gwbl amherthnasol, er eu bod wedi eithrio rheoliad 6(6) o'r darpariaethau statudol neu gontactiol o ran nad yw'n ofynnol talu.

90. Wrth ddadlau, dywedodd yr hawlwr, cyn belled â bod ECR mewn gwirionedd, fel sy'n ofynnol gan reoliad 6(1) o'r Rheoliadau Ffitrwydd, fod rheoliad 6(6) yn llai pwysig. Roeddent yn dweud bod y rhwymedigaethau ESI ac ECR wedi'u hanelu at y landlord, ac nad oedd yn gwneud synnwyr nac yn unol â'r diben statudol, na ddylai fod gofyn talu rhent petai'r unig fethiant fyddai peidio â chyfleu canlyniadau adroddiad ac archwiliad boddhaol i ddeiliad y contract. Maent yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd tybio nad oedd annedd yn ffit yn syniad a oedd yn cael ei awgrymu gan bapurau Comisiwn y Gyfraith.
91. Maent yn nodi, er bod rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol yn dweud “Nid yw'n ofynnol i ddeiliad y contract dalu rhent mewn cysylltiad ag unrhyw ddiwrnod neu ran o ddiwrnod pan na fo'r annedd yn ffit i bobl fyw ynddi”, dylid rhoi sylw hefyd i'r troednodyn i reoliad 11, sy'n dweud:

“Gweler Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/6 (Cy. 4)) a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 94(1) o'r Ddeddf, sy'n rhagnodi materion ac amgylchiadau y mae rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi ai peidio. Gweler hefyd adran 91(1) o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ddarpariaeth sylfaenol i landlord sicrhau bod yr annedd yn ffit i bobl fyw ynddi.”

Maent yn awgrymu ei bod yn arwyddocaol bod y troednodyn hwn yn cyfeirio at ffactorau amrywiol sy'n berthnasol i annedd yn wirioneddol ddim yn ffit i bobl fyw ynddi yn adran 94(1) o'r Ddeddf, ond nid yw'n cyfeirio at y ddarpariaeth dybio yn adran 94(3).

(ii) Dadleuon y diffynyddion

92. Mae'r diffynyddion yn pwysleisio, ar ôl cael yr ECR, fel ym mhob un o'r achosion hyn, bod rhannu'r ECR â deiliaid y contractau yn hawdd, ac nad oedd angen mwy na stamp ac amlin arnynt. Er bod y ddeddfwriaeth yn newydd pan dorrodd yr hawlwr yr amodau, ni ddaeth y Rheoliadau Ffitrwydd i rym tan bron i 11 mis ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Felly roedd digon o amser i ymgysfarwyddo. Pennwyd yr amser ar gyfer cydymffurfio ar 14 diwrnod (yn hytrach na 7 diwrnod cyn i newidiadau gael eu hysgogi gan sylwadau landlordiaid i Lywodraeth Cymru). Roedd hyn yn ychwanegol at y dyddiad a oedd wedi'i ohirio ar gyfer cydymffurfio mewn achosion o gontactau wedi'u trosi (fel rhai'r diffynyddion) a ddechreuodd flwyddyn ar ôl y dyddiad y daeth y Rheoliadau Ffitrwydd i rym.
93. Mae'r diffynyddion yn cyfeirio at *Uber BV v Aslam* [2021] UKSC 5 ys dywedwyd gan yr Arglwydd Leggatt UGL ym mharagraff 70:

“The modern approach to statutory interpretation is to have regard to the purpose of a particular provision and to interpret its language, so far as possible, in the way which best gives effect to that purpose.”

94. Mae'r diffynyddion yn nodi, er bod yr hawlwyr yn landlordiaid cymdeithasol cyfrifol, y byddai eu dadleuon o fudd i bob landlord yn y sector rhentu preifat yng Nghymru yn ogystal â'r sector cyhoeddus. Ni fydd pob methiant i ddarparu ECR yn gamgymeriad gonest. Efallai y bydd achosion o anwaith bwriadol neu ddiofal gan landlordiaid anghyfrifol nad ydynt yn bartion i'r gweithredoedd hyn. Y cwestiwn yw, beth ddylai'r canlyniadau fod, yn gyson â'r diben statudol.
95. Cyfeiriodd y diffynyddion ni at adran 89 o'r Ddeddf, sy'n nodi bod Pennod 2 o'r rhan hon o'r Ddeddf "yn gymwys i bob contract diogel, pob contract safonol cyfnodol a phob contract safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod o lai na saith mlynedd", sy'n cwmpasu'r contractau yn yr achos hwn. Mae Pennod 2 o'r rhan honno o'r Ddeddf yn cynnwys adrannau 91 i 99 o'r Ddeddf. Mae felly'n cynnwys y rhwymedigaeth i "sicrhau bod yr annedd yn ffit i bobl fyw ynddi" yn adran 91(1), sydd, yn ôl adran 91(3), yn ddarpariaeth sylfaenol a ymgorfforir ym mhob un o'r contractau hyn. Mae hefyd yn cynnwys adran 94 ("Penderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi") sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi materion ac amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu, at ddibenion adran 91(1), a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi (drwy adran 94(1)) ac sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau pan na chydymffurfir â gofynion, "bod yr annedd i'w thrin fel pe na bai'n ffit i bobl fyw ynddi" (drwy adran 94(3)). Mae'n dilyn bod y darpariaethau hyn yn gymwys i'r contractau. Mae'r diffynyddion yn cyflwyno, er nad yw adran 94(3) yn cyfeirio at adran 91 yn eglur, mai hynny yw'r ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i annedd fod yn ffit i bobl fyw ynddi, ac felly mae'n cael ei chysylltu drwy oblygiad angenrheidiol.
96. Mae'r diffynyddion yn cyflwyno bod y Rheoliadau Atodol (gan gynnwys y ddarpariaeth yn rheoliad 11 nad yw'n ofynnol i ddeiliaid contract heb yr ECRs gofynnol dalu rhent) wedi dod i rym ar yr un diwrnod â'r Rheoliadau Ffitrwydd, ac mae'r darpariaethau i'w darllen fel un cod, sy'n gweithredu fel cyfanwaith ac yn rhyngweithio â'i gilydd, yn hytrach na'u rhannu yn unol â dadleuon yr hawlwyr. Mae rheoliad 6(6) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn rheoli'r contractau, hyd yn oed pan fo'r geiriad (fel yma) yn absennol o'r contractau. Mae'n dilyn bod y ddarpariaeth nad yw'n ofynnol talu rhent pan nad yw'r eiddo'n ffit i bobl fyw ynddo, sydd wedi'i nodi yn rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol ac yn y contractau eu hunain, yn gymwys pan nad yw'r eiddo'n ffit i bobl fyw ynddo oherwydd bod rheoliad 6(6) ar waith. Dim ond drwy ei ddarllen fel hyn y mae gan reoliad 6(6) rym er budd deiliaid y contractau fel y'i bwriadwyd, yn unol â phwrpas y ddeddfwriaeth yn ei chyfanwydd.
97. Mae'r diffynyddion yn pwysleisio mai'r ddyletswydd ar landlordiaid yw "sicrhau" bod yr annedd yn ffit i bobl fyw ynddi (adran 91 o'r Ddeddf). O ran gosodiadau trydanol, ni ellir sicrhau diogelwch heb ESI, ac ni ellir rhoi sicrwydd i ddeiliaid y contract heb ddarparu ECR. Nid yw dweud, ar ôl y digwyddiad, mewn ymgylchiad fel hyn, y gellir dweud yn awr nad oedd risg o osodiad trydanol, mewn gwirioneedd, yn cydymffurfio â llythyren nac ag ysbryd y cynllun deddfwriaethol.
98. Mae'r diffynyddion yn dadlau, ers i delerau'r contract gael eu gwneud yn orfodol gan y cynllun statudol, mai'r dull gweithredu cywir yw defnyddio dehongliad statudol yn

hytrach na chontractiol. Dedd fir mai dim ond gwella sefyllfa deiliaid y contractau y gall addasiadau i'r darpariaethau statudol (lle caniateir hynny). Felly, mae'r dehongliad statudol yn gosod safon sylfaenol a dylai fod yn fan cychwyn ar gyfer yr ymarfer dehongli.

99. Mae adran 94(3) o'r Ddeddf (a nodir ym mharagraff 24 above) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau "at ddiben atal unrhyw faterion neu amgylchiadau rhag codi a allai olygu nad yw annedd yn ffit i bobl fyw ynnddi". Mae'r rhain yn eiriau eang, ac maent yn mynd y tu hwnt i'r sefyllfa waethaf pan na fo annedd mewn gwirionedd yn ffit i bobl fyw ynnddi. Mae adran 94(3) yn mynd ymlaen i ddweud, yn benodol, y caiff rheoliadau o'r fath ragnodi bod "yr annedd i'w thrin fel pe na bai'n ffit i bobl fyw ynnddi" pe na bai'n cydymffurfio. Felly, mae'r cysyniad o dybio nad yw annedd yn ffit yn hytrach na nad yw annedd yn ffit mewn gwirionedd, wedi cael ei wreiddio'n gadarn yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.
100. Fodd bynnag, rhaid i'r cysyniad hwnnw, o dybio nad yw annedd yn ffit, fod wedi'i gyflwyno (yn ôl y diffynyddion) at ddiben. Rhaid iddo arwain at ganlyniadau. Maent yn awgrymu bod yr unig ddiben posibl i'w ganfod yn adran 91(1), sy'n dweud bod yn rhaid i landlord "sicrhau" bod annedd ei fod yn ffit i bobl fyw ynnddi, ac mae'n dilyn bod y ddarpariaeth dybio a ragwelir gan adran 94(3) ac a weithredir gan reoliad 6(6) yn gymwys i adran 91(1) ac yn rhoi cyfrif nad yw'r annedd yn ffit i bobl fyw ynnddi at ddibenion adran 91(1). Yna, nid yw'n ffit at bob diben, ac mae'n cynnal yffaith nad yw'n ofynnol talu rhent.

(iii) Dadleuon Gweinidogion Cymru

101. Mae Gweinidogion Cymru (a oedd yn ymddangos fel Ymyrwyr) yn cytuno â'r diffynyddion y dylai'r prif ganonau wrth ddehongli'r achos hwn fod yn statudol yn hytrach nag yn gontractiol, oherwydd bod telerau'r contract yn orfodol o dan y ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, maent yn cyfeirio at *Trump International Golf Club Scotland Ltd v Gweinidogion yr Alban* [2015] UKSC 74 ym mharagraff 33 i gefnogi tueddiad modern i gysoni'r dull o ddehongli gwahanol fathau o ddogfennau.
102. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn cytuno â'r diffynyddion, ar ôl darlleniad syml o reoliad 6(6) o'r Rheoliadau Ffitrwydd, fod methiant yr hawlwr i gyflwyno'r ECRs yn golygu bod yr anheddu'n cael eu trin fel rhai nad oeddent yn ffit i bobl fyw ynndynt ac felly ddim yn ffit i bobl fyw ynndynt.
103. Mae Gweinidogion Cymru yn cefnogi'r diffynyddion wrth ddadlau bod rheoliad 6(6) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn gymwys, ac felly hefyd y canlyniad yn rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol, sef nad yw'n ofynnol i ddeiliaid y contractau dalu rhent pan fernir nad yw'r annedd yn ffit i bobl fyw ynnddi oherwydd gweithrediad rheoliad 6(6). Dywedir bod hyn yn unol â'r cynllun statudol a chyfraith gwlad wrth wneud rhent yn fesur priodol o dâl digolledu am dorri amodau mewn perthynas ag annedd nad yw'n ffit i bobl fyw ynnddi.
104. Mae Gweinidogion Cymru yn dweud bod y dehongliad hwn nid yn unig yn syml, ond hefyd yn cyd-fynd â phwrpas sylfaenol y ddeddfwriaeth, sef annog landlordiaid i sicrhau nad oes peryglon fel tanau a siociau trydan mewn anheddu, ac i sicrhau deiliaid contractau bod mesurau ar gael i warchod rhag problemau a pheryglon nad ydynt mor amlwg â ffenestri wedi torri a phethau tebyg.

105. Mae Gweinidogion Cymru yn anghytuno â chyflwyniad yr hawlwr mai dim ond diogelwch gwirioneddol sy'n bwysig, ac nad yw ymchwiliadau, adroddiadau, a rhoi gwybodaeth i ddeiliaid contractau mor bwysig i gyfawnhau (neu fel mater o ddehongli, i fynnu) atal y gofyniad ar ddeiliad y contract i dalu rhent drwy weithredu rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol ar y cyd â rheoliad 6(6) o'r Rheoliadau Ffitrwydd, a thrwy weithredu rheoliad 6(6) gyda thelerau'r contractau meddiannu sy'n ymwneud â hepgor rhent mewn achos lle nad yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi. Nid dim ond sicrhau bod gosodiadau trydanol yn ddiogel yw'r unig rwyymedigaeth. Y rhwymedigaeth yw archwilio, profi ac adrodd. Gall archwiliadau ddangos bod gwaith atgyweirio neu fesurau eraill yn angenrheidiol, ac mae enghreiffftiau o fesurau a argymhellir yn cael eu nodi yn yr adroddiadau, ac yn y dystiolaeth, yn yr achos hwn. Mae'r ddeddfwriaeth yn cyflwyno proses, nid archwiliad sy'n llwyddo neu'n methu yn unig. Mae gan ddeiliaid y contractau hawl i gael gwybod am gyflwr y gosodiadau trydanol, ac am y camau sy'n ofynnol i sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau gofynnol. Mae ganddynt hawl i gael sicrwydd, pan fydd cyflwr y gosodiadau trydanol yn foddaol, a'r wybodaeth a all eu grymuso i fynnu am weithredu, pan nad dyna'r achos. Yn yr un modd, nid oes gan y landlordiaid hawl i bwyntio, hyd yn oed yn ôl-weithredol o bosibl, at ffitrwydd gwirioneddol, ond cânt eu cymell, drwy gysylltu'r gofyn i dalu rhent â chydymffurfio â rheoliad 6, i wneud popeth sy'n angenrheidiol pan fydd ei angen arnynt ac nid yn ddiweddarach. Gall deiliaid contractau fod yn fwy brwdfrydig na landlordiaid dros sicrhau bod popeth yn cael ei wirio a'i fod yn foddaol. Efallai na fydd rhai landlordiaid yn poeni o gwbl. Efallai na fydd eraill yn rhoi digon o sylw i eiddo lle nad ydynt yn byw ynddynt eu hunain. Efallai na fydd eraill yn gwybod digon am eu rhyymedigaethau. Nid yw'n briodol mabwysiadu dehongliad statudol sy'n caniatáu i landlordiaid beidio â chynnwys deiliaid contractau yn y broses heb ddim neu fawr ddim canlyniadau. Mae'n hanfodol i'r cynllun statudol bod deiliaid contractau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac nad yw'n ofynnol iddynt dalu rhent pan nad ydynt yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.
106. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwrthod y gwahaniaethu rhwng y dehongliad statudol a chontractiol a gynigir gan yr hawlwr yn yr achos hwn. Maent yn nodi ei bod yn nodwedd allweddol o'r Ddeddf, a nodwyd ym mhapur cyntaf un Comisiwn y Gyfraith, y dylai deiliaid contractau allu dibynnu ar eu contractau am eu hawlau ac na ddylent hefyd orfod dibynnu ar ddeddfwriaeth gymhleth neu gyfraith achosion ar wahân, nad ydynt wedi'u hymgorffori yn y contractau. Ni ddylai fod unrhyw wrth-ddweud, maent yn dadlau, rhwng telerau datganedig y contractau a'r telerau a bennir gan statud neu ddarpariaethau'r statud a'r offerynnau statudol.
107. Maent hefyd yn rhoi enghraifft. Mae rheoliad 5 y Rheoliadau Ffitrwydd yn mynnu bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio yn y cartrefi. Mae ESIs ac ECRs yn ofynnol o dan reoliad 6. Nid yw'r contractau'n dweud dim am larymau mwg, larymau carbon monocsid nac ESIs ac ECRs. Felly, ni all dadl yr hawlwr na all y diffynyddion fynd y tu allan i'r telerau datganedig a ysgrifennwyd yn eu contractau fod yn gywir. Mae'r cynllun yn gweithredu'n ei gyfanrwydd, ac mae gan ddeiliaid y contractau hawl i'r cyfan, ac i'w ddarllen yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth dybio yn rheoliad 6(6) o'r Rheoliadau Ffitrwydd a'r effaith ar y gofyniad i dalu rhent yn rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol. Os na all deiliaid y contract orfodi eu hawlau drwy eu contractau, mae rhywbeth wedi mynd o'i le yn y bôn, ac nid oes ganddynt fawr o allu ymarferol i'w gorfodi o gwbl. Mae Gweinidogion Cymru yn cyflwyno na all hyn fod yn gywir.

Mater 1A – Y Penderfyniad

108. Mae'n well gennym ddadleuon y diffynyddion a Gweinidogion Cymru ar Fater 1A na ddadleuon yr hawlwyr.
189. Mae landlord sy'n cydymffurfio'n hwyr "i'w drin fel pe bai'n cydymffurfio o'r adeg" y ceir cydymffurfiaeth ac nad yw i'w drin fel pe bai wedi bod yn cydymffurfio cyn yr adeg hynny. Mae dweud bod "o'r adeg" yn golygu "o'r adeg a chyn yr adeg" cydymffurfio yn dramgwyddus iawn tuag at yr iaith.
190. Trown nesaf at gyflwyniad yr hawlwr fod achosion tai eraill, sy'n cynnwys deddfwriaeth gyda geiriau tebyg, yn awgrymu y gallai darleniad ôl-weithredol fod yn briodol, serch hynny, yn y math hwn o achos.
191. Mae'r hawlwr yn cyfeirio at *Lindsey Trading Properties v Dallhold Estates (UK) Pty Ltd* (1995) 70 P. & C.R. 332 fel achos o dan adran 48 o Ddeddf Landlord a Tenant 1987 lle (fel y dywedodd yr hawlwr) roedd cydymffurfio'n hwyr yn dal i gyflawni'r diben deddfwriaethol ac yna roedd rhent cyn ac ar ôl yr hysbysiad yn ddyledus.
192. Fodd bynnag, roedd ffeithiau'r achos hwnnw'n bur wahanol ac felly hefyd y cwestiwn o dan sylw, oherwydd gwahaniaethau yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Yn yr achos hwnnw, nid oedd y tenant wedi talu rhent. Cyflwynwyd hysbysiad i dalu'r rhent, yr oedd adran 48 o Ddeddf 1987 yn gymwys iddo. Roedd adran 48 yn ei gwneud yn ofynnol i'r tenant gael cyfeiriad ar gyfer cyflwyno ac, oherwydd nad oedd hynny wedi digwydd, nid oedd rhent yn daladwy mewn gwirionedd. Oherwydd nad oedd y tenant

wedi cael cyfeiriad ar gyfer cyflwyno, yng ngeiriau adran 48(3) o Ddeddf 1987 (gyda phwyslais wedi'i ychwanegu):

“...any rent or service charge otherwise due from the tenant to the landlord shall (...) be treated for all purposes as not being due from the tenant to the landlord at any time before the landlord does comply with that subsection.”

193. Cyflwynwyd yr hysbysiad i dalu rhent ym mis Awst, a chyflwynwyd hysbysiad ymadael yn seiliedig arno ym mis Hydref. Ym mis Rhagfyr, cafodd y tenant y cyfeiriad angenrheidiol ar gyfer cyflwyno mewn ffordd a oedd yn golygu bod y landlord bellach yn cydymffurfio at ddibenion adran 48. Ar ôl hyn, cyflwynodd y landlord hysbysiad newydd yn hawlio'r ôl-ddyledion rhent. Mewn achosion dilynol, roedd y tenant yn dadlau bod yr hen rent yn ddyledus pan ddarparwyd y cyfeiriad cyflwyno yn hwyr. Wrth roi'r prif ddyfarniad, dywedodd Ralph Gibson AU fod y rhent yn ddyledus fel arall – “otherwise due” (yng ngeiriau adran 48) ac, am y rheswm hwn, roedd yr ôl-ddyledion yn ddyledus yn sgil darparu'r cyfeiriad cyflwyno yn hwyr. Dywedodd (ar dudalen 343):

“All the rent in respect of which the notice of December 3, 1991, was served was “otherwise due from the tenant” on that date, i.e. it was due but for the effect of section 48(2). The letter of December 3 was a valid notice under section 48(1). This provision can be given no effect in derogation of the landlord's legal rights beyond that required by the terms of the enactment. The rent “otherwise due”, therefore, is to be treated as not due for the tenant “at any time before the landlord does comply with” section 48(1); but such rent becomes due at the time when the landlord so complies, and continues due thereafter. There is no justification for any extension of the period of time over which the rent is treated as not due whether until the end of that day, or for a reasonable time, or until the next rent day. The cases cited for this purpose are, in my judgment, of no relevance. No question of construction of contractual obligations arises as to when the rent was “otherwise due from the tenant”. The rent in respect of which the notice was served was due from the tenant when he received the notice.”

194. Nid oes dim sy'n cyfateb i'r ymadrodd “yn ddyledus fel arall” yn y darpariaethau rydym yn ymdrin â hwy.
195. Daeth Ralph Gibson AU i gasgliad wrth wneud ei benderfyniad ar y pwynt hwn drwy ddweud (p 346):

“In so far as the notice inaccurately asserted that the rent “otherwise due” had been due on and from the quarter days listed, it did not mislead and could not reasonably have misled the tenant in any way. Furthermore, it did not and could not affect the clarity of the notice as to what the tenant was required to do or what the effect would be if the tenant did not comply with it. To treat this notice as invalid, therefore, would be to carry

the need for strict compliance with the statutory requirement to a length beyond any useful purpose. The statutory purpose of the notice was fully satisfied. On this ground alone I would allow this appeal.”

196. Roedd yr hawlwr hefyd yn dibynnu ar *Trecarrell House Ltd v Rouncefield* [2020] 1 WLR 4712, achos o dan adran 21A o Ddeddf Tai 1988. Yn yr achos hwnnw, roedd rhwymedigaeth statudol ar y landlord i archwilio diogelwch boeleri bob 12 mis, a chyflwyno copi o gofnod diogelwch nwy i denantiaid o fewn 28 diwrnod i'r archwiliad neu (yn achos tenant newydd) cyn i'r tenant ddechrau meddiannu. Methodd y landlord â darparu'r cofnod i'r tenant cyn iddo feddiannu'r eiddo ond rhoddodd y cofnod iddi, yn hwyr, 7 mis i mewn i'r denantiaeth. Roedd y landlord hefyd yn hwyr yn cynnal yr archwiliad nesaf o'r boeler. Yn dilyn y ddu achos hyn o gydymffurfio'n hwyr, ceisiodd y landlord feddiant. Gwrthododd y tenant yr hawliad, ar y sail bod yr hysbysiad cymryd meddiant wedi'i gyflwyno pan oedd y landlord “yn torri gofyniad rhagnodedig” at ddibenion adran 21A o Ddeddf 1988. Mae adran 21A(1) yn darparu:

“A notice under subsection (1) or (4) of section 21 may not be given in relation to an assured shorthold tenancy of a dwelling-house in England at a time when the landlord is in breach of a prescribed requirement.”

197. Roedd y Llys Apêl yn dal (trwy fwyafrif) mai bod y cofnodion yn cael eu darparu, ac nid eu bod yn cael eu darparu ar amser, oedd y gofyniad rhagnodedig neu'r “prescribed requirement”. O ganlyniad, nid oedd gofyniad rhagnodedig wedi'i dorri pan gyflwynwyd yr hysbysiad cymryd meddiant, ar yr amod bod y cofnodion angenrheidiol wedi'u rhoi i'r tenant cyn hynny.
198. Fodd bynnag, roedd hyn oherwydd bod y diffiniad statudol o “ofyniad rhagnodedig” yn ymdrin â'r ffaith bod y ddarpariaeth wedi'i chofnodi ond yn eithrio'n benodol y terfyn amser statudol ar ei gyfer; gweler *Trecarrell House Ltd v Rouncefield* [2020] 1 WLR 4712 yn 4716C, 4721H a 4722D-E ys dywedwyd gan Patten AU.
199. I'r gwrthwyneb, nid oes gwahaniaethu o'r fath yn rheoliad 6 y Rheoliadau Ffitrwydd, sef y Rheoliadau rydym yn ymdrin â hwy.
200. Aeth Patten AU ymlaen i drafod yr effaith ar ddiben statudol y casgliad hwn. Wrth wneud hynny, pwysleisiodd fod methu â chwrdd â'r terfynau amser yn drosedd, a disgrifiodd hynny fel “y prif sancsiwn” (ym mharagraff 24 o'i ddyfarniad).
201. Fodd bynnag, nid oes sancsiwn troseddol am beidio â chydymffurfio â'r Rheoliadau Ffitrwydd na'r Ddeddf. Nid yw cyfiawnder troseddol yn fater datganoledig ac mae agweddau ar gyfraith droseddol sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o ganlyniad i Atodlen 7B paragraff 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau hynny, mae gan Weinidogion Cymru a'r Senedd bŵer datganoledig, y maent yn ei arfer yn rheolaidd, i greu troseddau newydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sancsiynau troseddol am dorri'r Ddeddf na'i rheoliadau cysylltiedig wedi cael eu creu, gan Weinidogion Cymru na'r Senedd. Felly, mae'r diffynyddion a Gweinidogion Cymru yn gywir i ddweud, os nad yw rheoliad 6(7) yn golygu'r hyn rydym wedi'i ddweud ei fod yn ymddangos ei fod yn ei olygu, mae'r canlyniadau i landlord nad yw'n cydymffurfio â'r terfynau amser statudol yn ddim bron, hyd yn oed

os bydd y diffyg yn parhau am fisoeedd neu flynyddoedd. Mae'n ymddangos i ni fod hynny'n groes i'r diben statudol, sef nid yn unig gosod gofynion (o ran darparu ECRs i denantiaid) ond eu gorfodi gyda chanlyniadau (drwy ddarparu nad yw'n ofynnol i'r tenant dalu rhent). Mae adfer y gofyniad i dalu rhent, gydag effaith ôl-weithredol, yn gwneud y rheoliad yn ddi-rym, cyn belled ag y mae tenantiaid o dan sylw.

202. Mewn trafodaeth bellach, ystyriodd Patten AU ystyr ar adeg pan ("at a time when") yn adran 21A o Ddeddf 1988 yng nghyd-destun yr ymadrodd "commonly used in housing legislation as part of a statutory inhibition of the landlord's right to serve a section 21 notice" (paragraff 25); h.y. hysbysiad cymryd meddiant. Nododd fod cyflwyno'r ddogfen yn hwyr yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y tenant ("Late delivery of the document does provide the tenant with the information he needs") ac roedd yn gwrthwynebu'r ddadl bod cyflwyno'n hwyr yn eithrio cyflwyno hysbysiad cymryd meddiant adran 21 yn gyfan gwbl fel canlyniad annhebygol ("an unlikely result"). Ond pwysleisiodd unwaith eto fod y terfyn amser 28 diwrnod wedi'i eithrio'n benodol o'r diffiniad o "ofyniad rhagnodedig" (ym mharagraff 30). Cyfeiriodd hefyd at effaith lem colli'r hawl i gyflwyno hysbysiad cymryd meddiant adran 21 yn barhaus, fel y gwnaeth King AU (ym mharagraffau 40-42).
203. Yn yr achos presennol, nid yw'r canlyniad mor llym ag y mae'r hawlwyr yn ei awgrymu. Mae wedi'i gyfyngu i swm y rhent mewn perthynas â'r cyfnod pan na ddarparwyd ECR. Ni fydd landlord sy'n cydymffurfio yn colli unrhyw rent o gwbl. Ni fydd landlord diwyd yn cael unrhyw anhawster i gydymffurfio ar amser, neu, os na fydd yn cydymffurfio'n brydlon, i unioni pethau'n gyflym, fel y gwnaeth yr hawlwyr yn yr achos hwn. Bydd y rhent a gollir ym mhob achos yn ddieithriad yn cael ei gyfyngu'n union gan swm y rhent, a dim ond mewn perthynas â'r cyfnod o ddiffyg cydymffurfio y bydd yn cael ei golli. Ni ellir cymharu colli rhent am gyfnod o amser â cholli'r hawl barhaus i gyflwyno hysbysiad cymryd meddiant adran 21 a ystyrir yn *Trecarrell House Ltd v Rouncefield*. Mae'r symiau mawr sydd mewn perygl i'r hawlwyr yn ymwneud â nifer fawr iawn o ddeiliaid contractau ond nid ydynt, mewn achosion unigol, yn fawr. O edrych ar ochr arall y cwestiwn, gallai'r canlyniad i ddeiliaid y contract o beidio â chael ECR, ac felly o beidio â chael sicrwydd bod yr eiddo'n ddiogel (os yw'n ddiogel), neu gael gwybod am y ffyrdd y mae'n ddiogel neu nad yw'n ddiogel, gael ei ystyried yn arwyddocaol gan y deddfwyr, sydd wedi pasio'r deddfiadau hyn yn unol â hynny.
204. Nid ydym yn derbyn cyflwyniad yr hawlwyr bod darparu'r ECR yn hwyr yn ddigon da, a'i bod yn anghymesur (ac felly'n annhebygol) darllen rheoliad 6(7) fel peidio â chaniatáu hawlio rhent yn ôl-weithredol. Rydym yn derbyn cyflwyniadau'r diffynyddion am y pwysigrwydd gwirioneddol ac ymarferol i ddeiliaid contractau o gael yr wybodaeth yn yr ECR yn syth, ac nid misoedd neu flynyddoedd yn hwyr. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried nad yw deiliad y contract yn gwybod bod yr eiddo'n ddiogel tan hynny, ac efallai y bydd yn darganfod, ar ôl derbyn yr ECR, nad yw'n ddiogel mewn gwirionedd neu fod archwiliadau pellach neu gamau atgyweirio penodol yn cael eu hawgrymu yn yr ECR.
205. Y diben statudol yw, nid yn unig y dylai anheddua fod yn ffit i bobl fyw ynddynt, ond y dylid eu profi'n rheolaidd ac adrodd ar hynny, gan gynnwys adrodd i ddeiliaid y contractau fel y bobl y mae peryglon trydanol a materion eraill yn effeithio ar a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi neu a allai effeithio ar hynny. Nid yn unig rhoi hawliau i ddeiliaid contractau pan na fo eu heiddo'n ffit yn wrthrychol i bobl fyw ynddo yw'r diben statudol, ond hefyd rhoi hawliau wybodaeth iddynt fel eu bod yn cael sicrwydd

(pan fydd yn ffit) a manylion yr hyn sy'n ofynnol (pan na fo'n ffit, neu pan allai fod, neu pan fo mewn perygl o beidio â bod yn ffit). Y diben statudol yw cymhell landlordiaid i barchu'r hawliau hyn drwy gysylltu cydymffurfio'n uniongyrchol â'u hawl i gael rhent. Rydym yn ystyried bod ein dehongliad yn gyson â'r diben statudol. Mae dehongliad yr hawlwyd, yr ydym wedi'i wrthod, yn llai cyson â'r diben statudol yn ei gyfanrwydd, sy'n ymwneud, fel y mae, â rhan ohono'n unig ac sy'n rhyddhau landlordiaid o unrhyw risg i'w rhent os nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion gwybodaeth y Ddeddf a'i rheoliadau cysylltiedig.

MATER 3

206. Mae Mater 3 yn ymwneud â'r graddau y mae gan ddeiliaid contractau hawl i gael yr ECRs sy'n ymdrin â'r rhannau cyffredin neu'r mannau cymunedol yn ogystal â llety'r diffynnydd ei hun.

Mater 3 – Y Gyfraith

207. Mae Mater 3 yn codi oherwydd bod anghydfod ynghylch ystyr y gair "annedd" yn y cyd-destun hwn.
208. Mae adran 91 yn ymdrin â rhwymedigaethau'r landlord i sicrhau bod annedd ffit i bobl fyw ynnddi (fel y nodir ym mharagraff 22 above). Mae Adran 91(1) o'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i'r landlord sicrhau "bod yr annedd" yn ffit i bobl fyw ynnddi. Mae Adran 91(2) yn darparu bod yr "annedd" at y dibenion hyn yn cynnwys "os yw'r annedd yn ffurfio rhan yn unig o adeilad", strwythur yr adeilad a'r tu allan i'r adeilad a'r "rhannau cyffredin". Mae adran 91 yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract perthnasol (adran 91(3)).
209. Mae adran 92 yn ymdrin â rhwymedigaethau'r landlord i gadw annedd mewn cyflwr da (fel y nodir ym mharagraff 23 above). Mae adran 92(2) yn darparu, "os yw'r annedd yn ffurfio rhan yn unig o adeilad", bod yn rhaid i'r landlord gadw "gosodiadau gwasanaeth yr annedd" (ymhlith petau eraill) mewn cyflwr da. Diffinnir gosodiadau gwasanaeth yn adran 92(4) i gynnwys "gosodiad i gyflenwi... trydan... Neu i gynhesu dŵr". Mae adran 92 yn ddarpariaeth sylfaenol arall (adran 91(5)).
210. Adran 94 yw'r ddarpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas ag "annedd" sy'n ffit i bobl i fyw ynnddi (fel y nodir ym mharagraff 24 above).
211. Mae rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol yn darparu nad yw'n ofynnol i ddeiliad y contract dalu rhent pan na fo'r "annedd" yn ffit i bobl fyw ynnddi (fel y nodir ym mharagraff 26 above).
212. Mae'r Rheoliadau Ffitrwydd yn darparu bod i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau Ffitrwydd "yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf" (rheoliad 2).
213. Rydym eisoes wedi ystyried rheoliad 6 o'r Rheoliadau Ffitrwydd, sy'n delio â diogelwch trydanol, mewn perthynas â materion cynharach; mae wedi'i nodi'n llawn ym mharagraffau 32 i 34 above. Ar gyfer Mater 3, yr hyn sy'n berthnasol yn rheoliad 6 yw:

- i) Y rhwymedigaeth ar y landlord i sicrhau bod ECR diliys “mewn cysylltiad â'r annedd”: rheoliad 6(1).
- ii) Y rhwymedigaeth i ddarparu copi i ddeiliad y contract: rheoliad 6(3).
- iii) Darpariaeth bod “annedd i'w thrin fel pe na bai'n ffit i bobl fyw ynnddi ar adeg pan nad yw'r landlord yn cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliad hwn”: rheoliad 6(6).
- iv) Mae'r diffiniad o “archwiliad diogelwch trydanol” yn golygu archwilio a phrofi pob gosodiad gwasanaeth trydanol “mewn annedd”: rheoliad 6(8).
- v) Mae'r diffiniad o “osodiad gwasanaeth trydanol mewn annedd” i gynnwys (gyda phwyslais wedi'i ychwanegu):

“...pan fo'r annedd yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, osodiad trydanol **sy'n gwasanaethu'r annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol**, ac sydd naill ai

-

 - (a) yn ffurfio rhan o unrhyw ran o'r adeilad y mae gan y landlord ystad neu fuddiant ynnddi, neu
 - (b) yn eiddo i'r landlord neu sydd o dan reolaeth y landlord”

(rheoliad 6(8))

214. Mae adran 246(3) o'r Ddeddf yn darparu mai “Ystyr annedd, mewn perthynas â chontract meddiannaeth, yw'r annedd sy'n ddarostyngedig i'r contract”.

Mater 3 – Y Ffeithiau

- 215. Dim ond i Mrs Mitchell y mae Mater 3 yn berthnasol. Nid oedd yr un o'r contractau meddiannaeth yn yr achosion eraill yn cynnwys unrhyw rannau cyffredin na mannau cymunedol.
- 216. Mae'r “annedd” yn achos Mrs Mitchell yn un o'r Materion Allweddol a nodir yn ei chontract meddiannaeth ac mae hyn yn cyfeirio at yr annedd fel a ganlyn:

“1.5 This contract relates to Flat 1, [followed by full address]
 (“the dwelling”).

1.6 The dwelling consists of 2 bedroom Flat. The maximum number of people entitled to occupy the dwelling is 3.”
- 217. Mewn perthynas â Mrs Mitchell, derbynir mai ei landlord (Grŵp Tai Arfordirol Cyfyngedig) oedd yn gyfrifol am gael ECRs mewn cysylltiad â mannau cymunedol perthnasol (paragraff 21 o'r ffeithiau y cytunwyd arnynt).
- 218. Cynhaliodd Tai Arfordirol archwiliad diogelwch trydanol (ESI) a chael ECR mewn cysylltiad â mannau cymunedol bloc fflatiau Mrs Mitchell ar 26 Gorffennaf 2019.

Anfonwyd copi iddi drwy'r post dosbarth cyntaf ar 2 Ebrill 2024. Derbynir iddo gael ei roi iddi ar 4 Ebrill 2024 neu o gwmpas y dyddiad hwnnw. Roedd hyn ychydig yn hwyrach na'r dyddiad y cafodd yr ECR ar gyfer ei fflat ei hun (sef 14 Mawrth 2024; gweler paragraff 73.i) above).

Mater 3 – Y Dadleuon

(i) Dadleuon yr hawlwyd

219. Mae sefyllfa'r hawlwyd wedi'i chrynhoi yn y datganiadau y maent yn eu ceisio, mewn cysylltiad â Mater 3, gan y llys. Maent fel a ganlyn:

“‘Dwelling’ for the purposes of regulation 6 of the Fitness Regulations is the ‘dwelling’ which is identified as a Key Matter in the occupation contract (as per section 246(3) of the Act). It does not bear the extended meaning in section 91(2) of the Act.

Where a dwelling forms part of only of a building, any electrical safety inspection must inspect and test every electrical service installation in a dwelling which directly or indirectly serves the dwelling, and which either (a) forms part of any part of the building in which the landlord has an estate or interest, or is owned by the landlord or is under the landlord’s control as out on regulation 6(8) of the Fitness Regulations.

Accordingly, landlords are not required to give a copy of an electrical condition report for communal parts (as defined in section 252 of the Act) in order to satisfy the requirements in Regulation 6 of the Fitness Regulations.”

220. Mae'r hawlwyd yn dadlau mai'r man cychwyn yw'r diffiniad yng nghontract meddiannaeth Mrs Mitchell, yn unol ag adran 243(3) o'r Ddeddf ac fel y'i nodir yn adran Materion Allweddol ei chontract meddiannaeth, sy'n cyfeirio at "Fflat 1" yn unig.
221. Maent yn cymhwysyo hynny i reoliad 6 ac yn dadlau mai eu dyletswydd yw darparu ECR ar gyfer Fflat 1 yn unig ac nid ar gyfer unrhyw socedi trydanol nac unrhyw osodiad trydanol arall yn y rhannau cyffredin.
222. Maent yn derbyn yr hyn a ddywedir yn rheoliadau Ffitrwydd am anheddu sy'n ffurfio rhan yn unig o adeilad, ac os felly mae gosodiad gwasanaeth trydanol “sy'n gwasanaethu'r annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol” yn cael ei gynnwys os yw'n rhan o'r adeilad neu'n cael ei reoli gan y landlord (gweler paragraff 213(v) uchod). Fodd bynnag, maent yn dadlau nad yw gosodiad gwasanaeth trydanol mewn rhannau cyffredin yn dod o dan reoliad 6 oni bai ei fod o fewn diffiniad rheoliad 6(8) neu o fewn y diffiniad o annedd (wedi'i gyfyngu i Fflat 1 ei hun) yn adran 243 o'r Ddeddf. Nid ydynt yn derbyn bod gosodiadau trydanol nad ydynt yn gwasanaethu'r annedd “yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol” (o fewn ystyr rheoliad 6(8)) yn gofyn am gyflwyno ECR dim ond am eu bod wedi'u lleoli mewn rhannau cyffredin sydd o fewn y diffiniad estynedig o “annedd” yn adran 91(2) o'r Ddeddf.
223. Maent yn rhoi enghraift (ond nid ydynt yn honni ei fod mewn unrhyw ffordd yn debyg i achos Mrs Mitchell) o ddatblygiad cymhleth sy'n cynnwys siopau, mannau cymunedol a fflatiau preswyl unigol, lle y gallai, yn ddamcaniaethol, fod is-or saf

drydan y tu allan i adeiladau ac, ar ryw adeg, mae'r cyflenwad trydan yn hollti er mwyn cyflenwi trydan i'r gwahanol leoliadau. Efallai y bydd gan bob fflat ei gebl ei hun i gyfeirio'r trydan. Dywed yr hawlwr, yn yr achos hwnnw, y byddai'r is-orsaf (yng ngeiriau rheoliad 6(8)) yn gwasanaethu'r annedd yn "anuniongyrchol" ac y byddai'r ceblau'n gwasanaethu'r annedd yn "uniongyrchol". Maent yn dweud na ddylid darllen rheoliad 6(8) fel ei fod yn ymestyn y gofynion yn rheoliadau 6(1) a 6(3) i roi ystyr annaturiol o eang iddynt h.y. nid oes angen rhoi ECRs ar gyfer, e.e. meysydd parcio cymunedol, lolfeydd cymunedol a rhannau cymunedol eraill (fel cynteddau a grisiau) lle nad oes gosodiad gwasanaeth trydanol yno sy'n gwasanaethu'r annedd.

224. Y dewis arall - a beth bynnag, mae'r hawlwr yn dadlau - hyd yn oed os oes angen iddynt ddarparu ECR ar gyfer mannau cymunedol, nad yw'r methiant i roi ECR o'r fath yn arwain at y canlyniadau o dan reoliad 6(6) o Reoliadau Ffitrwydd 2022 fel nad yw'r eiddo ddim yn ffit i bobl fyw ynddo ac nad oes hawl i ddeiliad y contract beidio â thalu rhent.
225. Maent yn nodi y bydd gan rai contractau meddiannaeth ddarpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau gwasanaeth y gellir eu cynnwys mewn rhent, neu fod yn ychwanegol at rent. Mae taliadau o'r fath, wrth ddelio â thenantiaethau a chontractau a roddir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, fel arfer (dywedant) yn gysylltiedig â gwasanaethau neu eitemau sy'n cael eu darparu (gan gynnwys cyflenwi cyfleustodau) yn rhannau cymunedol adeilad. Yn achos Mrs Mitchell, o dan delerau 3.7 i 3.9 o'r contract meddiannaeth, bydd yn talu costau gwasanaeth am y gwasanaethau a'r eitemau y mae Grŵp Tai Arfordirol Cyfyngedig yn eu darparu. Rhestir y rhain yn Atodiad D y contract fel a ganlyn: Gweinyddu, Gofalwr, Cynnal a Chadw Teledu Cylch Cyfng, Newid Teledu Cylch Cyfng, Glanhau, Trydan yr Ardal Gymunedol, Adnewyddu Lloriau'r Ardal Gymunedol, Ffioedd Dŵr yr Ardal Gymunedol, Cynnal a Chadw Trydan, Cynnal a Chadw Larymau Tân, Gosod Larymau Tân, Cynnal a Chadw Offer Diffodd Tân, Ffioedd Gwresogi, Cynnal a Chadw'r Lifftau, Gosod Lifftau Newydd, Casglu Sbwriel, Cynnal a Chadw'r Drysau a Reolir o Bell, Gosod Drysau Newydd a Reolir o Bell, Cynnal a Chadw Erial Teledu a Gosod Erial Teledu Newydd. Mae rhai o'r rhain yn eitemau trydanol (fel teledu cylch cyfng) ac mae un ohonynt, yn eglur yn "gynnal a chadw trydan". Dywed yr hawlwr fod anghydfodau sy'n ymwneud â thaliadau gwasanaeth yn cael eu rheoli'n bennaf gan Ddeddf Landlord a Thenant 1985 ac yn cael eu penderfynu'n bennaf gan y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau. Maent yn nodi nad oes dim yn y Ddeddf na'r rheoliadau, nac yn y contract meddiannaeth, sy'n rhoi hawl i Mrs Mitchell beidio â thalu taliadau gwasanaeth.
226. Mae'r hawlwr yn cyflwyno nad oes angen defnyddio diffiniad unffurf o "annedd" ar draws y Ddeddf i gyd. Maent yn dadlau bod cyfeiriadau at "annedd" ac at rannau cyffredin yn cael eu trin yn wahanol mewn gwahanol adrannau o'r Ddeddf, gan gyfeirio, yn benodol, at adran 91(1), adran 91(2), y geiriad a fabwysiadwyd gan reoliad 6(8), a'r geiriad gwahanol sydd i'w weld eto yn adran 96(3).

(ii) Dadleuon y diffynyddion

227. Mae'r diffynyddion yn dadlau bod "annedd" at ddibenion rheoliad 6 o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn ddarostyngedig i'r diffiniad estynedig o "annedd" a ddarperir gan adran 91(2) o'r Ddeddf, ac nad yw wedi'i gyfyngu gan y diffiniad yn adran 246(3) i'r eiddo a lesiwyd sy'n ddarostyngedig i'r contract meddiannaeth yn unig. Felly, mae'r diffynyddion yn dadlau bod "annedd" at y dibenion hyn yn cynnwys, nid yn unig Fflat

1, ond hefyd “strwythur yr adeilad a'r tu allan i'r adeilad a'r rhannau cyffredin” a ychwanegwyd yn adran 91(2).

228. Er bod Mater 3 yn codi mewn perthynas â chydymffurfio â rhwymedigaeth rheoliad 6 yngylch cael ECR diliys yn ystod pob cyfnod meddiannaeth, mae'r diffynyddion yn awgrymu bod rhesymeg yr hawlwr yn mynd yn rhy bell oherwydd nad oes rheswm amlwg pam na fyddai'n berthnasol i bob cyfeiriad at “annedd” yn y Rheoliadau Ffitrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys penderfynu a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynndi (o fewn ystyr adran 91(1)) drwy roi sylw i'r 29 o ‘faterion ac amgylchiadau’ a restrir yn yr Atodlen i'r rheoliadau hynny, sy'n cynnwys tresmaswyr yn dod i mewn, hylendid domestig, plâu a sbwriel, ffrwydradau a dymchwel strwythurol ac elfennau'n disgyn. Maent hefyd yn cynnwys y ddyletswydd rheoliad 5 i sicrhau bod larymau mwg a charbon monocsid yn yr annedd (rheoliad 5).
229. Mae'r diffynyddion yn derbyn bod rheoliad 2(1), sy'n darparu bod gan eiriau ac ymadroddion yn y Rheoliadau Ffitrwydd “yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf”, yn codi cwestiwn yngylch pa un o'r ddau ddiffiniad, sy'n ymddangos yn groes i'w gilydd yn y Ddeddf, ddylai fod drechaf: adran 246(3) neu adran 91(2).
230. Mae'r diffynyddion yn cyflwyno bod darpariaethau'r Ddeddf, y mae'r Rheoliadau Ffitrwydd wedi cael eu llunio oddi tan, ac at ei dibenion, yn dangos nad yw'r ddiffiniadau yn y Ddeddf yn cystadlu nac yn gwrth-ddweud ei gilydd. Gwnaed y Rheoliadau Ffitrwydd yn unol ag adrannau 94(1), (2)(b), (3) a 256(1) o'r Ddeddf. Mae adran 256 yn rheoleiddio cymhwysedd cyffredinol Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf ac nid yw'n cynorthwyo un ffordd neu'r llall. Fodd bynnag, mae'r diffynyddion yn dibynnu'n fawr ar Adran 94, gan bwysleisio'r darnau canlynol yn benodol (gyda phwyslais y diffynyddion):

“(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ragnodi materion ac amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu,
at ddibenion adran 91(1), a yw annedd yn ffit i bobl fyw ynndi ai peidio.

(2) Wrth arfer y pŵer yn is-adran (1), caiff Gweinidogion Cymru ragnodi materion ac amgylchiadau -

(...)

(b) a allai godi oherwydd methiant i gydymffurfio â
rhwymedigaeth o dan adran 92.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy reoliadau

-
(a) gosod gofynion ar landlordiaid **at ddiben atal** unrhyw faterion neu amgylchiadau rhag codi a allai olygu **nad yw annedd yn ffit i bobl fyw ynndi;**

(b) rhagnodi, os na chydymffurfir â gofynion a osodir o dan baragraff (a) mewn cysylltiad ag **annedd, bod yr annedd i'w thrin fel pe na bai'n ffit i bobl fyw ynndi.**”

231. Mae'r diffynyddion yn cyflwyno y dylai'r diffiniad estynedig o "annedd" sy'n deillio o adran 91(1) fod yn gymwys i reoliadau 6(1) ac (8), os nad i weddill y Rheoliadau Ffitrwydd hefyd. Maent yn dweud bod yn rhaid i gyfeiriadau at "annedd" yn adran 94(1) olygu "annedd" yng nghyd-destun adran 91(1). Mae'n dilyn bod diffiniad adran 91(1) hefyd yn gymwys i reoliad 3 a'r Atodlen i'r Rheoliadau Ffitrwydd; mae'r ddau ohonynt wedi'u gwneud at ddiben penodol adran 91(1). Rhaid darllen adran 91(1) ochr yn ochr ag adran 91(2). Felly, mae'r diffynyddion yn dweud, er mwyn penderfynu a yw eiddo'n ffit i fyw ynddynt ai peidio, bod "annedd" yn cynnwys "os yw'r annedd yn ffurfio rhan un unig o adeilad, strwythur yr adeilad a'r tu allan i'r adeilad".
232. Yn ôl adran 94(2) gall y 'materion ac amgylchiadau' rhagnodedig sy'n peri i annedd beidio â bod yn ffit godi oherwydd methiannau i gydymffurfio â rhwymedigaethau o dan adran 92. Mae'r rhwymedigaethau hynny'n cynnwys dyletswyddau i gadw'r strwythur a'r tu allan i'r adeilad mewn cyflwr da (adran 92(2)(a)), a hefyd i gynnal a chadw gosodiadau gwasanaeth sy'n gwasanaethu'r annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac sydd naill ai (i) yn ffurfio rhan o'r adeilad y mae gan y landlord ystad neu fuddiant ynddi neu (ii) sy'n eiddo i'r landlord neu sydd o dan ei reolaeth (adran 92(2)(b)). Felly, mae'r diffynyddion yn cyflwyno y gall methiant i gynnal gosodiadau gwasanaeth neu rannau o'r adeilad sydd y tu allan i'r eiddo a lesiwyd olygu nad yw'r 'annedd' yn ffit i bobl fyw ynddi.
233. Mae'r 'materion ac amgylchiadau' yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Ffitrwydd, a ragnodir o dan adran 94(1) a (2), yn cynnwys materion y mae'r diffynyddion yn dweud eu bod yn berthnasol i osodiadau trydanol, gan gynnwys diffyg goleuo digonol (paragraff 13); bod mewn cyffyrddiad â thrydan (paragraff 23); a thân (paragraff 24). Mae'r diffynyddion yn cyflwyno bod y rheini'n faterion neu'n amgylchiadau a all ddigwydd mewn rhannau cyffredin, neu ardaloedd o adeilad y tu allan i'r eiddo a lesiwyd, ond a all olygu nad yw'r eiddo a lesiwyd yn addas.
234. Mae rheoliad 6 yn cael ei wneud o dan adran 94(3). Ei ddibenion yw atal "materion neu amgylchiadau rhag codi a allai olygu nad yw annedd yn ffit i bobl fyw ynddi" (adran 94(3)(a)) ac, os na chydymffurfir â gofynion ataliol, rhagnodi bod "yr annedd i'w thrin fel pe na bai'n ffit" (adran 94(3)(b)). Mae'r diffynyddion yn cyflwyno bod rhaid i "faterion ac amgylchiadau" yn y cyd-destun hwn gyfeirio at y "materion ac amgylchiadau" a ragnodir o dan adran 94(1) a (2). Am y rhesymau a roddwyd eisoes, mae'r diffynyddion yn cyflwyno bod y "materion ac amgylchiadau" hynny'n ymestyn i'r strwythur, y tu allan a'r rhannau cyffredin, ac yn cynnwys amrywiol faterion sy'n ymweud â thrydan.
235. O hyn, mae'r diffynyddion yn dadlau y byddai'n wahaniaeth cwbl artiffisial ac anhylaw ("a wholly artificial and unwieldly distinction") (datl fframwaith y diffynydd, paragraff 71) i wahanu ystyr "annedd" a ddefnyddir yn adrannau 4(1)-(2) oddi wrth yr hyn a ddefnyddir yn adran 94(3), ac o ganlyniad y diffiniad o "annedd" sy'n codi o dan adran 91(1) a rheoliad 3 o'r hyn a ddefnyddir yn rheoliad 6. Byddai'n golygu:
- i) Roedd y "gofynion" rhagnodedig i atal diffyg ffitrwydd mewn perthynas â thrydan wedi'u cyfyngu i'r eiddo a lesiwyd, ac nid oeddent yn berthnasol i'r strwythur, y tu allan i'r adeilad na'r rhannau cyffredin.
 - ii) Ni fyddai gan landlord unrhyw rwymedigaeth i gael ECR na gweithredu ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion mewn rhannau cyffredin, er efallai na fyddai'r

rhannau cyffredin hynny eu hunain yn ffit i fyw ynddynt (neu'n golygu nad yw'r eiddo a lesiwyd yn ffit) oherwydd peryglon trydanol a aseswyd yn unol ag adran 91(1), rheoliad 3 a'r Atodlen.

- iii) Gallai hyn olygu y byddai deiliad y contract yn byw mewn amodau peryglus neu anfoddhaol ac na fyddai eu rhent yn daladwy yn unol â rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol. Ond mae'r diffynyddion yn cyflwyno, heb ECR, na fyddai ganddynt unrhyw dystiolaeth na chadarnhad o'r sefyllfa hon, y gallai'r gwaith o ddatrys y peryglon gael ei esgeuluso neu ei ohirio, ac y byddai amcanion ataliol rheoliad 6 yn cael eu tanseilio. Mae'r diffynyddion yn dadlau nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr i eithrio'r strwythur, y rhannau allanol a'r rhannau cyffredin o'r ECRs pan all peryglon yn yr ardaloedd hynny effeithio ar ddiogelwch a chysur deiliaid contractau yn yr un modd â'r rheini yn yr eiddo a lesiwyd.
236. Mae'r diffynyddion yn cyflwyno, ar y llaw arall, bod cymhwysyo'r diffiniad estynedig o "annedd" yn adran 91(2) yn arwain at ganlyniadau ymarferol a synhwyrol ("workable and common-sense outcomes") (paragraff 72 o ddadl fframwaith y diffynyddion). Dywedant fod eu dadansoddiad, yn seiliedig ar adrannau 91 a 94, yn cael ei adlewyrchu yn y teler sylfaenol yn adran 91(1) bod rhaid i'r landlord sicrhau bod yr annedd yn ffit i bobl fyw ynddi ac yng nghymalau 6.1 a 6.2 o gcontract meddiannaeth Mrs Mitchell, sy'n darparu bod y rhwymedigaeth ar y landlord i sicrhau bod "yr annedd" yn ffit i bobl fyw ynddi "yn cynnwys, os yw'r annedd yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, strwythur yr adeilad a'r tu allan i'r adeilad a'r rhannau cyffredin" (cymal 6.2). Maent yn cyflwyno bod eu dadansoddiad yn cyflwyno cymesuredd rhwng dyletswydd y landlord i gadw "gosodiadau gwasanaeth" mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn yn unol ag adran 92(2)(b) o'r Ddeddf, a'r ddyletswydd o dan reoliad 6(1) i gael ECR sy'n cynnwys profi "gosodiadau gwasanaeth trydanol" fel y'u diffinnir gan Reoliad 6(8). Mae'r diffiniadau o "gosodiadau gwasanaeth" a "gosodiadau gwasanaeth trydanol" yn union yr un fath i raddau mawr. Mae'r diffynyddion yn dadlau bod adran 92(2)(b), wrth ei darllen ar y cyd ag adran 95(5), yn berthnasol i rannau cyffredin y tu allan i'r eiddo a lesiwyd a bod y landlord yn cydymffurfio ag adran 92(2)(b) ac felly'n fwyaf tebygol o olygu bod angen cwblhau archwiliadau diogelwch trydanol o bryd i'w gilydd yn unol â safonau diogelwch trydanol mewn rhannau cyffredin beth bynnag. Maent yn awgrymu nad yw rheoliad 6(1) yn ychwanegu llawer at y rhwymedigaeth honno.
237. Dywed y diffynyddion nad oes sail destunol nac unrhyw sail arall i gefnogi dadl yr hawlwr bod rhaid i'r gosodiad gwasanaeth trydanol "gyflenwi" yr annedd a bod er "budd" yr annedd (fel y mae Tai Arfordirol yn ei bledio ym mharagraff 80 Manylion eu Hawliad). Mae'r diffynyddion yn dweud bod y Rheoliadau Ffitrwydd yn darparu, yn eglur, y byddant yn berthnasol i unrhyw osodiad sy'n "gwasanaethu'r annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol".
238. Mae'r diffynyddion yn cyflwyno nad oes, mewn gwirionedd, unrhyw densiwn rhwng y diffiniad estynedig o "annedd" – at ddibenion rhwymedigaethau atgyweirio a diffyg ffitrwydd, gan gynnwys y rhwymedigaethau ataliol a osodir gan reoliad 6 – a'r rhwymedigaeth i nodi "yr annedd" yn natganiad ysgrifenedig y contract meddiannaeth yn unol ag adrannau 26(a) a 32(2). Maent yn dadlau nad yw'r rhwymedigaeth honno'n golygu mwy na mynnu bod cyfeiriad yr annedd yn cael ei ddiffinio fel term allweddol. Maent yn cyfeirio at baragraffau 109 a 126 y Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf, a Theler 1.5 o gcontract meddiannaeth Ms Mitchell.

239. Ysgrifennwyd y Nodiadau Esboniadol ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Fe'u paratowyd gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru "er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf" (paragraff 1). Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol "ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni" (paragraff 1). Mae paragraff 109 yn cyfeirio at y Materion Allweddol fel yr "wybodaeth sy'n benodol i'r eiddo megis y cyfeiriad a swm y rhent" ac mae paragraff 126 hefyd yn nodi'r Prif Faterion fel "cyfeiriad yr annedd", yn ogystal â'r dyddiad meddiannu, swm y rhent, a'r cyfnodau rhentu (fel wythnosol, misol). Mae cymal 1 contract meddiannaeth Mrs Mitchell yn dwyn y teitl "Key and Other Matters" ac yn rhestru'r rhain fel rhai sy'n cynnwys Fflat 1 fel yr annedd ("the dwelling").
240. Mae'r diffynyddion yn dweud os ydynt yn gywir bod y diffiniad estynedig o "annedd" yn gymwys o dan reoliad 6(1), mae peidio â chydymffurfio yn golygu, o reidrwydd, y canlyniad sy'n cael ei ystyried o dan Fater 1A, sef nad yw rhent yn daladwy. Felly, dywed y diffynyddion fod hawliad Mrs Mitchell am y cyfnod a ddaeth i ben ar 4 Ebrill 2024, pan roddwyd ECR iddi ar gyfer y rhannau cyffredin.

(iii) Dadleuon Gweinidogion Cymru

241. Safbwyt Gweinidogion Cymru yw bod p'un a yw gosodiad penodol yn "gwasanaethu annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol" o fewn ystyr rheoliad 6(8) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn sensitif i ffeithiau, a gall hefyd gynnwys dyfarniad drwy werthuso. Felly, mewn rhai amgylchiadau, dylai ECR gynnwys archwilio a phrofi gosodiadau trydanol sydd y tu allan i annedd ar yr amod eu bod "yn gwasanaethu'r annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol" a bod gan y landlord fuddiant neu reolaeth dros y tir lle mae'r gosodiad wedi'i leoli.
242. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn dadlau, hyd yn oed os, fel mater o farn, y dylai gosodiad y tu allan i Fflat 1 fod wedi'i gynnwys yn yr ECR cynharach a anfonwyd at Mrs Mitchell, na chaiff y diffyg hwnnw arwain at dorri rheoliad 6(1) na 6(3) na, felly, ymrwymo rheoliad 6(6) er mwyn peryglu'r hawl i rentu oherwydd gweithrediad rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol. Y rheswm am hyn yw bod Gweinidogion Cymru yn cyflwyno y gallai ECR fod yn ddiffygiol neu'n anghyflawn mewn nifer o ffyrdd ond na fyddai diffyg o'r fath o reidrwydd yn arwain at ystyried yr ECR cynharach yn ddirymedd neu'n ddogfen nad yw'n cyflawni rhwymedigaethau'r landlord o dan reoliad 6(3) ac, felly, yn adfer unrhyw hawl i rent a gollwyd yn flaenorol. Dywedant y dylai'r cwestiwn hwn, hefyd, gael ei ystyried yn un sy'n sensitif i ffeithiau.
243. Dywed Gweinidogion Cymru fod datganiadau arfaethedig yr hawlwr – sy'n honni eu bod yn ymdrin â phob achos, heb ystyried y materion hyn y dywedir eu bod yn sensitif i ffeithiau – yn mynd yn rhy bell ac na ddylid eu caniatáu.
244. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru yn cytuno â'r hawlwr, os nad yw gosodiad trydanol yn dod o fewn geiriad rheoliad 6(8) o'r Rheoliadau Ffitrwydd, nad yw'n dod o dan y drefn ESI ac ECR yn ôl y diffiniad estynedig o annedd yn adran 91(2) o'r Ddeddf.

Mater 3 - Y Penderfyniad

245. Rydym yn bryderus ynghylch natur ddamcaniaethol a rhagdybiaethol rhai o'r dadleuon a gyflwynwyd i ni ac, o ganlyniad, yr awgrym y dylem wneud datganiadau am

weithrediad manwl y Ddeddf a rheoliad 6, nad ydynt wedi'u hangori'n ddiogel yn ffeithiau unrhyw achos penodol.

246. Dim ond yn achos Mrs Mitchell mae'r mater hwn yn codi, fel rydym wedi dweud. Nid oedd yn amlwg i ni pa osodiadau trydanol, os o gwbl, y tu allan i'w fflat, sydd mewn gwirionedd yn destun anghydfod na fyddai'n dod o fewn y diffiniad yn rheoliad 6(8) o'r Rheoliadau Ffitrwydd (y mae pob parti yn derbyn eu bod yn berthnasol) ond a fyddai'n dod o fewn y diffiniad estynedig o "annedd" yn adran 91(2) o'r Ddeddf.
247. Mae'n dir cyffredin bod rhai gosodiadau trydanol y tu allan i fflat Mrs Mitchell wedi cael eu cynnwys yn yr ECR a roddwyd iddi ar 4 Ebrill 2024 (yn dilyn ESI ar gyfer y mannau cymunedol). Y cwestiwn fydd i ba raddau y mae'r gosodiadau trydanol allanol hyn yn gwasanaethu Fflat 1 yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Bydd angen i'r cwestiwn hwn fod yn destun dystiolaeth ac, os canfyddir bod Grŵp Tai Arfordirol Cyfyngedig wedi torri amodau drwy beidio â chyflwyno'r ECR hwn yn gynt, bydd canlyniadau y byddwn wedi'u hegluro o dan Fater 1 a Mater 2. Nid oedd graddau hynny'n glir o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ni, nac o'r dadleuon a roddwyd i ni. Fodd bynnag, dangoswyd cyfeiriadau at fyrrdau dosbarthu i ni, ac mae'n debyg bod un neu ragor ohonynt wedi gwasanaethu Fflat 1 yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ("DB", ar dudalen 2 o 14 yr ECR diweddarach, sef Atodiad 5 i Fanylion Hawliaid Grŵp Tai Arfordirol). Dangoswyd i ni, yn yr un ddogfen, gyfeiriadau at ystafelloedd mesuryddion a chypyrdau mesuryddion, y mae'n debyg bod un ohonynt wedi gwasanaethu Fflat 1 yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, er nad oedd yr hawlwr yn gallu dweud pa un. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r manylion yn hysbys i'r Cwnsler nac yn cael eu hegluro yn y dystiolaeth ac felly nid oedd yn bosibl mynd lawer ymhellach na hynny yn y ddadl.
248. Ar ben hynny, nid oedd yn rhan o achos Mrs Mitchell bod rhywfaint o osodiadau trydanol yn y rhannau cyffredin *nad* oeddent wedi'u cynnwys, hyd yn oed yn yr ECR diweddarach, ac y dylid bod wedi'u cynnwys pe bai'r diffiniad yn adran 92(1) o'r Ddeddf yn berthnasol, ond na fyddai'n cael ei gynnwys pe bai dim ond y diffiniad yn rheoliad 6(8) ("gosodiad gwasanaeth trydanol sy'n gwasanaethu'r annedd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol") a oedd yn berthnasol.
249. Cyn belled â bod rhai o'r gosodiadau trydanol yn yr adroddiad diweddarach yn gwasanaethu Fflat 1 yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (ac mae'n ymddangos fel pe bai hyn yn cael ei dderbyn), mae Mrs Mitchell yn gallu dal ei landlord i gyfrif am fethu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan reoliad 6 drwy roi copi iddi o'r ECR diweddarach tan 4 Ebrill 2024. Mae'n dilyn bod Grŵp Tai Arfordirol Cyfyngedig, mewn perthynas â Mrs Mitchell, yn wynebu canlyniadau ein penderfyniadau ynghylch materion 1 a 2 mewn perthynas â darparu'r ECR yn hwyr ar gyfer mannau cymunedol, ar 4 Ebrill 2024. Nid yw'r cwestiwn ynghylch pa rai o'r gosodiadau trydanol, os o gwbl, oedd y tu allan i reoliad 6(8) ond o fewn y diffiniad estynedig yn 92(1) yn ychwanegu dim at hawliau a rhwymedigaethau'r partïon y naill ffordd na'r llall, oherwydd eu bod i gyd mewn un ECR.
250. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid penderfynu ar bob achos yn gyntaf ar sail ei ffeithiau, ac mai'r ffordd orau o benderfynu ar achosion ymylol yn y gyfraith yw pan fydd ffeithiau unrhyw achos penodol yn gofyn am y penderfyniad hwnnw.
251. Felly, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw ddatganiadau ar Fater 3. Rhaid i'r man cychwyn fod yn ddiffiniad o annedd yn rheoliad 6 ei hun; hynny yw, y diffiniad yn

rheoliad 6(8). Mae'n ymddangos bod y diffiniad yn adran 91(2) yn berthnasol hefyd, oherwydd yr hyn a ddywedir yn rheoliad 2. Gwelwn rym yng nghyflwyniad y diffynyddion nad oes yn rhaid i adran 243 gael ei darllen fel rhywbeth sy'n gwrthdaro ag adran 91(2) ac, felly, o bosibl, yn eithrio gweithredu'r adran honno ar gwmpas rheoliad 6. Fodd bynnag, nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniad ar y pwynt oherwydd nad yw ffeithiau'r achos yn ei gynnwys.

MATER 4

252. Roedd yr hawlwyr yn codi Mater 4 am eu bod yn ansicr ynghylch yr atebion i ddau cwestiwn:
- Pa gadarnhad ysgrifenedig o waith y mae angen ei roi o dan reoliadau 6(3)(b) a 6(5) o'r Rheoliadau Ffitrwydd.
 - Pa mor bell yn ôl mewn amser y mae'n rhaid i landlord fynd o dan reoliadau 6(3)(b) a 6(5) er mwyn darparu'r cadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith y mae gan ddeiliad contract hawl iddo.
253. Daeth i'r amlwg bod yr holl bartion hynny a fynegodd farn ar y cwestiwn cyntaf yn cytuno yn ei gylch. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen i ni benderfynu arno. Mae'r hawlwyr a'r diffynyddion yn cytuno bod Tystysgrif Mân Waith Gosodiadau Trydanol yn wahanol i Adroddiad ar Gyflwr Trydanol ac nid yw rheoliad 6 yn berthnasol iddo. Cyfeirir at Dystysgrif Mân Waith Gosodiadau Trydanol ym Mhennod 64, paragraff 644.4.201 y Rheoliadau Weirio (BS 7671:2018), sy'n safon genedlaethol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET) a'r Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI). Caiff ei disgrifio yno fel math o dystysgrif a roddir "where electrical installation work does not include the provision of a new circuit or replacement or a distribution board or consumer unit".
254. Mae'r hawlwyr a'r diffynyddion yn cytuno bod yr ateb i'r cwestiwn cyntaf fel a ganlyn:
- "A landlord is not required to give the contract-holder a Minor Electrical Installation Works Certificate (MEIWC) in order to comply with the requirements of regulation 6 of the Fitness Regulations (in particular, the requirements of regulation 6(1) and 6(3)).
- For converted contracts, under regulation 6 of the Fitness Regulations, a landlord must provide written confirmation of any investigatory or remedial work carried out on or in relation to an electrical service installation in the dwelling after the Relevant Date [as to which, see below]. This duty includes but is not limited to investigations or works which have arisen as a result of the most recent Electrical Condition Report."
255. Nid oes anghydfod presennol rhwng unrhyw hawlydd nac unrhyw ddiffynnydd sy'n mynnu bod y cwestiwn cyntaf yn cael ei ateb yn yr achos hwn ac nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw ddatganiad mewn perthynas â hynny.

256. Nid yw'r partïon yn cytuno ar yr ateb i'r ail gwestiwn, a'r ateb i'r cwestiwn hwnnw fydd yn pennu'r Dyddiad Perthnasol yr ydym wedi cyfeirio ato ym mharagraff 252.ii) above. Mae'r hawlwr yn dweud mai'r Dyddiad Perthnasol yw 1 Rhagfyr **2023**. Mae'r diffynyddion yn dweud mai 1 Rhagfyr **2022** yw'r dyddiad.

Mater 4 – Y Gyfraith

257. Mae rheoliad 6(3)(b) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn darparu (gyda phwyslais wedi'i ychwanegu):

“(3) Rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract, cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau **sy'n dechrau â'r dyddiad meddiannu**—

(...)

(b) pan fo gwaith ymchwilio neu atgyweirio wedi ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl yr archwiliad diogelwch trydanol y mae'r adroddiad hwnnw yn ymwneud ag ef (a chyn y dyddiad meddiannu), gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith.”

Mae rheoliad 7(4) yn darparu, pan fo'r contract meddiannaeth yn gcontract wedi ei drosi (gweler paragraff 35 above), ystyr “**dyddiad meddiannu**” yn rheoliad 6(3) yw'r diwrnod sy'n 12 mis ar ôl y dyddiad trosi, h.y. 1 Rhagfyr 2023 (oherwydd mai 1 Rhagfyr 2022 oedd y dyddiad trosi).

258. Mae rheoliad 6(5) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn darparu (gyda phwyslais wedi'i ychwanegu):

“(5) Pan fo gwaith ymchwilio neu atgyweirio yn cael ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, **ar ôl y dyddiad meddiannu**, rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cafodd y landlord y cadarnhad.”

259. Mae geiriad rheoliad 6(5) yn gymwys i ddeiliaid contractau newydd a deiliaid contractau wedi eu trosi fel ei gilydd. Mae'r diffynyddion yn ddeiliaid contractau wedi'u trosi, ac roedd ganddynt denantiaethau o dan y ddeddfwriaeth flaenorol, a gafodd eu trosi'n gcontractau meddiannaeth pan ddaeth y Ddeddf i rym (gweler paragraff 21 above), ond nid yw hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth i eiriad gwirioneddol rheoliad 6(5). Mae hyn yn wahanol i'r addasiad penodol i reoliad 6(3) y cyfeirir ato ym mharagraff 35 a pharagraff 257 above.

260. Mae paragraff 31 o Atodlen 12 i'r Ddeddf yn darparu:

“Y dyddiad meddiannu

31. Y dyddiad meddiannu, mewn perthynas â chontract wedi ei drosi, yw'r diwrnod y daeth deiliad y contract i fod â hawl i feddiannu'r annedd o dan y denantiaeth neu'r drwydded a ddaeth yn gontact meddiannaeth ar y diwrnod penodedig.”

Y “diwrnod penodedig” oedd 1 Rhagfyr 2022. Felly, mae paragraff 31 o Atodlen 12 yn golygu, mewn gwirionedd:

“Y dyddiad meddiannu

31. Y dyddiad meddiannu, mewn perthynas â chontract wedi ei drosi, yw'r diwrnod y daeth deiliad y contract i fod â hawl i feddiannu'r annedd o dan y denantiaeth neu'r drwydded a ddaeth yn gontact meddiannaeth ar [1 Rhagfyr 2022].”

261. Mae'r Rheoliadau Ffitrwydd (fel rydym wedi'i ddweud uchod) yn darparu bod i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau Ffitrwydd "yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf" (rheoliad 2).

Mater 4 – Y Dadleuon

(i) Dadleuon yr hawlwyr

262. Mae'r hawlwyr yn dadlau bod rhaid i'r "dyddiad meddiannu" yn rheoliad 6(5) ar gyfer contractau wedi'u trosi olygu 1 Rhagfyr 2023 (fel y mae'n ei wneud yn rheoliad 6(3)). Maent yn dweud, os yw "dyddiad meddiannu" yn golygu'r hyn a nodir ym mharagraff 31 o atodlen 12 i'r Ddeddf (y dyddiad y daeth deiliad y contract "i fod â hawl i feddiannu'r annedd o dan y denantiaeth neu'r drwydded a ddaeth yn gontact meddiannaeth [yn ddiweddarach]"), byddai hyn yn arwain at "ganlyniad hurt" lle nad oes rhaid i landlord gael ECR diliys o dan Reoliadau Ffitrwydd 2022 ar gyfer contractau wedi'u trosi, ond mae'n rhaid iddo roi cadarnhad ysgrifenedig o waith (paragraff 63 o ddadl fframwaith yr hawlwyr).
263. Mae'r hawlwyr yn dweud, er enghraift, os yw "dyddiad meddiannu" yn golygu'r dyddiad y daeth deiliad y contract i fod â hawl i feddiannu'r annedd o dan y denantiaeth neu'r drwydded wreiddiol, ei bod yn amhosibl i'r hawlwyr gydymffurfio. O dan y diffiniad hwnnw, y dyddiad meddiannu ar gyfer contract Mrs Mitchell yw 12 Gorffennaf 2010. Dywed yr hawlwyr na allant gydymffurfio â rheoliad 6(5) os yw hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt roi cadarnhad ysgrifenedig o waith o fewn 14 diwrnod i dderbyn y cadarnhad hwnnw ers 12 Gorffennaf 2010 ("within 14 days of receipt of that confirmation since 12 July 2010" - dadl fframwaith yr hawlwyr, paragraff 64).
264. Daeth i'r amlwg nad oedd y diffynyddion na Gweinidogion Cymru yn dadlau dros y dehongliad hwn, fel y gwelir pan ddown at eu dadleuon.
265. O ran rheoliad 6(3)(b), mae'r hawlwyr yn cyflwyno bod rhaid i hyn hefyd gael ei gyfyngu i'r cyfnod rhwng yr ECR diweddaraf a roddwyd o dan reoliad 6(3)(a) a'r dyddiad meddiannu. Y dyddiad meddiannu yw 1 Rhagfyr 2023 ar gyfer contractau wedi'u trosi. Mae'r hawlwyr yn honni nad yw rheoliad 6(3)(b) yn ei gwneud yn ofynnol

i'r landlord ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith rhwng dyddiad yr ECR diwethaf cyn i'r rheoliadau ddod i rym a'r ECR a roddir o dan reoliad 6(3)(a).

266. Mewn dadl lafar, nododd yr hawlwr nad oedd yr un parti'n dadlau mai'r "dyddiad meddiannu" yn rheoliad 6(5) oedd y dyddiad y daeth deiliaid contractau yn denantiaid yn wreiddiol, e.e. 12 Gorffennaf 2010 yn achos Mrs Mitchell. Fodd bynnag, nid oeddent yn derbyn dehongliad Gweinidogion Cymru a'r diffynyddion (isod) y dylid ei ddehongli fel y "diwrnod penodedig" y cyfeirir ato ym mharagraff 31 atodlen 12 y Ddeddf, sef, 1 Rhagfyr 2022. Yn hytrach, cadwodd yr hawlwr at eu dadl bod yn rhaid i'r dyddiad fod yn 1 Rhagfyr 2023. Dywedasant fod yn rhaid edrych ar reoliad 6 yn ei gyfanrwydd, a bod yn rhaid dehongli rheoliad 6(5) yng ngoleuni rheoliad 6(3)(b) sydd, yn achos deiliaid contractau wedi eu trosi, yn rhinwedd yr addasiad a roddwyd iddynt gan reoliad 7, mewn perthynas â dyddiad meddiannu yn cael ei ddiffinio fel 1 Rhagfyr 2023. Roeddent yn cyflwyno bod rheoliad 6(3)(b) yn cyfeirio (gyda phwyslais wedi'i ychwanegu) at "(g)waith ymchwilio neu atgyweirio wedi ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl yr archwiliad diogelwch trydanol (...) (a **chyn y dyddiad meddiannu**)" a bod rheoliad 6(5) yn cyfeirio at "(g)waith ymchwilio neu atgyweirio yn cael ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, **ar ôl y dyddiad meddiannu**". Maent yn mynd gyda'i gilydd a dylent gynnwys yr un diffiniad o ddyddiad meddiannu a ddefnyddir ym mhob un, a fyddai (oherwydd yr addasiad penodol yn rheoliad 6(3)) yn 1 Rhagfyr 2023.

(ii) Dadleuon yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr

267. Mae'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr yn cytuno mai'r dyddiad trosi oedd 1 Rhagfyr 2022 ac, yn unol â hynny, dim ond o 15 Rhagfyr 2023 y bydd y dyletswyddau hysbysu yn rheoliadau 6(3)(a) a (b) y Rheoliadau Ffitrwydd yn codi. Fodd bynnag, maent hefyd yn dweud mai dim ond rheoliad 6(3) sy'n cael ei addasu gan reoliad 7(4) ac nad oes addasiad penodol o'r fath i'r "dyddiad meddiannu" yn rheoliad 6(5) (neu reoliad 6(4), nad yw'n codi unrhyw hawliad yn yr achos hwn).
268. Maent yn derbyn y byddai'r "dyddiad meddiannu" pan oedd yn ofynnol i landlordiaid gydymffurfio â'r dyletswyddau hysbysu yn rheoliadau 6(4) a 6(5) yn ymddangos fel pe baent yn cael eu rheoli gan baragraff 31 o Atodlen 12 ("would appear to be governed by paragraph 31 of Schedule 12" - paragraff 31 eu Cais ysgrifenedig i Ymyrryd, dyddiedig 2 Gorffennaf 2024; ar gyfer paragraff 31 o Atodlen 12 gweler paragraff 260 above). Maent yn cyflwyno, er nad yw ystyr hyn yn gwbl glir, ei fod yn golygu naill ai (A) y diwrnod y daeth deiliad y contract â hawl i feddianu'r annedd gyntaf o dan y denantiaeth neu'r drwydded wreiddiol, efallai flynyddoedd lawer yn ôl, neu (B) y diwrnod y daeth â hawl i feddianu'r annedd o dan y contract wedi ei drosi (1 Rhagfyr 2022). Maent yn dweud y byddai dehongliad (A) yn gosod dyletswydd amhosibl o dan reoliadau 6(4) a 6(5), na ddaethant i rym tan 1 Rhagfyr 2022. Maent yn dweud y byddai dehongliad (B) yn golygu y byddai'r ddyletswydd o dan reoliadau 6(4) a 6(5) (ynghyd â'r canlyniadau ar gyfer tor-amod a ystyriwyd eisoes) wedi codi flwyddyn gyfan cyn y dyletswyddau yn rheoliadau 6(3)(a) a (b) ond gyda'r un canlyniad ar gyfer diffyg cydymffurfio; sef nad oedd yn ofynnol i ddeiliaid contractau dalu rhent yn ystod y cyfnod hwnnw yn rhinwedd rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol (paragraff 32 o'u Cais ysgrifenedig).

269. O ganlyniad, maent yn dadlau y byddai'r naill ddehongliad neu'r llall yn gosod baich anochel ac anghymesur ar landlordiaid nad oedd yn amlwg yn fwriad gan Weinidog Cymru ("an inevitable and disproportionate burden on landlords which was clearly not intended by the Welsh Minister"); ac maent yn awgrymu bod hyn o ganlyniad i esgeulustod ar ran drafftsmon y Senedd ("an oversight on the part of the Senedd draftsman" - paragraff 33 o'u Cais ysgrifenedig).

(iii) Safbwyt Gweinidogion Cymru

270. Nid yw Gweinidogion Cymru yn derbyn awgrym yr Ymyrwyr eraill y bu gwall drafftio.
271. Maent yn cyfeirio at y newid penodol yn ystyr "dyddiad meddiannu" i 1 Rhagfyr 2023 yn rheoliad 6(3) o'r Rheoliadau Ffitrwydd yn achos contractau wedi eu trosi (paragraff 257 above).
272. Maent hefyd yn cyfeirio at y newid penodol yn rheoliad 6(4) gan reoliad 7(5) (gweler paragraff 35 above) i ddarllen:

"(4) Pan gynhelir archwiliad diogelwch trydanol ar ôl i ddeiliad y contract gael adroddiad yn unol ag is-baragraff (a) o baragraff (3) (fel y'i haddaswyd gan reoliad 7(4)), rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir copi i ddeiliad y contract o'r adroddiad ar gyflwr trydanol yn ymwneud â'r archwiliad cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd yr archwiliad".

273. Mae Gweinidogion Cymru yn cyflwyno (ym mharagraff 26 eu Hymateb ysgrifenedig i'r Ymyrwyr eraill, dyddiedig 15 Gorffennaf 2024) mai effaith hyn yw:

"...the substituted regulation 6(4) only applies in respect of electrical safety inspections undertaken after the landlord has already complied with (or should have complied with) its obligation to provide a copy of the pre-existing ECR on or before 14 December 2023. In the circumstances, it is clear that there is no drafting mistake in respect of the notification duty under regulation 6(4) in respect of converted contracts. Specific provision is made in respect of that notification duty as it applies to converted contracts under regulation 7(5) which is both clear and workable."

274. Gan nad oes unrhyw hawliad gan unrhyw ddiffynnydd sy'n ymgymryd â'r anghydfod hwn mewn perthynas â rheoliad 6(4), nid ydym yn dweud rhagor am hynny.
275. Gan droi at awgrym yr Ymyrwyr eraill y bu gwall drafftio mewn perthynas â rheoliad 6(5), mae Gweinidogion Cymru yn derbyn nad yw rheoliad 7 yn gwneud unrhyw ddiwygiad i reoliad 6(5) mewn perthynas â chontractau wedi'u trosi ond yn gwadu bod unrhyw gamgymeriad wedi bod. Maent yn dadlau bod y rhwymedigaeth o dan reoliad 6(5) yn codi mewn perthynas ag unrhyw waith cymwys a wneir ar ôl i'r Rheoliadau Ffitrwydd ddod i rym h.y. o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen. Dywedant nad oes dim byd afresymegol i Weinidogion Cymru ddod i'r casgliad y dylai contractau wedi'u trosi a chontractau meddiannaeth newydd fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon o'r

dyddiad y daeth y Rheoliadau Ffitrwydd i rym. Maent yn dadlau, yn wahanol i'r rhwymedigaethau o dan reoliadau 6(1) a 6(3), a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gymryd camau mewn perthynas â phob un o'r anheddu sy'n ddarostyngedig i gcontract wedi'i drosi, mai dim ond mewn perthynas ag anheddu lle mae gwaith cymwys yn digwydd y mae'r rhwymedigaeth hysbysu o dan reoliad 6(5) yn codi. Maent yn awgrymu ei bod yn ddealladwy, felly, i Weinidogion Cymru ddod i'r casgliad nad oedd y cyfnod gras o 12 mis a roddwyd mewn perthynas â rheoliadau 6(1) a 6(3) yn ofynnol ar gyfer rheoliad 6(5), sy'n gosod llai o faich ar landlordiaid.

276. Felly, mae Gweinidogion Cymru yn mabwysiadu dehongliad (B) (fel rydym wedi'i ddisgrifio ym mharagraff 268 above) ac yn gwadu, naill ai bod unrhyw reswm dros amau gwall drafftio o gwbl, neu fod gofynion *Inco Europe Ltd v First Choice Distribution* [2000] 1 WLR 586 ar gyfer mabwysiadu dehongliad unioni wedi cael eu bodloni. Yn *Inco*, dywedodd yr Arglywydd Nicholls o Birkenhead (yn 592):

“This power is confined to plain cases of drafting mistakes. The courts are ever mindful that their constitutional role in this field is interpretative. They must abstain from any course which might have the appearance of judicial legislation. A statute is expressed in language approved and enacted by the legislature. So the courts exercise considerable caution before adding or omitting or substituting words. Before interpreting a statute in this way the court must be abundantly sure of three matters: (1) the intended purpose of the statute or provision in question; (2) that by inadvertence the draftsman and Parliament failed to give effect to that purpose in the provision in question; and (3) the substance of the provision Parliament would have made, although not necessarily the precise words Parliament would have used, had the error in the Bill been noticed. The third of these conditions is of crucial importance. Otherwise any attempt to determine the meaning of the enactment would cross the boundary between construction and legislation: see Lord Diplock in *Jones v. Wrotham Park Settled Estates* [1980] A.C. 74, 105. (...)

Sometimes, even when these conditions are met, the court may find itself inhibited from interpreting the statutory provision in accordance with what it is satisfied was the underlying intention of Parliament. The alteration in language may be too far-reaching. In *Western Bank Ltd. v. Schindler* [1977] Ch. 1, 18, Scarman L.J. observed that the insertion must not be too big, or too much at variance with the language used by the legislature.”

(iv) Dadleuon y diffynyddion

277. Mae'r diffynyddion yn cytuno â Gweinidogion Cymru mai'r gwir ddehongliad yw dehongliad (B), h.y. y “dyddiad meddiannu” yn rheoliad 6(5) yw'r diwrnod y daeth y diffynyddion yn gymwys i feddianu eu hannedd o dan y contract wedi'i drosi fel deiliaid contractau (1 Rhagfyr 2022) ac nid y diwrnod pan wnaethant feddianu'r annedd yn wreiddiol o dan y ddeddfwriaeth cyn y Ddeddf fel tenantiaid.

278. Mae hyn yn golygu eu bod yn anghytuno â chyflwyniad yr hawlwyd bod yn rhaid i'r "dyddiad meddiannu" yn rheoliad 6(5) fod wedi'i fwriadu gan y ddeddfwrf a i fod ar 1 Rhagfyr 2023 pan fo'r contract yn gontract wedi'i drosi, fel y darperir yn benodol yn achos rheoliad 6(3).
279. Mae'r diffynyddion yn cytuno nad yw diffiniad Atodlen 12 paragraff 31 o'r "dyddiad meddiannu" yn ddidrafferth ("not without difficulty") os caiff ei gymhwys i reoliad 6(5) yn achos contractau wedi'u trosi (paragraff 91 o ddadl fframwaith y diffynyddion). Maent yn cytuno â'r hawlwyd a'r Ymyrwyd na all olygu ac nad yw'n golygu'r dyddiad yr ymrwymodd deiliad y contract i'w meddiannu'n wreiddiol o dan yr hen ddeddfwriaeth cyn y Ddeddf (h.y. yn 2010 yn achos Mrs Mitchell).
280. Maent yn canolbwytio, fodd bynnag, ar y cyfeiriad yn Atodlen 12 paragraff 31 at y "diwrnod penodedig", y cytunir mai 1 Rhagfyr 2022 ydyw, ac yn dadlau (mewn cytundeb â Gweinidogion Cymru) mai hwn yw'r dyddiad perthnasol at ddibenion rheoliad 6(5) os yw'r contract meddiannaeth yn gontract wedi ei drosi.
281. Mae'n dilyn bod rheoliad 6(5) yn ei gwneud yn ofynnol i landlord roi cadarnhad ysgrifenedig i ddeiliad y contract o "waith ymchwilio neu atgyweirio ... ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr anedd" o fewn 14 diwrnod i dderbyn y cadarnhad hwnnw, ar gyfer unrhyw waith o'r fath sy'n cael ei wneud ar ôl 1 Rhagfyr 2022. Mae hynny'n wir p'un a yw'r contract yn gontract wedi'i drosi ai peidio.
282. Dywed y diffynyddion nad oes sail i ddod i'r casgliad mae'n rhaid bod hyn yn amryfusedd ar ran Gweinidogion Cymru. Yn hytrach, mae rheoliadau 6 a 7 y Rheoliadau Ffitrwydd wedi gwahaniaethu yn achos contractau wedi'u trosi: nid oes gofyn rhoi unrhyw ECR tan 15 Rhagfyr 2023 (rhwymedigaeth gyffredinol a allai fod yn berthnasol i lawer iawn o anheddu, gan nodi bod y rheoliadau'n berthnasol i landlordiaid sydd â llawer o stoc), ond mae gofyn rhoi cadarnhad i ddeiliad contract unigol o waith ymchwilio neu atgyweirio a wnaed ar anheddu unigol o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen. Maent yn dadlau bod hyn yn rhwymedigaeth benodol, i ddeiliad contract unigol, lle mae'r baich gweinyddol ar y landlord yn fach a bod y rheswm dros roi cadarnhad ysgrifenedig i ddeiliad y contract yn amlwg. Maent yn dweud nad oes rheswm pam y dylid gorfodi deiliad contract wedi'i drosi i aros yn hirach nag y byddai deiliad contract newydd am wybodaeth rheoliad 6(5), ac felly mae amser yn rhedeg o'r diwrnod penodedig o 1 Rhagfyr 2022 ac nid yw'n gofyn am gyfnod gras a fyddai'n dechrau rhedeg ar 1 Rhagfyr 2023 yn unig yn achos deiliaid contractau wedi'u trosi, fel yn achos eu ECR. Mae dyletswydd rheoliad 6(5) yn annibynnol ac nid yw'n ei gwneud yn ofynnol bod rhwymedigaeth i gyflwyno ECR cyn iddo ddod i rym.
283. Dywedant mai'r dehongliad hwn hefyd sy'n cael yr effaith leiaf ar y geiriad statudol.

Mater 4 - Y Penderfyniad

284. Mae'n well gennym ddadleuon y diffynyddion a Gweinidogion Cymru na rhai'r hawlwyd.
285. Dechreuwn gyda geiriad y ddeddfwriaeth.

286. Mae'n ffaith bwysig bod rheoliadau 6(3) a 6(4) o'r Rheoliadau Ffitrwydd wedi eu diwygio yn achos deiliaid contractau wedi eu trosi ac na chafodd rheoliad 6(5) ei ddiwygio.

287. Wrth osod rheoliadau 6(3), 6(4) a 6(5) wrth ymyl ei gilydd, gan ddefnyddio'r geiriad sy'n gymwys i ddeiliaid contractau wedi eu trosi yn rhinwedd y diwygiadau a wnaed gan reoliad 7, maent yn darllen fel a ganlyn:

"(3) Rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract, cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â [1 Rhagfyr 2023] —

(a) copi o'r adroddiad ar gyflwr trydanol mwyaf diweddar, a

(b) pan fo gwaith ymchwilio neu atgyweirio wedi ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl yr archwiliad diogelwch trydanol y mae'r adroddiad hwnnw yn ymwneud ag ef (a chyn y dyddiad meddiannu), gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith.

(4) Pan gynhelir archwiliad diogelwch trydanol ar ôl i ddeiliad y contract gael adroddiad yn unol ag is-baragraff (a) o baragraff (3) (...), rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir copi i ddeiliad y contract o'r adroddiad ar gyflwr trydanol yn ymwneud â'r archwiliad cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cwbllhawyd yr archwiliad.

(5) Pan fo gwaith ymchwilio neu atgyweirio yn cael ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl y dyddiad meddiannu, rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cafodd y landlord y cadarnhad."

288. Er y defnyddir y gair "dyddiad meddiannu" yn rheoliad 6(3) ar y pwynt lle'r ydym wedi nodi cromfachau sgwâr, yn achos contractau wedi'u trosi mae ystyr arbennig i "dyddiad meddiannu" gan reoliad 7(4) sy'n golygu ei fod 12 mis ar ôl y dyddiad trosi, a bod gweithrediad y ddeddfwriaeth berthnasol arall yn datrys hynny ar gyfer pob contract wedi'i drosi fel 1 Rhagfyr 2023, sef y dyddiad rydym wedi'i roi mewn cromfachau sgwâr yn unol â hynny. Felly, nid oes rheswm i ddehongli "dyddiad meddiannu" yn rheoliad 6(5) yn yr un modd ag yn rheoliad 6(3): mae rheoliad 7 yn rhoi ystyr penodol iddo yn rheoliad 6(3) nad yw'n ei roi iddo yn rheoliad 6(5).

289. Nid oes diffiniad o "dyddiad meddiannu" at ddibenion, yn benodol, rheoliad 6(5) yn y Rheoliadau Ffitrwydd, ac mae rheoliad 2 felly'n awgrymu y dylai'r Ddeddf ddarparu'r diffiniad.

290. Y diffiniad ym mharagraff 31 o Atodlen 12 (gan roi dyddiad annadleuol ar gyfer "y diwrnod penodedig" yn y cyd-destun hwn) yw:

"Y dyddiad meddiannu

31. Y dyddiad meddiannu, mewn perthynas â chontract wedi ei drosi, yw'r diwrnod y daeth deiliad y contract i fod â hawl i feddiannu'r annedd o dan y denantiaeth neu'r drwydded a ddaeth yn gcontract meddiannaeth ar [1 Rhagfyr 2022]."

291. Mae'r holl bartion yn cytuno, ac rydym ninnau'n cytuno â hwy, nad yw hyn yn golygu bod y "dyddiad meddiannu" yn rheoliad 6(5) yn ddyddiad cyn 1 Rhagfyr 2022. Ni fyddai hynny'n gwneud unrhyw synnwyr ac ni fyddai'n unol â diben na chynllun y Ddeddf a'r rheoliadau.
292. Mae hyn yn golygu nad yw paragraff 31 o Atodlen 12 yn addas i ddarparu diffiniad at ddibenion rheoliad 6(5) drwy unrhyw ffurf ar ddehongli llythrennol.
293. Fodd bynnag, mae paragraff 31 o Atodlen 12 yn awgrymu na fydd y dyddiad meddiannu yn hwyrach na 1 Rhagfyr 2022.
294. Gan ddychwelyd at eiriad rheoliadau 6(3) hyd at 6(5) a nodir ym mharagraff 287 above:
 - i) Nid yw'r rhwymedigaeth i roi ECR i ddeiliad contract wedi'i drosi yn codi tan 14 diwrnod ar ôl 1 Rhagfyr 2023: rheoliad 6(3)(a).
 - ii) Mewn perthynas â'r archwiliad y mae'r ECR a ddarparwyd erbyn 14 Rhagfyr 2023 wedi'i seilio arno, fodd bynnag, a lle mae **gwaith ymchwilio neu atgyweirio** eisoes wedi'i wneud, rhaid rhoi cadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith i ddeiliad y contract ar yr un pryd: rheoliad 6(3)(b).
 - iii) Pan fydd archwiliad diogelwch trydanol yn cael ei gynnal ar ôl i'r ECR hwn gael ei ddarparu, rhaid darparu ECR sy'n adlewyrchu'r archwiliad diweddaraf o fewn 14 diwrnod: rheoliad 6(4). Bydd hyn o reidrwydd ar ôl 1 Rhagfyr 2023.
 - iv) "Pan fo gwaith ymchwilio neu atgyweirio yn cael ei wneud ar osodiad gwasanaeth trydanol yn yr annedd, neu mewn perthynas â gosodiad o'r fath, ar ôl y dyddiad meddiannu, rhaid i'r landlord sicrhau y rhoddir i ddeiliad y contract gadarnhad ysgrifenedig o'r gwaith cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cafodd y landlord y cadarnhad": rheoliad 6(5).
295. Mae'r hawlwr yn derbyn yn onest, os mai dim ond ar gyfer gwaith ymchwilio neu waith atgyweirio a wnaed ar ôl 1 Rhagfyr 2023 y bydd rheoliad 6(5) yn berthnasol, y bu camgymeriad wrth ddrafftio. Mewn geiriau eraill, nid dyna a ddywedodd y drafftmon, ac nid dyna ddywedodd Gweinidogion Cymru wrth wneud y rheoliad. Felly, mae'n gywir dweud nad yw dehongliad yr hawlwr yn cyd-fynd â'r iaith bresennol.
296. Mae'n amlwg bod rheoliad 6(5) yn berthnasol i waith ymchwilio neu atgyweirio a wnaed ar ôl 1 Rhagfyr 2023, ond ni welwn unrhyw reswm pam na ddylai fod yn berthnasol i waith o'r fath a gynhaliwyd cyn y dyddiad hwnnw. Dim ond pan fydd gwaith o'r fath wedi'i wneud y mae rheoliad 6(5) yn berthnasol, tra bo'r rhwymedigaeth i gyflenwi ECR yn rhwymedigaeth gyffredinol mewn perthynas â phob annedd gyda deiliad contract wedi'i drosi ac a oedd yn codi ar yr un dyddiad ar gyfer pob deiliad contract wedi'i drosi a oedd â'r hawlwr fel eu landlord. Cafodd y cyfnod gras ei ymestyn mewn perthynas ag ECRs yn y cyd-destun hwnnw, ond nid oedd o reidrwydd

yn dilyn y byddai cyfnod tebyg o ras neu y dylai cyfnod tebyg o ras gael ei roi, er mwyn gwneud synnwyr neu gyflawni'r diben statudol, mewn perthynas â chadarnhau'r gwaith ymchwilio neu atgyweirio y gellid ei wneud fesul achos. Mae'r geiriad – ynghyd â'i addasiadau penodol yn achos deiliaid contractau nad oeddent yn berthnasol i reoliad 6(5) – yn awgrymu na chafodd y cyfnod gras ei ymestyn yn y modd hwn.

297. Nid yw rheoliad 6 yn honni ei fod yn ôl-weithredol, ac ni ofynnodd unrhyw un i ni ei ddehongli'n ôl-weithredol. Fodd bynnag, nid oes rheswm i beidio â'i ddehongli fel pe bai'n berthnasol o'r dyddiad penodedig, sef 1 Rhagfyr 2022, nid 1 Rhagfyr 2023. Er gwaethaf yr addasiadau cynharach, penodol ar gyfer contractau wedi'u trosi (yn benodol, y cyfnod gras a ychwanegwyd at reoliad 6(3) ar gyfer y contractau hynny), darleniad arferol a naturiol rheoliad 6(5) yw ei fod yn dechrau gweithredu o'r dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth i rym (y diwrnod penodedig, h.y. 1 Rhagfyr 2022) a dim hwyrach. Felly, "y dyddiad meddiannu" yn rheoliad 6(5) yw'r dyddiad y daeth y rheoliadau i rym (1 Rhagfyr 2022), neu'r dyddiad y dechreuodd y feddiannaeth yn wreiddiol (yn unol â pharagraff 31 o Atodlen 12), pa un bynnag yw'r diweddaraf. Ar gyfer meddiannaeth sy'n dechrau ar ôl 1 Rhagfyr 2022, y dyddiad meddiannu yn rheoliad 6(5) yw'r dyddiad meddiannu am y tro cyntaf. Ar gyfer meddiannaeth o dan gontract wedi ei drosi, y dyddiad meddiannu at ddibenion rheoliad 6(5) yw'r dyddiad y daw'r rheoliad i rym, h.y. 1 Rhagfyr 2022.
298. Credwn mai dyma'r darleniad mwyaf naturiol o reoliad 6(5) yn ei gyd-destun. Mae'n defnyddio ystyr sy'n unol â'r dyddiad y daw'r Rheoliadau Ffitrwydd i rym ac (ond dim ond os yw'n ddiweddarach) y dyddiad y mae meddiannaeth yn dechrau gyntaf. Felly, mae'n briodol i reoliad sydd wedi'i eirio'n union yr un fath mewn perthynas â chontractau wedi'u trosi a chontractau newydd. Nid yw dehongliad yr hawlwyd, sy'n rhoi deiliaid contractau wedi'u trosi mewn sefyllfa waeth na deiliaid contractau newydd sy'n dechrau meddiannaeth rhwng 1 Rhagfyr 2022 ac 1 Rhagfyr 2023, yn ymddangos i ni mewn unrhyw ffordd yn gyson â'r diben statudol na'r geiriad. Mae'r cyfnod gras mewn perthynas â'r ECR cyntaf i'w roi i denantiaid presennol (deiliaid contractau wedi'u trosi) yn bur wahanol, gan ei fod wedi'i ddeddfu'n benodol. Mae'r ffaith nad yw'n cael ei ddeddfu mewn perthynas â rheoliad 6(5) yn ymddangos i ni nad yw'n gamgymeriad ond yn wahaniaeth statudol clir. Rydym yn cytuno â'r gwahaniaeth rhwng y ddwy sefyllfa a drafodwyd mewn dadl, fel rydym wedi'i grynhodi uchod, ym mharagraff 275 (gan Weinidogion Cymru) a pharagraff 282 (gan y diffynyddion).
299. Mae'n dilyn nad ydym wedi ein darbwyllo gan ddehongliad yr hawlwyd. Nid ydym wedi ein darbwyllo bod camgymeriad wedi bod y mae angen ei gywi. Nid yw'r gofynion a nodwyd gan yr Arglwydd Nicolls o Birkenhead os yw dehongliad unioni i'w fabwysiadu wedi eu bodloni: gweler *Inco Europe Ltd v First Choice Distribution [2000] 1 WLR 586 yn 592*, a ddyfynnir ym mharagraff 276 above.

MATER 5

300. Mae Mater 5 yn ymwneud ag a yw hawliau'r hawlwyd a'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr o dan Erthygl 1, Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (fel y'i deddfir yn Atodlen 1 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998) ("A1P1") yn cael eu defnyddio a'u torri o ganlyniad i'n casgliadau ar y materion cynharach, ac os bydd y diffynyddion yn llwyddo yn eu gwrth-hawliadau.

301. Mae A1P1 yn darparu:

“Protection of property

1. Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law.
2. The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a State to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties.”

(i) Safbwyt yr hawlwr a'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr ar Fater 5

302. Mae'r hawlwr yn cynnwys pedwar landlord cymdeithasol sy'n gyfrifol am dros 25,000 o gartrefi yng Nghymru (gweler paragraff 3 above). Gwnaeth dau landlord cymdeithasol arall (yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr) gais am ganiatâd i ymyrryd 16 diwrnod cyn y gwrandawiad, gan gefnogi safbwyt yr hawlwr ar faterion rydym eisoes wedi rhoi sylw iddynt, a chodi'r hyn a ddaeth yn Fater 5, nad oedd wedi cael ei bledio gan yr hawlwr ym Manylion eu Hawliad ond a fabwysiadwyd wedyn gan yr hawlwr fel rhan o'u hachos hefyd.
303. Rhoddodd yr hawlwr yn hawliad PT-2024-CDF-000024 (Grŵp Tai Arfordirol Cyfyngedig a Tai Cymunedol Tai Calon Cyfyngedig) gyfarwyddyd i'r Cwnsler arweiniol ac iau ar gyfer yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr ymddangos yn y gwrandawiad ar ran y ddau hawlydd hynny (yn ogystal â'u Cwnsler arweiniol presennol a'u dau Gwnsler iau), er mwyn iddynt allu gwneud cyflwyniadau llafar ar Fater 5, a dyna a wnaethant.
304. Cyflwynodd yr hawlwr yn hawliad PT-2024-CDF-000024 (gan gwnsler a gyfarwyddwyd yn wreiddiol ar ran yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr) hefyd nifer o gyflwyniadau ysgrifenedig ar ôl y gwrandawiad, a arweiniodd at gyflwyniadau pellach a cheisiadau gan bartïon eraill, gan gynnwys tystiolaeth gan Weinidogion Cymru, ar Fater 5.
305. Gan fod yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr wedi ymuno'n hwyr, ac am nad oeddent yn bartïon gwreiddiol, nid yw ffeithiau eu hachosion yn rhan o'r Ffeithiau y cytunwyd arnynt. Cyfeiriwyd yn helaeth at y ffeithiau hynny mewn tystiolaeth a ffeiliwyd ganddynt, ac mewn cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar, ond roedd yn amlwg o'r ymateb, yn benodol, gan Weinidogion Cymru, nad oedd cytundeb arnynt. Parhaodd y cyfnewidiadau hyn ar ôl dyddiadau'r gwrandawiad ar 18-19 Gorffennaf, ac yng nghyflwyniad olaf cyfreithwyr yr hawlwr yn hawliad PT-2024-CDF-000024 (dyddiedig 1 Awst) dywedwyd:

“...there are substantive issues raised within the further submissions – particularly given the lengthy submissions and

new evidence relied upon by the Welsh Ministers (...) which our clients would wish to respond to.”

306. Roedd yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr (y mabwysiadodd yr hawlwr eu safbwyntiau yn ddiweddarach) yn ceisio gorchymyn i ddatgymhwys rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol (y ddarpariaeth Nid yw'n Ofynnol Talu, a nodir ym mharagraff 26 above) fel un sy'n anghydnaus â'u hawliau A1P1. Maent wedi cyflwyno'r iawn maent yn ei geisio, o ganlyniad i Fater 5, mewn pedair ffordd wahanol (paragraff 45 o'r Cais i Ymyrryd, dyddiedig 2 Gorffennaf 2024) fel a ganlyn:

- i) Mae datganiad sy'n nodi bod rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol [h.y. Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Darpariaethau Atodol) (Cymru)] a rheoliad 7 o Reoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022 [sy'n defnyddio'r un termau] i'w darllen a'u rhoi ar waith yn gyson â hawliau A1P1 yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr drwy ddarllen yn y geiriau sydd wedi'u tanlinellu:

“The contract-holder is not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation except where the landlord has complied with regulation 6(1) [of the Fitness Regulations] and the only reason the property is treated as unfit for human habitation under regulation 6(6) is because the landlord has not complied with regulations 6(3), (4) (including as substituted by regulation 7(5)) or (5) [of the Fitness Regulations].”

Ar ôl y gwrandawiad, newidiodd yr hawlwr yn hawliad PT-2024-CDF-000024, mewn cyflwyniad ysgrifenedig gan gwnsler arweiniol ac iau a gyfarwyddwyd yn wreiddiol gan yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr dyddiedig 22 Gorffennaf 2024, y datganiad arfaethedig hwn a'i ail-lunio fel a ganlyn (gyda rhannau ychwanegol neu ddiwygiedig mewn print trwm):

“The contract-holder is not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation except where the landlord has complied with regulation 6(1) [of the Fitness Regulations], has carried out any necessary investigatory or remedial work and the only reason the property is treated as unfit for human habitation under regulation 6(6) is because the landlord has not given the contract-holder a copy of the ECR or written notification of any investigatory or remedial work as required by regulations 6(3), (4) (including as substituted by regulation 7(5)) or (5) [of the Fitness Regulations].”

- ii) Fel arall, mae rheoliad 11 o'r Rheoliadau Atodol i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y geiriau canlynol sydd wedi'u tanlinellu:

“The contract-holder is not required to pay rent in respect of any day or part day during which the dwelling is unfit for human habitation except when that would be incompatible with the Convention rights of the landlord.”

- iii) Fel arall, datganiad bod adran 240(6) o'r Ddeddf i'w darllen yn gyson â hawliau A1P1 yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr.
- iv) Fel arall, gorchymyn sy'n datgymhwys rheoliad 11 yn rhannol neu'n gyfan.
307. Fodd bynnag, safbwyt yr hawlwyd (a'r cwnsler ar gyfer yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr, a oedd yn dal i siarad ar eu rhan wrth weithredu hefyd ar ran yr hawlwyd yn hawliad PT-2024-CDF-000024) oedd na ddylid datrys na phenderfynu ar Fater 5 nes bod canlyniad y gwrth-hawliadau, yn enwedig ar fater ymgyfoethogi anghyfiawn, yn hysbys. Roedd hyn er gwaethaf yffaith mai'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr a'r hawlwyd yn hawliad PT-2024-CDF-000024 oedd yn pwysom i'r mater hwn gael ei ddadlau yn y gwrundaiad.
308. Dywed Paragraff 7(b) o Ateb yr Hawlwyd (yn hawliad PT-2024-CDF-000024) ar y Materion A1P1 dyddiedig 22 Gorffennaf 2024 (ar ôl y gwrundaiad ar 18-19 Gorffennaf 2024):

“The Claimants maintain their submission (see their Note of 16 July 2024, para 3) that the A1P1 issue (as opposed to the other issues) should not be resolved without resolving the unjust enrichment counterclaims. While the Court could find that there is a breach of A1P1, it cannot *reject* the A1P1 argument on the assumption (as suggested by [defence counsel]) that the landlords will be entitled to retain any rent paid. If the landlords do have that remedy, it is a highly relevant factor and the interference with A1P1 rights will be less serious in those circumstances (even allowing for the additional rent payable to the DWP), and potentially easier to justify: *Wilson v First County Trust Ltd (No 2)* [2004] 1 AC 816 [48]. If (which is not admitted) the interference is found to be justified on that assumption, and it later transpires that the landlords are not entitled to retain rent paid, the Court will have determined the A1P1 argument on a false factual premise.”

(ii) Safbwyt Gweinidogion Cymru ar Fater 5

309. Roedd Gweinidogion Cymru wedi herio'r her i'r rheoliadau ar sail A1P1 gan yr Ail a'r Trydydd Ymyrrwr a'r hawlwyd, ond dim ond ar y sail y dylai'r diffynyddion fethu ar Fater 1B a methu hefyd yn eu Gwrth-hawliadau (gweler paragraffau 141 a 142 above).
310. Nid yw'n syndod felly, bod yr hawlwyd a'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr wedi pwysleisio pa mor gul yw safbwyt Llywodraeth Cymru, wrth beidio ag amddiffyn eu deddfwriaeth yn ddiamond.

311. Roedd Gweinidogion Cymru wedi gwahaniaethu'n glir rhwng landlordiaid a oedd yn torri amodau ac a oedd yn cael eu rhybuddio am dor-amod drwy beidio â chael rhent, a landlordiaid na chawsant eu rhybuddio felly oherwydd na chafodd rhent ei atal i ddechrau, er y gallai deiliaid contractau wedyn geisio ei adennill (safbwyt Gweinidogion Cymru ar Fater 1B a'r gwrth-hawliadau yw y dylai deiliaid contractau fethu mewn unrhyw ymgais o'r fath).
312. Fodd bynnag, mae'r diffynyddion wedi llwyddo ar Fater 1B ac rydym wedi cytuno i beidio â phenderfynu ar y gwrth-hawliadau ar hyn o bryd, ar gais ar y cyd yr holl bartïon ar wahân i Weinidogion Cymru.
313. Yn dibynnu ar ganlyniad y gwrth-hawliadau, felly (gan nad ydym yn rhagfynegi mewn unrhyw fod, fel y dywedasom ym mharagraff 142 above), roedd yn ymddangos yn wreiddiol bod Gweinidogion Cymru yn ildio'r hawliad A1P1, er ei fod wedi'i wrthwynebu'n llwyr gan ddadleuon a glywsom gan y diffynyddion a'i fod, yn y pen draw, yn fater i'r llys benderfynu arno.
314. Ar sail ein penderfyniad ar Fater 1B, ac os bydd y diffynyddion mewn gwirionedd yn llwyddo yn eu gwrth-hawliadau, derbyniodd Gweinidogion Cymru i ddechrau y gallai eu deddfwriaeth fod yn groes i hawliau A1P1 landlordiaid. Roeddent wedi cyflwyno (ym mharagraff 24 o'r Datganiad Sefyllfa a oedd ynghlwm wrth eu cais i ymyrryd, dyddiedig 24 Mai 2024, ac yr oeddent yn cadw ato yn eu cyflwyniadau terfynol):
- “...construing the legislation so that landlords could be faced with providing accommodation for no return over a prolonged period of time when contract-holders had not made any complaint about a breach of regulation 6 and, indeed, might have a financial incentive to refrain from making a complaint, would disproportionately interfere with the A1P1 rights of landlords whilst frustrating the underlying purpose of the legislation which is to ensure that dwellings are free of hazards from defective electrical installations. Whereas the Welsh Ministers' interpret the legislation, read in light of the common law doctrine of unjust enrichment, as (a) enabling contract-holders to withhold rent in order to incentivise landlords to comply with safety requirements, but (b) not entitling contract-holders to reimbursement of rent actually paid during periods where the only complaint about the dwelling relates to a failure to serve an ECR, strikes a fair and proportionate balance between the Article 8 rights of contract-holders and the A1P1 rights of landlords.”
315. Ar ôl dosbarthu'r dyfarniad drafft, fe wnaeth Gweinidogion Cymru fireinio'r sefyllfa hon mewn cyflwyniad ysgrifenedig ar 14 Hydref 2024. Dywedasant fod y Datganiad Sefyllfa wedi'i ffeilio pan nad oedd awgrym bod y rheoliadau'n anghydnaus â'r Confensiwn ac nad oedd Mater 5 yn rhan o'r achos eto. Eglurasant, er gwaethaf yr hyn a ddywedwyd ym mharagraff 24 y Datganiad Sefyllfa, nad ydynt yn dymuno ildio, ac nad ydynt yn ildio, unrhyw achos o dorri A1P1, ni waeth beth yw ein penderfyniad ar Fater 1B a beth bynnag fo canlyniad y gwrth-hawliadau. Roeddent yn cyfeirio at eu cyflwyniadau ysgrifenedig, dyddiedig 15 Gorffennaf 2024 (cyn y gwrandawiad) a 25 Gorffennaf 2024 (ar ôl y gwrandawiad) yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, roedd eu cyflwyniadau ysgrifenedig dyddiedig 15 Gorffennaf 2024 yn seiliedig ar eu dadleuon

ar gyfer Mater 1B, nad ydynt wedi llwyddo, gan ddweud (ym mharagraff 22) “The combined effect of regulation 6 and regulation 11 is to permit a contract-holder to withhold rent but not to allow the contract holder to reclaim rent already paid, notwithstanding a historic breach of the notification duties” (gyda’r pwyslais wedi’i ychwanegu). Roedd eu cyflwyniadau yn y gwrandoedd yn seiliedig ar yr un gwahaniaeth. Roedd eu cyflwyniadau ysgrifenedig ar 25 Gorffennaf 2024 hefyd, gan ddweud (ym mharagraff 32) “that a contract-holder is exercising the right to withhold rent under regulation 11 is likely to come to [the] landlord’s attention quickly thereby enabling and prompting any landlord to remedy the breach of regulation 6(3) expeditiously...”

316. Er ein bod yn derbyn nad yw Gweinidogion Cymru bellach yn dymuno ildio unrhyw achos o dorri A1P1, ni chafodd y dadleuon a anfonwyd atom ar ran Gweinidogion Cymru eu cyfeirio at yr amgylchiadau y maent bellach yn canfod eu hunain ynddynt, sef bod deiliaid y contractau wedi llwyddo gyda Mater 1B. Nid oeddent ychwaith yn ystyried goblygiadau unrhyw lwyddiant yn y dyfodol y gallai deiliaid contractau ei gael gyda’u gwrth-hawliadau. Roedd eu cyflwyniadau yn tybio y byddai deiliaid y contractau yn methu ar Fater 1B ac ar eu gwrth-hawliadau, ac ni chafodd paragraff 24 eu Datganiad Sefyllfa dyddiedig 24 Mai 2024 ei dynnu’n ôl tan 14 Hydref 2024. Felly, nid yw eu cyflwyniadau ar Fater 5 yn gyflawn ar hyn o bryd.

(ii) Safbwyt y diffynyddion ar Fater 5

317. Gwrthododd y diffynyddion holl ddadleuon Mater 5 ar sail A1P1, ni waeth beth oedd canlyniad y gwrth-hawliadau, a hyd yn oed petai penderfyniad ar Fater 1B o’u plaid (fel sydd wedi’i benderfynu bellach). Roeddent yn cynnig gwrth-ddatganiadau, sy’n cael eu pledio yn eu gwrth-hawliadau.

Casgliad ar Fater 5

318. Roedd dadleuon yr holl bartiōn ar Fater 5 yn llawer mwy helaeth na’r crynodebau uchod. Fe wnaethom wrando’n astud arnynt yn y gwrandoedd ac fe wnaethom ystyried yn ofalus y cyflwyniadau ysgrifenedig, y dystiolaeth a’r awdurdodau ar Fater 5 y cyfeiriwyd ni atynt cyn, yn ystod ac ar ôl y gwrandoedd gan yr holl bartiōn. Byddem wedi hoffi dod i gasgliad yn eu cylch, neu o leiaf wedi mynegi barn dros dro arnynt.
319. Roedd hwyrni’r ymyrraeth gan yr Ail a’r Trydydd Ymyrrwr, a hwyrni’r hawlwr yn mabwysiadu eu dadleuon o sylwedd ar Fater 5 wedi amharu ar ddilyniant trefnus y dadleuon a’r dystiolaeth ar Fater 5. Roedd y partïon eraill (Gweinidogion Cymru a’r diffynyddion) yn glodwiw, wedi ceisio gosod eu hymatebion mewn trefn o dan bwysau amser difrifol, ond roedd yr hawlwr yn hawliad PT-2024-CDF-000024 yn gwrthwynebu i ni ystyried y rhannau hynny o’r ymateb a gyflwynwyd ar ôl y gwrandoedd, ac yn gwrthwynebu peidio â gallu cyflwyno rhagor o ddeunydd o’u hymateb eu hunain eto mewn ymateb i’r ymateb.
320. Mae hyn yn anfoddhaol ond ni fyddai hyn ynddo’i hun wedi ein rhwystro rhag penderfynu ar Fater 5. O dan yr amgylchiadau, byddem wedi derbyn yr holl ddeunydd hwyr a gyflwynwyd gan y diffynyddion a Gweinidogion Cymru, ac ni fyddem wedi caniatáu rhagor o gyflwyniadau eto gan yr hawlwr yn hawliad PT-2024-CDF-000024.

321. Ond rydym wedi penderfynu ei bod, am resymau eraill, yn rhy gynnar i ni ddod i benderfyniad neu hyd yn oed fynegi barn dros dro ar Fater 5.
322. Mae Gweinidogion Cymru, sydd â diddordeb penodol ym Mater 5 oherwydd mai eu deddfwriaeth hwy sydd o dan sylw, wedi cyflwyno eu dadleuon, fel y dywedasom, ar y sail y dylai'r diffynyddion fethu ar Fater 1B ac ar eu gwrth-hawliadau. Fodd bynnag, mae'r diffynyddion wedi llwyddo gyda Mater 1B. Os bydd y diffynyddion hefyd yn llwyddo gyda'u gwrth-hawliadau, roedd Gweinidogion Cymru yn eu Datganiad Sefyllfa yn derbyn y gallai'r ddeddfwriaeth fod yn torri hawliau A1P1 y partïon sy'n landlordiaid, ond nid pa ganlyniadau ddylai ddilyn, boed hynny drwy ddatganiad gan y llys, neu drwy is-ddeddfwriaeth wedi'i haddasu. Wedi hynny, maent wedi tynnu'r consesiwn yn ôl, ond nid ydynt wedi cwblhau eu dadleuon (gweler paragraff 316 above). Mae'r diffynyddion, yn y cyfamser, yn dadlau bod consesiwn (gwreiddiol) Gweinidogion Cymru yn anghywir, ac er bod y diffynyddion wedi llwyddo ar Fater 1B, a'u bod yn gobeithio llwyddo gyda'u gwrth-hawliadau, nid yw'r darpariaethau y mae amheuaeth yn eu cylch yn mynd yn groes i hawliau A1P1 landlordiaid ac nid oes sail gyfreithiol i'w darllen i lawr na chytuno ag unrhyw un o'r camau adferol a awgrymwyd gan yr hawlwr ("no legal basis to read them down or accede to any of the claimants' suggested remedial steps" - paragraff 21 o'u cyflwyniad ysgrifenedig terfynol dyddiedig 24 Gorffennaf 2024).
323. Rydym yn cytuno â'r hawlwr a'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr y byddai'n anghywir penderfynu ar Fater 5 ar sail rhagdybiaeth ynghylch canlyniad y gwrth-hawliadau (paragraff 308 above).
324. Ni welwn unrhyw fudd, ac anfantais bosibl sylweddol, i roi unrhyw arwydd o'n ffordd bresennol o feddwl, pan gall cymaint ddibynnu ar ganlyniad y gwrth-hawliadau.
325. Credwn mai'r unig gam priodol yw gadael i'r penderfyniad ar Fater 5 gael ei wneud pan fydd canlyniad y gwrth-hawliadau wedi'i bennu. Rydym hefyd yn bryderus am yr anghytundeb ynghylch ffeithiau'r achos parhaus sy'n amlwg o'r deunyddiau a ffeiliwyd ers y gwrandawiad, hyd at a chan gynnwys llythyr gan y cyfreithwyr at yr hawlwr yn hawliad PT-2024-CDF-000024 a'r Ail a'r Trydydd Ymyrrwr dyddiedig 1 Awst 2024. Rydym hefyd o dan anfantais am nad oes gennym ddadl lawn gan Weinidogion Cymru ynghylch holl ganlyniadau posibl y gwrth-hawliadau.
326. Mae Mater 5 yn gofyn am benderfyniad sy'n ymwneud â ffeithiau a'r gyfraith. Mae'r cyflwyniadau cyfreithiol yn anghyflawn heb wybod y ffeithiau, ac mae'n amhosibl gwybod y ffeithiau perthnasol tan ar ôl penderfyniad ar y gwrth-hawliadau.
327. Felly, nid ydym yn dweud dim mwy am Fater 5 ac nid ydym yn gwneud penderfyniad yn ei gylch.